

# CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

Gwaith y Nant

CANOLFAN UWCHEFRYDIAU  
CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU

CYFRES BEIRDD YR UCHELWYR

*Cyfarwyddwr*

Yr Athro Dafydd Johnston, BA, PHD,

*Golygydd y Gyfres*

Ann Parry Owen, BA, PHD

*Golygydd Ymgynghorol*

Yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, BA, DPHIL, DLITT, FBA

*Bwrdd Golygyddol*

Gareth A. Bevan, MA

Huw Meirion Edwards, BA, DPHIL

Dafydd Johnston, BA, PHD

A. Cynfael Lake, MA, PHD

Peredur Lynch, BA, PHD

# GWAITH Y NANT

golygwyd gan

HUW MEIRION EDWARDS



ABERYSTWYTH  
CANOLFAN UWCHEFRYDIAU CYMREIG A CHELTAIDD  
PRIFYSGOL CYMRU  
2013

□ Prifysgol Cymru ©, 2013.

Adargraffiad PDF gyda mân gywiriadau, 2023.

Cyhoeddir y gwaith hwn dan drwydded [CC BY-NC-SA 4.0](https://creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0/).



Am ymholiadau ynglŷn â hawliau atgynhyrchu eraill, cysyllter â'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HH.

Y mae cofnod catalogio'r llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

ISBN 978-1-907029-11-0

Cysodwyd yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru.

Cydnabyddir yn ddiolchgar gefnogaeth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant tuag at baratoi'r adargraffiad digidol hwn. Am wybodaeth bellach cysyllter ag Ann Parry Owen, apo@cymru.ac.uk.

## *Dull y golygu*

Y mae'r testun yn seiliedig ar un llawysgrif yn unig, sef Peniarth 54 a luniwyd oddeutu 1480, gw. D. Huws, *Repertory of Welsh Manuscripts and Scribes* (i ymddangos) dan *Peniarth 54*. Cofnodwyd y cerddi yn fwy na thebyg gan y bardd ei hun. Lle bo diwygiadau, rhoddir darlleniadau'r llawysgrif ar waelod y testun. Ceir dau fersiwn o gerdd 7 yn y llawysgrif. Seiliwyd y golygiad o'r gerdd honno ar y testun llawnaf, gan gymryd rhai darlleniadau a llinellau ychwanegol o'r ail fersiwn lle bo'r testun arall yn ddiffygiol. Rhestrir y darlleniadau amrywiol o dan y testun golygedig, ynghyd â threfn y llinellau yn y ddau fersiwn.

Dynodir llythrennau nad oes modd eu darllen â dotiau rhwng bachau petryal, a chaiff llythrennau ansicr eu hitaleiddio. Os yw llinell yn anghyflawn, neu os yw gair neu eiriau'n annarllenadwy oherwydd staen, rhwyg, &c., dynodir hynny â bachau petryal gwag. Cyflwynir y testun mewn orgraff Cymraeg Diweddar ac wedi ei briflythrennu, ei atalnodi a'i baragraffu. Diweddarwyd orgraff a sain geiriau, oni bai fod yr odl neu'r gynghanedd yn gofyn am sain Gymraeg Canol (gw. GDG<sup>3</sup> xlvi); er enghraifft, diweddarwyd *-ei-*, *-ei* yn *ai*. Ond ni ddiweddarwyd ffurfiau Cymraeg Canol dilys megis *fal*, *wyd* (sef 'wyt'), *try* (sef 'tra') &c. Ar y cyfan safonir ffurfiau a allai fod yn ffurfiau llafar, e.e. *cefen*, *hwddu* (sef 'chwythu'), ond cedwir y terfyniad lluosog *-e* a ffurfiau megis *Lloeger*, *llyfyr* a *geifir* a brofir gan yr odl.

Yn yr Eirfa ar ddiwedd y gwaith rhestrir y geiriau a drafodir yn y Nodiadau (nodir hynny ag 'n'). Rhestrir hefyd eiriau dieithr neu eiriau sy'n digwydd mewn ystyr wahanol i'r arfer, gan gynnig aralleiriad ar eu cyfer. Yn y mynegeion i enwau priod rhestrir pob enw person a phob enw lle sy'n digwydd yn y cerddi.

## *Diolchiadau*

Carwn ddiolch i aelodau Bwrdd Golygyddol 'Cyfres Beirdd yr Uchelwyr' ac i'r Golygydd Ymgynghorol, yr Athro Emeritws R. Geraint Gruffydd, am eu sylwadau gwerthfawr, ac yn arbennig i Olygydd y gyfres, Dr Ann Parry Owen, am ei gwaith ardderchog ar y gyfrol.

# Cynnwys

DULL Y GOLYGU.....	v
DIOLCHIADAU .....	vi
BYRFODDAU	
Llyfryddol.....	ix
Termau a geiriau.....	xvi
GWAITH Y NANT	
RHAGYMDRODD .....	1
TESTUN	
1. I Rys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Aberpergwm i ddymuno iddo ddychwelyd adref o Loegr .....	13
2. I ofyn dwbled gan Rys ap Llywelyn ap Gwilym.....	16
3. I ofyn cleddyf gan Rys ap Dafydd ab Ieuan Fwyaf dros Rys ap Llywelyn ap Gwilym .....	20
4. I ofyn cist gan Wilym ab Ieuan Fwyaf dros Siancyn ap Llywelyn.....	24
5. I ofyn mantell gan Ddafydd ap Rhys Tew dros Fargred ferch Morgan.....	28
6. I ofyn tarw coch gan Domas ap Dafydd ap Siancyn ab Ieuan ap Hywel dros Wilym ap Rhys ap Gwilym .....	31
7. I ofyn dwbled gan Risiart ap Siancyn Twrbil.....	34
8. I ofyn caseg gan Siôn ap Gwilym Fychan dros Domas ap Siancyn Twrbil.....	39
9. I ofyn gŵn gan yr Abad Wiliam.....	42
10. I ofyn clog gan Syr Dafydd Fychan o Ystradfellte.....	45
11. Moliant Watgyn ap Syr Rhosier Fychan .....	48
12. Moliant Tomas ap Syr Rhosier Fychan i ddymuno iddo ddychwelyd o gastell Penfro.....	51
13. Moliant Meredudd.....	55
14. Melltith ar ladron Llandysul.....	57
15. Englynion i'r lladron .....	61
16. Dychan i Fedyn Sioch .....	63

Atodiad .....	64
NODIADAU.....	65
GEIRFA.....	137
Enwau personau.....	149
Enwau lleoedd .....	152
MYNEGAI I'R LLINELLAU CYNTAF.....	155
MYNEGAI I'R GWRTHRYCHAU A'R EIRCHIAID .....	157



# Byrfoddau

## Llyfryddol

- AH *Astudiaethau ar yr Hengerdd*, gol. Rachel Bromwich ac R. Brinley Jones (Caerdydd, 1978)
- B *Bwletin y Bwrdd Gwybodau Celtaidd*, 1921–93
- BB *Brut y Brenhinedd*, ed. J.J. Parry (Cambridge, Massachusetts, 1937)
- BD *Brut Dingestow*, gol. Henry Lewis (Caerdydd, 1942)
- BRh *Breudwyt Ronabwy*, gol. Melville Richards (Caerdydd, 1948)
- ByCy *Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940* (Llundain, 1953)
- Card Llawysgrif yn Llyfrgell Ganolog Caerdydd
- CDG *Cerddi Dafydd ap Gwilym*, gol. Dafydd Johnston *et al.* (Caerdydd, 2010)
- CGD Bleddyn Owen Huws, *Y Canu Gofyn a Diolch c.1350–c.1630* (Caerdydd, 1998)
- CMCS *Cambridge Medieval Celtic Studies*, 1981–93; *Cambrian Medieval Celtic Studies*, 1993–
- CMOC<sup>2</sup> *Canu Maswedd yr Oesoedd Canol*, gol. Dafydd Johnston (ail arg., Pen-y-bont ar Ogwr, 1998)
- CO<sup>3</sup> *Culhwch ac Olwen*, gol. Rachel Bromwich a D. Simon Evans gyda chymorth Dafydd H. Evans (Caerdydd, 1997)
- CRC *Canu Rhydd Cynnar*, gol. T.H. Parry-Williams (Caerdydd, 1932)
- CTC C.T. Beynon Davies, ‘Cerddi’r Tai Crefydd’ (M.A. Cymru [Bangor], 1973)
- Cylchg LIGC *Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, 1939–
- DGGD *Detholiad o Gywyddau Gofyn a Diolch*, gol. Bleddyn Owen Huws (Caernarfon, 1998)

- DGIA H.M. Edwards, *Dafydd ap Gwilym: Influences and Analogues* (Oxford, 1996)
- DG.net 'Dafydd ap Gwilym.net', gol. Dafydd Johnston *et al.* : <dafyddapgwilym.net>
- DN *The Poetical Works of Dafydd Nanmor*, ed. Thomas Roberts and Ifor Williams (Cardiff and London, 1923)
- DNB<sup>2</sup> *Oxford Dictionary of National Biography*, ed. H.C.G. Matthew and B. Harrison (Oxford, 2004)
- DWB *The Dictionary of Welsh Biography down to 1940* (London, 1959)
- DWH Michael Powell Siddons, *The Development of Welsh Heraldry* (3 vols., Aberystwyth, 1991–3)
- EANC R.J. Thomas, *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (Caerdydd, 1938)
- Egerton Llawysgrif o gasgliad Egerton yn y Llyfrgell Brydeinig, Llundain
- EVW Margaret Enid Griffiths, *Early Vaccination in Welsh with English Parallels* (Cardiff, 1937)
- EWGT *Early Welsh Genealogical Tracts*, ed. P.C. Bartrum (Cardiff, 1966)
- FfBO *Ffordd y Brawd Odrig*, gol. Stephen J. Williams (Caerdydd, 1929)
- G *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg*, gol. J. Lloyd-Jones (Caerdydd, 1931–63)
- GCH *Glamorgan County History* (6 vols., Cardiff, 1936–88)
- GDB *Gwaith Dafydd Benfras ac Eraill o Feirdd Hanner Cyntaf y Drydedd Ganrif ar Ddeg*, gol. N.G. Costigan (Bosco) *et al.* (Caerdydd, 1995)
- GDC *Gwaith Dafydd y Coed a Beirdd Eraill o Lyfr Coch Hergest*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2002)
- GDEp *Gwaith Dafydd Epynt*, gol. Owen Thomas (Aberystwyth, 2002)
- GDID *Gwaith Deio ab Ieuan Du a Gwilym ab Ieuan Hen*, gol. A. Eleri Davies (Caerdydd, 1992)

- GDLI *Gwaith Dafydd Llwyd o Fathafarn*, gol. W. Leslie Richards (Caerdydd, 1964)
- Gen Llyfr 'Genesis' yn yr Hen Destament
- GGLI *Gwaith Gruffudd Llwyd a'r Llygliwiaid Eraill*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2000)
- GGMD i *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, i, Canu i deulu Penmynydd*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2003)
- GGMD ii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, ii, Canu Crefyddol*, gol. Barry J. Lewis (Aberystwyth, 2005)
- GGMD iii *Gwaith Gruffudd ap Maredudd ap Dafydd, iii, Canu Amrywiol*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2007)
- GG.net 'Guto'r Glyn.net', gol. Ann Parry Owen *et al.*: <gutorglyn.net>
- GHD *Gwaith Huw ap Dafydd ap Llywelyn ap Madog*, gol. A. Cynfael Lake (Aberystwyth, 1995)
- GHS *Gwaith Hywel Swrðwal a'i deulu*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2000)
- GIF *Gwaith Iorwerth Fynglwyd*, gol. Howell Ll. Jones ac E.I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GIG *Gwaith Iolo Goch*, gol. D.R. Johnston (Caerdydd, 1988)
- GLD *Gwaith Lewys Daron*, gol. A. Cynfael Lake (Caerdydd, 1994)
- GLGC *Gwaith Lewys Glyn Cothi*, gol. Dafydd Johnston (Caerdydd, 1995)
- GLM *Gwaith Lewys Môn*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1975)
- GLMorg *Gwaith Lewys Morgannwg*, gol. A. Cynfael Lake (2 gyfrol, Aberystwyth, 2004)
- GLI *Gwaith Llawdden*, gol. R. Iestyn Daniel (Aberystwyth, 2006)
- GLIBH *Gwaith Llywelyn Brydydd Hoddnant, Dafydd ap Gwilym, Hillyn ac eraill*, gol. Ann Parry Owen a Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 1996)

- GLILI *Gwaith Llywarch ap Llywelyn ‘Prydydd y Moch’*, gol. Elin M. Jones (Caerdydd, 1989)
- GMBen *Gwaith Madog Benfras ac eraill o feirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg*, gol. Barry J. Lewis a Twm Morys (Aberystwyth, 2007)
- GMD *Gwaith Madog Dwygraig*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2006)
- GMW D. Simon Evans, *A Grammar of Middle Welsh* (Dublin, 1964)
- GO *L’œuvre poétique de Gutun Owain*, ed. E. Bachellery (Paris, 1950–1)
- GP *Gramadegau’r Penceirddiaid*, gol. G.J. Williams ac E.J. Jones (Caerdydd, 1934)
- GPB *Gwaith Prydydd Breuan, Rhys ap Dafydd ab Einion, Hywel Ystorm, a Cherddi Dychan Dienw o Lyfr Coch Hergest*, gol. Huw Meirion Edwards (Aberystwyth, 2000)
- GPC *Geiriadur Prifysgol Cymru* (Caerdydd, 1950–2002)
- GPC<sup>2</sup> *Geiriadur Prifysgol Cymru* (ail arg., Caerdydd, 2003–)
- GPhE *Gwaith Syr Phylib Emlyn, Syr Lewys Meudwy a Mastr Harri ap Hywel*, gol. M. Paul Bryant-Quinn (Aberystwyth, 2001)
- GRB *Gwaith Rhys Brydydd a Rhisiart ap Rhys*, gol. Eurys I. Rowlands (Caerdydd, 1976)
- GRCG Cennard Davies, ‘Robin Clidro a’i Ganlynwyr’ (M.A. Cymru [Abertawe], 1964)
- R.A. Griffiths: PW i R.A. Griffiths, *The Principality of Wales in the Later Middle Ages: i. South Wales 1277–1536* (Cardiff, 1972)
- GRhGE *Gwaith Rhys Goch Eryri*, gol. Dylan Foster Evans (Aberystwyth, 2007)
- GSDT *Gwaith Syr Dafydd Trefor*, gol. Rhiannon Ifans (Aberystwyth, 2005)

- GSRh *Gwaith Sefnyn, Rhisiurdyn, Gruffudd Fychan ap Gruffudd ab Ednyfed a Llywarch Bentwrch*, gol. Nerys Ann Jones ac Erwain Haf Rheinallt (Aberystwyth, 1995)
- GST *Gwaith Siôn Tudur*, gol. Enid Roberts (Caerdydd, 1980)
- GTP *Gwaith Tudur Penllyn ac Ieuan ap Tudur Penllyn*, gol. Thomas Roberts (Caerdydd, 1958)
- Gwilym Tew: Gw Anne Elizabeth Jones, 'Gwilym Tew: astudiaeth destunol a chymharol o'i lawysgrif, Peniarth 51, ynghyd ag ymdriniaeth â'i farddoniaeth' (Ph.D. Cymru [Bangor], 1981)
- GWL iii *A Guide to Welsh Literature c.1530–1700 Volume III*, ed. R. Geraint Gruffydd (Cardiff, 1997)
- GyB Dafydd Johnston, *Galar y Beirdd: Marwnadau Plant/Poets' Grief: Medieval Welsh Elegies for Children* (Caerdydd, 1993)
- HGK *Historia Gruffud vab Kenan*, gol. D. Simon Evans (Caerdydd, 1977)
- HW J.E. Lloyd, *A History of Wales* (London, 1912)
- IGE<sup>2</sup> *Cywyddau Iolo Goch ac Eraill*, gol. Henry Lewis, Thomas Roberts ac Ifor Williams (ail arg., Caerdydd, 1937)
- Io 'Yr Efengyl yn ôl Sant Ioan' yn y Testament Newydd
- LBS S. Baring-Gould and John Fisher, *The Lives of the British Saints* (4 vols., London, 1907–13)
- LPMG G.T. Clark, *Limbus patrum Morganiae et Glamorganiae* (London, 1886)
- Luc 'Yr Efengyl yn ôl Luc' yn y Testament Newydd
- LlCy *Llên Cymru*, 1950–
- LlGC Llawysgrif yng nghasgliad Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- LIU Dafydd Johnston, *Llên yr Uchelwyr: Hanes Beirniadol Llenyddiaeth Gymraeg 1300–1525* (Caerdydd, 2005)
- MFGLI *Mynegai i Farddoniaeth Gaeth y Llawysgrifau* (Caerdydd, 1978)

- MWM Daniel Huws, *Medieval Welsh Manuscripts* (Cardiff and Aberystwyth, 2000)
- NBMM Eirian E. Edwards, 'Noddwyr y beirdd yn siroedd Morgannwg a Mynwy' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1970)
- NBSBM Tegwen Llwyd, 'Noddwyr beirdd yn siroedd Brycheiniog a Maesyfed' (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1987)
- ODCC<sup>3</sup> *The Oxford Dictionary of the Christian Church*, ed. F.L. Cross and E.A. Livingstone (third ed., Oxford, 1997)
- OED<sup>2</sup> *The Oxford English Dictionary* (second ed., Oxford, 1989)
- Pen Llawysgrif yng nghasgliad Peniarth, yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth
- Peniarth 67 E. Stanton Roberts, *Peniarth MS. 67* (Cardiff, 1918)
- PKM *Pedeir Keinc y Mabinogi*, gol. Ifor Williams (Caerdydd, 1930)
- RB *The Text of the Bruts from the Red Book of Hergest*, ed. J. Rhŷs and J. Gwenogvryn Evans (Oxford, 1890)
- Salm 'Llyfr y Salmu' yn yr Hen Destament
- TA *Gwaith Tudur Aled*, gol. T. Gwynn Jones (Caerdydd, 1926)
- THSC *The Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion*, 1892/3–
- TLIM G.J. Williams, *Traddodiad Llenyddol Morgannwg* (Caerdydd, 1948)
- Traeth *Y Traethodydd*, 1845–
- Treigladau T.J. Morgan, *Y Treigladau a'u Cystrawen* (Caerdydd, 1952)
- TRS *The Radnorshire Society Transactions*, 1931–
- TWS Elissa R. Henken, *Traditions of the Welsh Saints* (Cambridge, 1987)
- TYP<sup>3</sup> *Trioedd Ynys Prydein*, ed. Rachel Bromwich (third ed., Cardiff, 2006)

- WATU Melville Richards, *Welsh Administrative and Territorial Units* (Cardiff, 1978)
- WCCR<sup>2</sup> Glanmor Williams, *The Welsh Church from Conquest to Reformation* (second ed., Cardiff, 1976)
- WCD P.C. Bartrum, *A Welsh Classical Dictionary: People in History and Legend up to about A.D. 1000* (Aberystwyth, 1993)
- WG1 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 300–1400* (Cardiff, 1974)
- WG2 P.C. Bartrum, *Welsh Genealogies AD 1400–1500* (Aberystwyth, 1983)
- I. Williams: ELI Ifor Williams, *Enwau Lleoedd* (Lerpwl, 1945)
- YB *Ysgrifau Beirniadol*, 1965–
- YCM<sup>2</sup> *Ystoria de Carolo Magno*, gol. Stephen J. Williams (ail arg., Caerdydd, 1968)
- YEPWC *Ymryson Edmwnd Prys a Wiliam Cynwal*, gol. Gruffydd Aled Williams (Caerdydd, 1986)
- YSG *Ystoriaeu Seint Greal*, gol. Thomas Jones (Caerdydd, 1992)
- Yst Addaf T. Gwynn Jones, ‘Ystoria Addaf a Val y Cauas Elen y Grog: Tarddiad, Cynnwys ac Arddull y Testunau Cymraeg a’u Lledaeniad’ (M.A. Cymru [Aberystwyth], 1936)
- ZCP *Zeitschrift für celtische Philologie*, 1896–

*Termau a geiriau*

a.	ansoddair, -eiriol	g.	ganrif
adf.	adferf	g.	gwrywaidd
amhff.	amherffaith	Gael.	Gaeleg
amhrs.	amhersonol	gol.	golygydd, golygwyd
amr.	amrywiad ar		gan
anh.	anhysbys	grff.	gorffennol
ardd.	arddodiad, -iaid	gthg.	gwrthgyferbynier
arg.	argraffiad	gw.	gweler
<i>art.cit.</i>	<i>articulo citato</i>	gwrth.	gwrthrych, gwrthrychol
At.	Atodiad	Gwydd.	Gwyddeleg
b.	benywaidd	H.	Hen
be.	berfenw	h.y.	hynny yw
bf. (f.)	berf, -au	<i>ib.</i>	<i>ibidem</i>
<i>c.</i>	<i>circa</i>	<i>id.</i>	<i>idem</i>
c. (g.)	canrif	<i>l.c.</i>	<i>loco citato</i>
C.	Canol	ll.	lluosog; llinell
c.c.	cyn Crist	Llad.	Lladin
cf.	cymharer	llau.	llinellau
Cym.	Cymraeg	llsgr.	llawysgrif
cys.	cysylltair, cysylltiad	llsgrau.	llawysgrifau
d.g.	dan y gair	Llyd.	Llydaweg
dib.	dibynnol	m.	mewnol; marw
Diw.	Diweddar	myn.	mynegol
dyf.	dyfodol	n.	nodyn
e.	enw	neg.	negydd, -ol
eb.	enw benywaidd	<i>op.cit.</i>	<i>opere citato</i>
e.c.	enw cyffredin	pres.	presennol
ed.	<i>edited by, edition</i>	prs.	person, -ol
e.e.	er enghraifft	pth.	perthynol
eg.	enw gwrywaidd	r	<i>recto</i>
engh.	enghraifft	rh.	rhagenw, -ol
enghrau.	enghreifftiau	S.	Saesneg
eith.	gradd eithaf	td.	tudalen
e.p.	enw priod	tt.	tudalennau
<i>et al.</i>	<i>et alii</i>	un.	unigol
f.	ffolio	v	<i>verso</i>
<i>fl.</i>	<i>floruit</i>	vols.	<i>volumes</i>
ffig.	ffigurol		
Ffr.	Ffrangege		



## Rhagymadrodd

Y mae'r bardd sy'n dwyn yr enw 'Y Nant' yn cynnig golwg wahanol inni ar ddiwylliant barddol y bymthegfed ganrif. Mewn un llawysgrif yn unig y diogelwyd ei ganu, sef llawysgrif Peniarth 54. Yno, yn gymysg â chywyddau beirdd mwy adnabyddus megis Hywel Dafi, Huw Cae Llwyd a Dafydd Epynt, cofnodwyd dwy ar bymtheg o gerddi, cerddi gofyn yn bennaf, ynghyd â mawl a dychan, mewn llawysgrifen drom, anghyffredin ac mewn orgraff hynod.<sup>1</sup> Y mae pob llinell yn strided hir o lythrennau heb eu gwahanu, a phob cerdd bron ar fesur y daethpwyd i'w alw yn ddiweddarach yn 'fesur Clidro', unedau sionc o bedair llinell fer a'r tair llinell gyntaf yn odli â'i gilydd gyda thrawiad cynganeddol rhwng diwedd y drydedd a diwedd y bedwaredd linell. Y mae'r enghreifftiau niferus o gywiro ac o ailgyfansoddi yn awgrymu'n gryf mai'r bardd ei hun a gofnododd y cerddi, fel sy'n wir am amryw o feirdd eraill llawysgrif Peniarth 54, a hynny oddeutu'r flwyddyn 1480.<sup>2</sup> Cyhoeddwyd fersiynau lled-ddiplomatig o chwech o gerddi'r Nant gan Griffith John Williams mewn erthygl bwysig yn 1957,<sup>3</sup> a'i fwriad oedd cyhoeddi'r gweddill maes o law. Rhoes le i'r Nant hefyd yn ei astudiaeth o draddodiad llenyddol Morgannwg,<sup>4</sup> ond ni roddwyd sylw manwl i'r bardd oddi ar hynny.<sup>5</sup>

*Nant*, neu *Nant a'i cant*, yw'r priodoliad sydd wrth gwt y rhan fwyaf o'r cerddi, ond yn achos cerdd 16, cerdd ddychan i'r bardd Bedyd Sioch, ceir y geiriau *Dafydd Nant* mewn llaw wahanol. Efallai fod sail i'r priodoliad gan fod y bardd fel petai'n cyfeirio ato'i hun wrth yr enw 'Dafydd' mewn cerdd yn gofyn dwbled: *Dwbled o felfed / Ne ddwbled o siamled / Am Ddafydd i gerdded ...*<sup>6</sup> Y mae lleoliad y nant a roes iddo ei enw barddol yn ddirgelwch.<sup>7</sup> Gan mai i Forgannwg a Brycheiniog y perthyn bron pob un o'i

<sup>1</sup> Fe all mai damau o gerddi hwy yw cerdd 16 a'r llinellau dyrys sydd wedi eu cynnwys yn yr atodiad i'r golygiad hwn. Y mae'r tudalen (neu'r ddau dudalen efallai) a oedd yn cynnwys dechrau cerdd 14 wedi diflannu. Y mae dechrau cerdd 13 wedi ei golli yn ogystal, a gwelir yr un llaw ar ymyl tudalen sydd wedi ei rwygo ymaith, gw. td. 56 isod.

<sup>2</sup> Gw. sylwadau Daniel Huws yn MWM 95.

<sup>3</sup> G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 77–89 (cerddi 1, 3, 4, 6, 9 a 10). Ceir hefyd olygiad arloesol ond anfoddfaol o gerdd 14, 'Melltith ar ladron Llandysul', gan T. Gwynn Jones, 'Ein kymrisches Fluchgedicht', ZCP xvii (1928), 167–76.

<sup>4</sup> Gw. yn arbennig TLIM 114–16.

<sup>5</sup> Ond gw. sylwadau Huw M. Edwards, DGIA 50–3, 150–1; Dafydd Johnston, LIU 87, 261, 382–3; a Ceri Lewis yn ei bennod ar draddodiad llenyddol Morgannwg yn GCH iii, 524–5.

<sup>6</sup> 7.89–91.

<sup>7</sup> Yr oedd un o feirdd amlycaf Morgannwg yn ail hanner yr 17g., David Williams, yn arddel yr enw Dafydd o'r Nant. Ficer Pen-llin ger y Bont-faen oedd hwnnw, gw. TLIM 102–7. Ymddengys rhai o'i gerddi dan enw'r Nant yn MFGLI.

noddwyr, y mae'n fwy na thebyg mai un o'r parthau hynny ydoedd. Awgrym petrus G.J. Williams oedd mai gŵr o Frycheiniog ydoedd, o gyffiniau Ystradfellte efallai, yn ne'r sir. Yn sicr, yr oedd ganddo berthynas agos ag un teulu arbennig a hanai o Borthgogof yn Ystradfellte, tylwyth nad oedd ymhlith noddwyr amlycaf y cyfnod; y mae cynifer â phump o'i gerddi gofyn yn ymwneud ag aelodau o'r teulu hwnnw,<sup>8</sup> a chanodd hefyd i offeiriad Ystradfellte.<sup>9</sup> Molodd yn ogystal ddau aelod o deulu blaenllaw Fychaniaid Tretŵr yn ne-ddwyrain Brycheiniog,<sup>10</sup> teulu mwy amlwg o lawer a oedd ymhlith prif noddwyr beirdd y cyfnod. Ceir awgrym mai un o Frycheiniog ydoedd yn y gerdd lle y cyfeiria ato'i hun, fe ymddengys, wrth yr enw Dafydd. Cwyna fod gwŷr Elfed wedi dwyn ei bais ddrudfawr, ond pan gaiff ddwblled newydd gan Risiart ap Siancyn Twrbil o Landudwg, meddai:

Minne fyddaf amlwg  
 Erbyn dygwyl Dudwg,  
 A'r gloria o'r golwg  
 Megis bugelydd,  
 A thorri sbaere  
 Y gŵn llwyd gore,  
 A thynnu fy mreiche  
 I'u dangos yng ngwlad Frychan.<sup>11</sup>

Ar y llaw arall, *O Forgannwg* y cyrchodd y Nant gartref noddwr a drigai uwchlaw Caerllion yng Ngwent.<sup>12</sup> Yn ogystal â chanu dwy gerdd i aelodau o deulu'r Twrbiliaid neu'r Twrberfiliad a hanai o Landudwg ger Pen-y-bont ar Ogwr,<sup>13</sup> a cherdd i abad Margam gerllaw,<sup>14</sup> molodd un o noddwyr enwocaf Morgannwg, Rhys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Aberpergwm yng Nglyn-nedd.<sup>15</sup> Ar yr aelwyd honno hefyd, yn fwy na thebyg, y canwyd yr englynion dychan i'r lladron,<sup>16</sup> ac, o bosibl, y gerdd ddychan i Fedyn Sioch.<sup>17</sup> Nid yw Glyn-nedd ond ychydig filltiroedd i'r de-orllewin o Ystradfellte, a hanai Rhys ar ochr ei fam o linach Bleddyn ap Maenyrch o Frycheiniog.<sup>18</sup> Y mae'n arwyddocaol fod gwrthrych cerddi 2 a 3, Rhys ap Llywelyn ap Gwilym o Borthgogof, yn gefnder i Rys ap Siôn o Lyn-nedd, enghraifft o'r amryfal glymau teuluol sy'n cysylltu noddwyr y bardd â'i

<sup>8</sup> Cerddi 2–6.

<sup>9</sup> Cerdd 10.

<sup>10</sup> Cerddi 11–12.

<sup>11</sup> 7.109–16.

<sup>12</sup> 13.22.

<sup>13</sup> Cerddi 7–8.

<sup>14</sup> Cerdd 9.

<sup>15</sup> Cerdd 1.

<sup>16</sup> Gw. nodyn cefndir cerdd 15.

<sup>17</sup> Gw. nodyn cefndir cerdd 16.

<sup>18</sup> Gw. nodiadau cefndir cerddi 1 a 7.

gilydd. Efallai mai cysylltiad teuluol a ddug y Nant i Landudwg: yr oedd Rhisiart Twrbil yn briod â Margred, chwaer Rhys ap Siôn (ac felly'n perthyn drwy briodas hefyd i Rys ap Llywelyn). A thybed nad yn sgil cysylltiad teuluol arall yr aeth y bardd i Dretŵr? Yr oedd gwraig gyntaf Rhys ap Siôn yn ferch i Syr Rhosier Fychan o Dretŵr ac yn hanner chwaer i Watgyn a Thomas ap Syr Rhosier Fychan y cenir iddynt yng ngherddi 11 a 12.

Wrth ystyried cysylltiadau daeryddol y Nant y mae un cyfeiriad arall sy'n mynnu sylw. Dyma a ddywed wrth ofyn clog gan Syr Dafydd Fychan o Ystradfellte:

Ef a rydd ym simwr  
 I guddio fy llowdwr  
 A'm hers a'm cwthwr  
 Wrth fyned i Langathen ...<sup>19</sup>

Sonia amdano'i hun yn cardota yn ei wisg newydd: *A chasglu blawd cynnwll / I'm henfwith gennyf*.<sup>20</sup> Fe all, felly, mai ym mhlwyf Llangathen gerllaw Llandeilo yr oedd ei gartref. Fodd bynnag, ymddengys hynny yn annhebygol yng ngoleuni cyfeiriad arall, mwy difriol, ganddo at yr ardal honno yn ei felltith ar ladron Llandysul lle y mae'n darogan lladdfa fawr *Wrth Gothi gethin / Islaw Llangathen*.<sup>21</sup> Yn wir, dirmygus yw ei gyfeiriadau at leoedd yn siroedd Caerfyrddin, Ceredigion a Phenfro yn gyffredinol, sy'n adlewyrchu, o bosibl, y ffaith fod ei noddwyr ym Mrycheiniog, Morgannwg a Gwent, hyd y gellir barnu, yn deyrngar i'r Brenin Edward IV a'r achos lorcaidd yng nghyfnod Rhyfeloedd y Rhosynnau, lle'r oedd parthau gorllewinol y wlad at ei gilydd yn gefnogol i blaid y Lancastriaid.<sup>22</sup>

Ar wahân i ddyddiad y llawysgrif, rhaid troi unwaith eto at dystiolaeth fewnol y cerddi am wybodaeth ynghylch cyfnod blodeuo'r bardd. Dangosodd Daniel Huws fod Peniarth 54 wedi ei llunio tua'r flwyddyn 1480 neu ychydig ynghynt, ac mae'r cyfeiriadau y gellir eu dyddio yng nghanu'r Nant yn gyson â hynny. Yn y gerdd gyntaf y mae Rhys ap Siôn o Lyn-nedd yn ymladd dan faner y Brenin Edward—sef Edward IV a ddaeth i'r orsedd am y tro cyntaf yn 1461 ac a fu farw yn 1483—ac o dan ei frawd, y Dug Rhisiart a ddeuai'n Rhisiart III yr un flwyddyn cyn ei ladd ar Faes Bosworth ddwy flynedd yn ddiweddarach. Yng ngherdd 11 fe bwysir ar Watgyn ap

<sup>19</sup> 10.89–92.

<sup>20</sup> 10.107–8.

<sup>21</sup> 14.27–8.

<sup>22</sup> Ar y cefndir gwleidyddol, gw. E.D. Jones, *Beirdd y Bymthegfed Ganrif a'u Cefndir* (Aberystwyth, 1984), Gruffydd Aled Williams, 'The bardic road to Bosworth: a Welsh view of Henry Tudor', THSC, 1986, 7–31 a Helen Fulton, 'Guto'r Glyn and the Wars of the Roses', yn *Gwalch Cynyddau Gwŷr*: *Ysgrifau ar Guto'r Glyn a Chymru'r Bymthegfed Ganrif*, gol. D.F. Evans *et al.* (Aberystwyth, 2013), pennod 2. Gan fod Pen 54 yn cynnwys cynifer o gerddi i'r Fychaniaid ac i Herbertiaid Rhaglan, awgryma Daniel Huws, *op.cit.* 96, mai un o ddilynwyr y teuluoedd hynny yn ne-ddwyrain Cymru oedd noddwr y llawysgrif.

Syr Rhosier Fychan i ymatal rhag dilyn y Brenin Edward i Ffrainc, gan gyfeirio, fe ymddengys, at ymgyrch aflwyddiannus Edward IV yn erbyn Louis XI yn haf 1475. Gan fod Syr Rhosier Fychan, yn ôl pob golwg, wedi marw pan ganwyd y gerdd, rhaid ei bod yn ddiweddarach nag 1471. Yr oedd gwrthrych cerdd 12, sef brawd Watgyn, Tomas ap Syr Rhosier Fychan, etifedd Tretŵr, yn amlwg yng ngweinyddiaeth de Cymru o ddiwedd y 1460au ymlaen. Geilw'r Nant am ryddhau ei noddwr o gastell Penfro, ac fel y dadleuir yn nodyn cefndir y gerdd fe all hynny awgrymu ei bod wedi ei chyfansoddi yn 1470 neu 1471 pan fu'r castell ym meddiant y Lancastriaid cyn ei gipio'n ôl gan blaid Iorc. Yn olaf, bu gwrthrych cerdd 9, Wiliam Corntwn, yn abad ym Margam rhwng 1468 ac 1485, sy'n golygu bod y gerdd honno wedi ei chanu rywbryd rhwng 1468 a thua 1480. Awgryma'r dystiolaeth, felly, fod y cerddi hynny sydd wedi eu diogelu yn perthyn i'r 1470au ac efallai hefyd i'r degawd blaenorol.

O ran ansawdd y canu, y mae darllen cerddi mawl a gofyn y Nant fel darllen fersiynau mwy amrwd, a mwy personol eu naws yn aml, o gerddi'r Cywyddwyr. Yr un yw'r gwerthoedd, a'r un ar y cyfan yw'r gyfeiriadaeth, ac er mor anghelfydd yr ymddengys ochr yn ochr â beirdd fel Lewys Glyn Cothi a Iorwerth Fynglwyd a ganai i rai o'r un noddwyr, y mae'n amlwg fod croeso i ddiddanwch hwyliog y Nant ar rai o aelwydydd amlycaf yr oes. Yn ei gerddi mawl a gofyn mawrygir, yn ôl y disgwyl, haelioni a lletygarwch y noddwyr, eu hawdurdod yn eu broydd eu hunain a'u gallu milwrol, ac anrhydedd eu llinach, gan ddilyn y confensiwn yn aml o enwi'r wraig ar ddiwedd y gân. Yn debyg i brif ffrwd y traddodiad mawl y maent yn ail Trystan neu'n ail Peredur, a dymunir iddynt oes Arthur neu Fyrddin neu Daliesin. Anaml, fodd bynnag, y bydd y Nant yn moli yn unig. Yr unig foliant pur yw'r gerdd i Feredudd (cerdd 13) sy'n tynnu llun afieithus o lawnder a bwrllwm ei lys (er y gallasai fod diben amgen i'r gerdd gan fod rhan ohoni ar goll). Prif ddiben moliant Rhys ap Siôn yw mynegi'r dymuniad iddo ddychwelyd adref i Lyn-nedd o *Loeger dinfflam* lle y bu'n rhyfela ym myddin y brenin a'i frawd Rhisiart—*Yn cael aur a gwin / Gan ei arglwydd frenin, / A'r dug a'i werin / Y sydd yn ei garu*.<sup>23</sup> A phan ddaw tua thref, cyn dychwelyd i Loegr drachefn i gynnal yr achos brenhinol, bydd

... [C]astell-nedd yn falchach  
 Ac Aberafan fach,  
 A Glyn-nedd bellach  
 Yn cynnu tane pillion.<sup>24</sup>

Y mae'n erfyn ar Watgyn ap Syr Rhosier Fychan i gadw draw o Ffrainc. *Gestwng wŷr hirion*, meddai wrtho, *Tu yma i Dregaron*, fel y gwnaeth ei dad

<sup>23</sup> 1.33–6.

<sup>24</sup> 1.69–72

o'i flaen; *Trig i'th wlad o ddifri / A gad i Ffrainc ymgorddi*,<sup>25</sup> gan adael i Edward Frenin ennill Picardi a Mwnt a Gwasgwin. Fel Guto'r Glyn a sawl Cywyddwr arall, nid yw'n brin ei gyngor i'w noddwyr. Yn ei gerdd i frawd Watgyn, Tomas ap Syr Rhosier Fychan, y mae'n galw ar restr faith o saint i'w ryddhau o gastell Penfro<sup>26</sup> gan fwrw ei felltith ar y dref ac ar sir Benfro gyfan.

Cyfrwng mwyaf nodweddiadol y Nant yw'r gerdd ofyn. Y mae'n drawiadol fod cynifer â naw o'r cerddi, gan gynnwys pob un o'r pum cerdd i aelodau o deulu Porthgogof, Ystradfellte, yn perthyn i'r *genre* hwnnw. Y mae gweld cyfran mor uchel, a hynny ar fesur 'angherddwraidd', yn rhwym o ddwyn i gof ddatganiad y gramadegau barddol: *Tri pheth a berthynant ar glerwr: ymbil, a goganu, a gwarthrudaw*.<sup>27</sup> Ac eto, diau y buasai'n well gan y Nant arddel diffiniad y gramadegydd o swydd y teuluwr gynt, sef *kyuanhedu, a haelyoni, ac eruyn da yn deulueid heb rwy ymbil amdanaw*.<sup>28</sup> Fel y dywed wrth ofyn clog gan offeiriad Ystradfellte:

Myn Mair a Chirig,  
Ni ellir fy ngherydd  
Am erchi i ffeiriaid  
Ac i bersoniaid  
Ac i sgwieriaid  
O aur ac arian.<sup>29</sup>

O'r naw cerdd ofyn sydd ar glawr y mae pump yn gofyn dilledyn, sef dwbled (ddwywaith), gŵn, clog a mantell, a'r gweddill yn erchi tarw, caseg, cleddyf a chist, yr unig gerdd sy'n gofyn cist, hyd y gwyddys. Fel ei gyfoeswyr a ganai ar fesur cywydd, y mae'r Nant yn erchi weithiau drosto'i hun a thro arall dros un o'i noddwyr, a gwahoddir y rhoddwr i geisio rhodd yn gyfnewid oddi wrth yr eirchiad. Mabwysiedir llais y noddwr yng ngherdd 3, a cheir amrywiad diddorol ar y confensiwn hwnnw yng ngherdd 4 lle y mae Siancyn ap Llywelyn o Benderyn yng Nghwm Cynon, bron fel cymeriad mewn drama, yn adrodd ei gŵyn wedi i Saeson ei ysbeilio a'i orfodi i weithio'r tir, a'r bardd wedyn yn ei lais ei hun yn mynd rhagddo i erchi'r gist ar ei ran. Anghyffredin hefyd yw'r gerdd i ofyn dwbled gan Risiart ap Siancyn Twrbil (cerdd 7). Mewn cerdd o 152 o linellau, yn llinell 77 y

<sup>25</sup> 11.45–6, 69–70.

<sup>26</sup> 12.21–80.

<sup>27</sup> GP 17. Cf. sylw Bleddyn Owen Huws ynghylch y cerddi gofyn o waith y Nant a gyhoeddwyd gan G.J. Williams: 'Os yw'r cerddi hyn yn arwydd o'r gystadleuaeth a wynebai'r beirdd o du'r beirdd dihyfforddiant yn hanner olaf y bymthegfed ganrif, ac os ydynt yn awgrymu bod lliaws o eirchiad yn tyrru i blastai'r uchelwyr, nid rhyfedd mai diogelweth detholusrwydd yr alwedigaeth farddol drwy gyfyngu ar y gyfundrefn a chreu rheolau caeth i lywodraethu perthynas bardd a'i noddwr a wnaed yng Nghaerwys [sef eisteddfod Caerwys, 1523]', CGD 18–19.

<sup>28</sup> GP 17.

<sup>29</sup> 10.55–60.

cyflwynir y cais am rodd. Cyn hynny ceir cymysgedd o fawl, adleisiau o'r canu brud wrth ddarogan tranc y lladron sy'n anrheithio'r wlad, ynghyd â fersiwn anghyfarwydd o chwedl Myrddin Wylt lle y caiff y noddwr, yn hytrach na'r bardd, ei uniaethu â Myrddin, a'i lys yn Llandudwg â Choed Celyddon.

Er gwaethaf amrywiadau o'r fath, yr oedd y Nant yn ddigon hyddysg yng nghonfensiynau canu'r penceirddiaid. Wrth erchi gwisg yn enwedig, y mae'n tynnu ar yr un casgliad parod o ddelweddau. Y mae mantell goch Wyddelig, er enghraifft, *Cygoched â'r egroes* neu *Â lliw grawn celyn*, / *Ne waed aderyn* / *A fai wedy ei daro*.<sup>30</sup> Caiff y cleddyf ei gymharu â llu o gleddyfau enwog o'r traddodiad Cymreig a chyfandirol, fel Caledfwlch, Corsëus, Durendardd a Hawtyclŷr,<sup>31</sup> enwau cyfarwydd mewn cywyddau i gleddyfau ers cyfnod Dafydd ap Gwilym a Iolo Goch. Y mae'n wir, fodd bynnag, fod natur y dyfalu yng ngherddi'r Nant yn llai dyfeisgar a soffistigedig na'r hyn sy'n gyffredin yng ngwaith y Cywyddwyr. Yn ei astudiaeth o'r canu gofyn a diolch, sylwa Bleddyn Owen Huws fod cerddi'r Nant yn fwy uniongyrchol eu harchiad a'r dyfalu yn llai dychmygus a chywrain. 'Tybed', hola, 'a oedd cynnwys disgrifiad o wrthrych trwy ddyfalu yn grefft a arferid i urddasoli'r canu gofyn yn wreiddiol er mwyn gwahaniaethu rhwng canu erchi'r glêr a fuasai, o bosibl, yn llai addurnedig ac yn fwy ymgreiniol ei naws?'<sup>32</sup> Y mae'n anodd credu mai'r Nant oedd yr unig fardd i ganu yn y dull hwn yn niwedd y bymthegfed ganrif a chyn hynny. Un wedd ddifyr ar ei ddyfalu yw ei hoffter o ormodiaith ffraeth, dyfais sy'n nodweddiadol o gywair ei ganu. Y mae'r gist flawd—cist *O dderwgoed sychion* / *O Lwytgoed Cynon*—yn *Uwch no dau gamel*, ac yn *gymaint ei chropa* / *Â moel y Wyddfa*.<sup>33</sup> Am y gaseg y mae'n ei herchi dros Domas Twrbil, y mae honno *Cyn gyfled ei bontin* / *Â chastell Penllin*, ac yn *gyd ei chynffon* / *Â heol Cynffig*,<sup>34</sup> cyfeiriadaeth leol a fuasai'n dderbyniol iawn i wrandawyr y gerdd. Un *A'i lygaid a'i ffroene* / *Fegis megine* yw'r tarw, ac mae'r Nant yn bachu ar y cyfle i gynnig i'w gynulleidfa ddisgrifiad manwl a hynod briddlyd o gampau rhywiol yr anifail:

A rhoi hwrdd i herstin  
Yr henfon gethin,  
A hithe ar ben ei deulin  
A'i holl blant yn dolef,  
Yn gweled y bilain  
Yn dechre'i llemain,

<sup>30</sup> 5.18, 6–8.

<sup>31</sup> 3.9–26.

<sup>32</sup> CGD 168.

<sup>33</sup> 4.57–8, 90, 61–2.

<sup>34</sup> 8.21–2, 31–2.

A hithe'n beichadain  
Am ddangos ei chedor.<sup>35</sup>

O ran ei arddull, y mae'n hoff iawn o rethreg ailadrodd, dyfais sy'n gweddu i batrwm y mesur, ac anghymhleth ac uniongyrchol yw ei fynegiant, heb sangiadau na fawr o eiriau cyfansawdd nac o ddelweddau estynedig chwaith. Y mae'n dueddol hefyd i ailgylchu'r un ymadroddion cyfleus. Ceir ganddo ambell gyffyrddiad dychmygus, fel pan ddywed am un o'i noddwyr, *Hwnnw yw mis Mehefin / Ar hyd yr hafoedd*,<sup>36</sup> ond mwy nodweddiadol ohono yw naturioldeb rhwydd, rhyddieithol bron, llinellau agoriadol ei gerdd i ofyn clog gan Syr Dafydd Fychan o Ystradfellte:

Chwith ydiw prydydd  
Heb ddillad newydd  
Pyn ddêl tes ysblennydd  
A myned yn fflewma.  
Mae 'm yne hirion  
A dwbledi ddigon  
A chryse gwnion  
Wedy i'r merched eu cannu;  
A chape a hete  
Ac ysaneue  
A bwäe a saethe  
Megis can saethydd;  
A chledde a dagar  
A phadere mwyar  
A thÿ ac adar,  
Pell yma ei ado.<sup>37</sup>

Fe welir yn y darn hwn hefyd sut y mae'r ffurfiau llafar sy'n britho'r canu yn rhoi inni flas gwahanol unwaith eto i farddoniaeth y penceirddiaid.

Gwedd arall ar lais y Nant yw'r duedd i ddramateiddio deunydd ei ganu. Y mae i'w weld yn y disgrifiad o'r tarw a ddyfynnwyd eisoes, ond anffawd y bardd ei hun yw testun y ddrama fel rheol, nid yn annhebyg i hiwmor y troeon trwstan a fyddai ymhen rhyw ddwy genhedlaeth yn llenwi'r cerddi a ganwyd gan y clerwr o Ddyffryn Clwyd, Robin Clidro, ar yr un mesur.<sup>38</sup> Nid rhywbeth dieithr yn y cywyddau gofyn yw i'r bardd erchi dilledyn gan honni iddo gael ei ysbeilio gan ladron, ond y mae'r Nant yn manteisio i'r eithaf ar y confensiwn hwn. Y mae'n atgoffa'r Abad Wiliam o Fargam sut y bu i Domas Twrbil ei ddilladu ac yntau *Fegis hen getyn / Wedy methu'r*

<sup>35</sup> 6.37–8, 77–84.

<sup>36</sup> 2.27–8.

<sup>37</sup> 10.1–16.

<sup>38</sup> Am enghreifftiau o ganu Robin Clidro (*Jl.* 1545–80), gw. CRC 146–66 (a gw. y cerddi eraill ar 'fesur Clidro', *ib.* 166–75). Ceir golygiad ac astudiaeth o'i waith yn GRCC. Gw. hefyd Cennard Davies, 'Early free-metre poetry' yn *GWL* iii, 75–99.

*llygota wedi i wŷr Hirfryn yn sir Gaerfyrddin ei ddinoethi:*

Minne geisais fyned  
 Ar gefn y colt Trwmped,  
 Gwedy fy nghlwyf a'm colled  
 Gan williaid Cellan,  
 Ac a ddeuthum yn gynnil  
 Tua llys y Twrbil,  
 Ar gefn y du crecwil  
 Fal hen wrach groca ...<sup>39</sup>

Mewn cerdd arall nid lladron ond llau sy'n ei boeni, a rhwng y mawl i'r noddwr a'r cais am ddwbled y mae drama chwerthinllyd y pryfed yn ymestyn dros hanner can llinell. *Y mae pob lleuen, meddai, Yn gymaint â horen ... Ac yn cnoi fy ngheille / Cylymed â'r ellyn. / Maen hwy cydewed i'm cedor / Â pherchyll Hywel Grythor, / Ac yn cymryd eu cyngor / Ar eu canfed ...*<sup>40</sup> Ac mae pethau'n mynd o ddrwg i waeth, er mawr ddifyrrwch heb os i gynulleidfa a fuasai'n gyfarwydd â phersona ffug-ddioddefus y bardd. Y mae rhywbeth smala, a digon hoffus, yn yr hunanbortread a rydd wrth gyfarch Syr Dafydd Fychan. Eto fyth bu'n ysglyfaeth i'r lladron, ond o roi'r clogyn newydd amdano bydd yn ddyng gwahanol:

A than lwyn o ddail  
 Tynnu 'mraich o'm cesail,  
 A chael dyn i'i harail  
 Megis Angharad.  
 Tan fy nghlog o lir  
 Wrth gadw'r geifir  
 Y daw merched cywir  
 I wrando'r cywydd,  
 A rhifo'r bytyne  
 Ar hyd pen f'ysgwydde,  
 A gwae finne am ysane  
 Erbyn nos Ynyd.<sup>41</sup>

Cyflwyno yn ei gerddi, felly, bersona direidus sy'n gyfuniad o hunan-ddychan ac ymffrost. Er gwaethaf y darluniau ohono'i hun fel bardd llwm, esgrynog a orfodir i gardota am ei damaid, ceir yr argraff ei fod mewn gwirionedd yn gymharol dda ei fyd, pa un a oedd yn ddibynnol ar ei alwedigaeth farddol ai peidio. Yn ei felltith ar ladron Llandysul y mae'r rhestr fanwl o'r amryfal feddiannau a ddygwyd oddi arno yn cynnwys ei ddwy sbectol a'i bedwar llyfr.<sup>42</sup> Y mae perygl, wrth reswm, mewn darllen y

<sup>39</sup> 9.63–72.

<sup>40</sup> 2.41–52.

<sup>41</sup> 10.69–80.

<sup>42</sup> 14.58, 66.



farddoniaeth yn rhy lythrennol, ond tuedda hyn i gadarnhau'r dybiaeth fod y Nant yn llythrennog ac mai ef ei hun a roes ei gerddi ar glawr. Y mae'r felltith honno—a'i gerdd arall yn dychanu lladron ar fesur yr englyn—yn dwyn i gof unwaith eto haerriad y gramadeg barddol mai ymbil, goganu a gwarthruddo sy'n nodweddu canu'r clerwr. Nodweddd hynotaf y gerdd yw'r modd y mae'r bardd yn mynegi ei felltith ar ffurf gweddi:

Minne weddi'af  
 Gyda'r lladron pennaf  
 A'm ysbeiliodd yr haf  
 Ar y rhyfel,  
 Na chaffon orffwys  
 Pyn elon i baradwys ...<sup>43</sup>

Gan adleisio melltith y Salmydd, y Brenin Dafydd,<sup>44</sup> ar ei elyn yntau, meddai:

Mi a gana' Ddews lawden  
 Ar y lladron hen,  
 Hyny gaffon yr wden  
 Am eu gyddge rhydeg ...

ac â ymlaen i felltithio'r lladron gan ddefnyddio patrwm o ailadrodd cynyddol, tebyg i swyngyfaredd, a ddwyseir gan rythm taer y mydr â'i linellau byrion odledig:

Ac na bôn flwyddyn,  
 Na deuparth blwyddyn,  
 Na hanner blwyddyn,  
 Cynawan bleiddiaest ...

hyd at:

Ac na bôn deirawr,  
 Ac na bôn ddwyawr,  
 Ac na bôn unawr  
 Heb eu gwenwyno.<sup>45</sup>

Er bod digon o enghreifftiau o felltithio lladron o'r bedwaredd ganrif ar ddeg ymlaen, y mae melltith mor faith ac mor fformiwläig â hyn yn anghyffredin, a diau fod llawer o ddeunydd tebyg heb ei gofnodi yn y llawysgrifau. Dychan mwy cellweirus a geir yn yr wyth llinell i Fedyn Sioch (cerdd 16), bardd a ganodd awdl foliant i Rys ap Siôn o Lyn-nedd sydd wedi ei chofnodi gyda chanu'r Nant yn llawysgrif Peniarth 54.<sup>46</sup> Honiad digrif, di-sail sydd yma sy'n perthyn yn nes i draddodiad y cyff clêr, er mai'r

<sup>43</sup> *Ib.* llau. 73–8.

<sup>44</sup> Gw. nodyn cefndir cerdd 14.

<sup>45</sup> *Ib.* llau. 89–112.

<sup>46</sup> Pen 54, i, 425–7.

englyn yw priod gyfrwng y difyrwrch hwnnw rhwng y beirdd a'i gilydd erbyn ail hanner y bymthegfed ganrif.

Cyn canol y ganrif ddilynol prin yw'r enghreifftiau o fesur nodweddiadol y Nant, 'mesur Clidro' fel y'i gelwir. 'Awdl' y galwai'r Nant ei hun y ffurf: *Ti a gei awdl difai*, meddai wrth yr Abad Wiliam.<sup>47</sup> Ymddengys ei fod yn fersiwn llai rheolaidd ar fesur 'swyddogol' y gyhydedd hir, gan hepgor y brifodl a chyfyngu'r gynghanedd i'r glec gytseiniol ar ddiwedd y pennill.<sup>48</sup> Ceir dwy enghraifft o'r mesur, cerdd i ofyn cleddyf a marwnad, gan fardd o'r un cyfnod o'r enw Dafydd Llwyd a gysylltir, yn ddiddorol ddigon, â Brycheiniog,<sup>49</sup> ac yn y bedwaredd ganrif ar ddeg canodd yr Ustus Llwyd ddychan bras i iarll Mawddwy ar fesur tebyg,<sup>50</sup> ond bod y mydr yn rheolaidd ei sillafau, yn wahanol i'r enghreifftiau diweddarach. Y mae nifer y sillafau yn amrywio'n fawr yn llinellau'r Nant, ond ymddengys y gellid eu datgan fel bod dau brif guriad i bob llinell. Tybed na ddatganwyd y cerddi i gyfeiliant telyn? Disgrifia'r Nant drefn pethau ar aelwyd Syr Dafydd Fychan yn Ystradfellte, lle y byddai'n

... yfed gwin rhuddgoch  
 Gyda Syr Dafydd goch,  
 A dechre toloch  
 A chanu telyn.<sup>51</sup>

Bid a fo am hynny, y mae'n debygol fod llawer o ganu clerwraidd ar fesur y Nant, fel ar fesur y traethodl sy'n fersiwn mwy llac o'r cywydd, wedi mynd i ebargofiant.

Y mae'r ffaith fod cerdd 15 ar ffurf cadwyn o englynion yn annisgwyl. Ond englynion go anghelyfdd yw'r rhain, sy'n awgrymu, er ei fod yn gyfarwydd â chanu'r beirdd hyfforddedig y byddai'n troi yn eu plith yng nghartrefi ei noddwyr, nad oedd y Nant wedi ei drwytho yn hanfodion cerdd dafod. Ceir nifer o gynganeddion anghyflawn, llinellau afreolaidd eu hyd, ynghyd ag odlau proest anghyffredin mewn dau o'r englynion lle y disgwyliodl gyflawn. Diddorol hefyd yw gweld y bai gwaharddedig 'carnymorddiwes' yn y tri englyn olaf, sef odli dwy fraich yr esgyll yn ddiacen yn debyg i draethodl.<sup>52</sup> Llac yn aml hefyd yw rhai o'r trawiadau cynganeddol yn ei gerddi eraill (ond digon effeithiol, gellid tybio, wrth ddatgan y cerddi). Ceir trawiadau megis *glopa/geiliacwydd*, *cyngor/canfod*,

<sup>47</sup> 9.20 (ond gthg. 10.75–6 *Y daw merched cywir / I wrando'r cywydd*). 'Awdl' a ddefnyddiai Robin Clidro yntau: *Mae genni Owdwl ffyrnig / erbvn gwiliel/r/ nodolig / rwy/n/ barod yw chynig / o chae genad yw chanu* ('Awdl y Gath', CRC 44.1–4).

<sup>48</sup> Gw. R.M. Jones, 'Mesurau'r canu rhydd cynnar', B xxviii (1978–80), 413–41; DGIA 52–3; LIU 87; GRG xx ymlaen. Gall fod yn arwyddocaol fod y gyhydedd hir yn fesur cyffredin ar gyfer dychan yn y 14g., gw., e.e., GIG cerdd XXXVIII.

<sup>49</sup> Peniarth 67 cerddi III a VI. Ceir darn dienw ar yr un mesur, cerdd XXIX.

<sup>50</sup> GMBen cerdd 20; gw. y drafodaeth ar fesur y gerdd, *ib.* 313.

<sup>51</sup> 10.109–12.

<sup>52</sup> Gw. GP 14, 33, 54.

*cedechyn/bychan, cyffion/cwthr, gwridog/cedor, metel/putain, rhofion/rhaffe, calon/celli*; lle bo clymau o gytseiniaid nid yw pob cytsain wedi ei hateb, e.e. *marchnad/Merchyr, ystlys/lestair, gwastad/gwisgi, esgob/Ysbaen, ellmyn/arallwlad, leufer/lifrai, elment/elfydd*; yn aml bydd cytsain gysefin yn ateb sain dreigledig, e.e. *Paris/barod, lydan/lloedig, brithion/frethyn, caled/choler, porc/mhwrcas, maneg/Fyniw*; ac weithiau ceir dau dreigladd gwahanol o'r un llythrennau yn ateb ei gilydd, e.e. *mreiche/Frychan, Chirig/nghelydd, bellach/phellir*. Caiff y gair *bola* ei ledgynganeddu â seiniau mor wahanol i'w gilydd â *melys, Cydweli* a *Cynfelyn*. Ceir hefyd ledodlau ac odlau Gwyddelig fel a welir yn y canu rhydd diweddarach.<sup>53</sup> Odl gyffredin yng nghanu'r Nant yw *-an/-arn*;<sup>54</sup> ceir hefyd *-yn/-yrn*,<sup>55</sup> a'r seiniau *n* ac *m* yn cyfateb yn yr odlau *-yn/-ym, -an/-am* ac *-wn/-wm*.<sup>56</sup> Digwydd ambell odl 'ansafonol' arall megis *-ydd/-wŷydd* ac *-ar/-art*.<sup>57</sup> Ceir yn ogystal ffurfiau llafar deheuol yn safle'r odl, nid yn unig y ffurfiau lluosog sy'n nodweddu cerddi'r Nant, megis *cryse* a *hete*, neu *gweison* ac *arwyddon*, ond geiriau sy'n cynnwys llafariaid ymwithiol fel *geifir* (i odli â *cywir*) a *llyfyr* (i odli â *pybyr*).<sup>58</sup>

Rhaid sôn yn olaf am orgraff y cerddi fel y cofnodwyd hwy yn llawysgrif Peniarth 54.<sup>59</sup> Fel y gwelir yn y llun o'r llawysgrif isod, y mae'r orgraff yr un mor unigolyddol â'r llawysgrifen. Nodwedd amlwg yw'r y ymwithiol mewn geiriau megis *arcylwydd* (arglwydd), *bencyloce* (pengloge), *fyrecnic* (Ffrenig) a *bylawt* (blawd). Gan amlled y llafariaid ymwithiol y mae'n anodd barnu ai'r ynganiad llafar a gynrychiolir gan ffurfiau fel *llyfyr, cefen* ac *ofon* ai peidio (ond yn achos *llyfyr*, fel y gwelwyd, profir y ffurf gan yr odl); felly hefyd yn achos ffurfiau fel *hwevcein* (chweugain) a *hwddv* (chwythu). Gall y hefyd ddynodi'r sain *a* neu *e*, e.e. *yncarat* (Angharad), *fytane* (ffetane). O ran y cytseiniaid, ni ddefnyddir *d, ff, g, ng, p* nac *th*. Y mae *b* yn dynodi *b* a *p*; *c* yn dynodi *c* ac *g*; *dd* yn dynodi *dd* ac *th*; *f* yn dynodi *f, ff* a *ph*; a *t* yn cynrychioli *t* a *d*. Y cyfuniad *cn* sy'n dynodi'r sain *ng* fel rheol, e.e. *rwcn* (rhwng), *llocne* (llonge), *fycnloc* (fy nghlog), a cheir *cn* neu weithiau *cnc* am *ngh*, e.e. *ycnylch* (ynghylch), *fycnret* (fy nghred), *ycnewddwr* ('y nghwthwr). At hynny, fel y dengys darlenniadau'r llawysgrif sy'n dilyn pob cerdd yn y golygiad hwn, y mae'r sillafu yn anghyson a hynod esgeulus, gyda llythrennau wedi eu hepgor neu eu camosod yn aml. Rhwng amwysedd yr orgraff, y camsillafu, y diffyg bylchau rhwng geiriau

<sup>53</sup> Y mae hon yn nodwedd ar ganu Robin Clidro, cf., e.e., yr odlau *hettan/ofram, ostler/minstrel* a *wiced/redeg* yn CRC cerdd 45. Ceir ganddo drawiadau cynganeddol anghyflawn hefyd. Fodd bynnag, y mae'r odlau a'r gynganedd yn gwbl reolaidd yng nghanu Dafydd Llwyd o Frycheiniog ar yr un mesur, gw. Peniarth 67 cerddi III a VI. Awgryma hynny nad yr un bardd yw Dafydd Llwyd a'r Nant neu Ddafydd y Nant.

<sup>54</sup> E.e. 1.41–3, 60–2.

<sup>55</sup> 1.65–7, 4.9–11, 7.25–7.


<sup>56</sup> 3.1–3, 33–5, 49–51.

<sup>57</sup> 7.93–5, 11.61–3.

<sup>58</sup> 10.74, 14.58, a gw. 8.3n.

<sup>59</sup> Ceir crynodeb o brif nodweddion yr orgraff gan G.J. Williams, *art.cit.* 79.

ac aneglurder ambell lythren, y mae'r testun yn anodd ei ddehongli mewn manau, a rhai o'r darlleniadau yn ansicr. Rhoddir sylw i'r darlleniadau dyrys yn y nodiadau testunol.



382

llawysgrifen cerddi'r Nant yn llawysgrif Peniarth 54, i, 382  
diwedd cerdd 8 a dechrau cerdd 1  
(hawlfraint: Llyfrgell Genedlaethol Cymru)

## 1

*I Rys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Aberpergwm  
i ddymuno iddo ddychwelyd adref o Loegr*

- Rhys ap Siôn ap Rhys  
 Fab Siancyn ap Rhys,  
 Mae arnaf frys  
 4 Weled ei fraswydd.  
 Wrth wynfyd ei fam  
 O Loeger dinfflam  
 Y dêl Rhys atam,  
 8 A'r dug nis etail.  
 Dwg goler glaerwen  
 Rhwng ei aelgeth a'i ên;  
 O waith ei ddur a'i rethren  
 12 Mae ei brydydd yn athrist.  
 Â'i ddigasogion i'r fall,  
 Ni wddon ei ddyall,  
 Perchen cyff a bwyall,  
 16 A hwyntwy bie.  
 Gwan fydd cenol y Glyn  
 A gwan fydd blaene'r Glyn,  
 Hyny ddêl llin Siancyn  
 20 I beri i'r gwilliaid encil;  
 Gwan fydd Morgannwg  
 Hyd yn Llandudwg,  
 A chylch Llangatwg  
 24 Hyd ar dir y Coety;  
 Ac o dir y Coety  
 A thrwy holl Gymru,  
 Hyny ddêl atu'r  
 28 Gŵr a ryolai'r fatel.
- Mae Gwalchmai Siôn  
 A'i gwrseriaid gwnion  
 Yn Lloeger goron  
 32 Yn llenwi gwirod,  
 Yn cael aur a gwin  
 Gan ei arglwydd frenin,  
 A'r dug a'i werin  
 36 Y sydd yn ei garu.

Pe bai'r dengwlad yn un  
 Hyd yn Rhydodyn,  
 I ddiawl â duryn  
 40 Pyn fai'r dyn yn taro,  
 Ond cilio'n fuan  
 Heb ddim o'r ymwan  
 Rhog Rhys gadarn,  
 44 Rhoes lawer cwdwm,  
 Mywn dur tryfrwyd,  
 Nai Watgyn Llwyd,  
 Gwae'r mab dulwyd  
 48 A ddôï hyd y deler.  
 A phyn ddêl adrau  
 O Loeger dingau,  
 Llawer gwas tyrau  
 52 Gydag ef yn taro,  
 Llawer un yn llwygo  
 Hyny ddêl oddyno  
 Megis hen gadno  
 56 Ar hyd pob coednant;  
 A phyn glywon ei ddyfod  
 Megis gŵr y god,  
 Llyna hwynte'n cyfan  
 60 O bob coed cyfan,  
 A'i wayw a'i darian  
 A'i aesawr a'i isarn  
 I lawr gwlad Forgan  
 64 Yn un llaw'n hercyd;  
 Ac yn llenwi'r gwin gwyn  
 A'r pibe meddyglyn,  
 A chyfodi tyrch tefyrn  
 68 Am yr un etifedd;  
 A Chastell-nedd yn falchach  
 Ac Aberafan fach,  
 A Glyn-nedd bellach  
 72 Yn cynnu tane pillion.  
 A phyn êl yr eilwaith  
 I Loeger dinfraith,  
 Ef a â gwlad ei dalaith  
 76 A'i holl ardelydd  
 At y Brenin Edwart  
 Ac at y Dug Rhisiart,  
 Erbyn dygwyl Lambart,  
 80 I daro wrth wlad Himbir;

- 84 A wedy hynny  
Y daw Rhys i Gymry  
Yn farchog o'r teulu,  
Ie, ym Teilo.
- 88 Wrth wynfyd ei fam  
A Mallt ei henfam  
A'i dad dinam  
Y dêl i'r dinas,  
A'i wraig, ddyn ofnog,  
Y sy ferch i'r marchog,  
Y dêl y gwalch calonnog
- 92 Cyn duw Calanmai;  
Wrth wyn Margred ferch Siôn  
A Sisli ferch Siôn
- 96 A'i frodyr gwnion  
Y dêl i Forgannwg,  
A'r sawl sy'n ei garu  
Heblaw hynny,  
A'r sawl sy 'n ei du
- 100 Aed y rhain i'i dywydd.  
Ni rown i geinog  
Er dyn digasog  
Ond gyrru bidog
- 104 Dan ei ddwy adain.  
Mae'r sawl a'i care  
Ar y llaw dde,  
Ac ar y llaw ase
- 108 Gwnaed ôl ei fysedd.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 382

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 siacnyn. 3 arnafyr. 5 wnfyd. 6 lecer. 9 twcoler. 10 *aelceddaen*. 12 addris. 16 hwntwy. 19 siacnyn. 20 berir; ecnil. 24 ceetv. 25 ceetv. 32 cwcirot. 37 be. 44 lwer. 47 vlwyd. 51 llwermcwas. 56 coetant. 57 cylwon. 59 hwy'nen. 61 ataryan. 62 isar. 67 chfoti; tefyr. 71 ~~aehastel~~ acyllynedd. 75 *aefacwlat*. 78 risart. 79 tycwylambart. 81 ~~awwetyhyny~~ tawrys. 82 cmry. 84 iemteilo. 85 wnfyd. 87 atatinamye. 89 awraicddynonoc. 91 cwalchylonoc. 94 sili. 95 afrotvr. 97 carvy. 98 hoblaw. 99 nyty. 100 itywdd. 101 ron. 103 cvrv.

*Priodoliad*

nant.

*I ofyn dwbled gan Rys ap Llywelyn ap Gwilym*

- Yr wyf gleiriach anllad  
 Heb ddim o'r dillad,  
 Ac yn fawr fy siarad  
 4 Fel rheadr Sierwm,  
 Heb na gŵn na chapan  
 Nac esgidie cyfan,  
 Na llowdwr lydan  
 8 Am 'y nghwthwr llodig,  
 Heb na dwbled na chrys  
 Ynghylch 'y nau ystlys,  
 Na dim o'r llewys,  
 12 Nid wyf yn rhy lawen,  
 Na gwybod ble y caf  
 Un ede amdanaf,  
 Nac un ede myrnaf  
 16 Yn fy hen hornel.
- Rhaid yw cyrchu'r haelaf  
 O bobl planhaddaf  
 A ry'r dwbled amdanaf  
 20 Ym ganu'r dinas.  
 Mae twysog gyrru  
 Tu yma i'r Banne  
 A wna dur yng ngwaetffre,  
 24 Nid â'i wayw'n niffrwyth.  
 Rhys ap Llywelyn ap Gwilym  
 Heb galon ddiddim,  
 Hwnnw yw mis Mehefin  
 28 Ar hyd yr hafoedd.  
 Llin Rhys ap Siancyn  
 Ydiw'r gwalch colerwyn,  
 O ferch Rhys ap Siancyn,  
 32 Ni ffoes honno uncam;  
 Llin Rhys Llwyd ab Adam  
 Heb dolwyth ei fam,  
 Hwnnw yw'r gwalch dinam,  
 36 Da fo'i ddihenydd.  
 Hwnnw a rydd amgarn  
 Am ganol truan



- 40 Cyn dygwyl Ysteffan,  
Fegis Ffwg Ystaffordd.
- Y mae pob lleuen  
Yn gymaint â horen  
Islaw fy lletben
- 44 Ar gefn fy llwytbais,  
Ac yn gwneuthur bothelle  
Ar ben fy nghlunie,  
Ac yn cnoi fy ngheille
- 48 Cylymed â'r ellyn.  
Maen hwy cydewed i'm cedor  
Â pherchyll Hywel Grythor,  
Ac yn cymryd eu cyngor
- 52 Ar eu canfed  
Ble'r elon i rodio  
Ac i grwydro,  
I gyrchu'r cefn eto,
- 56 Gwae finne o'r fatail.  
Y mae mamog arnun  
Yn cerdded pob penrhyn  
Islaw fy nuryr,
- 60 Mae hyn yn eres;  
A phyn gyfoto honno  
I fyned i rodio  
A cherdded y croen cryno
- 64 Cymain cynrhonyn,  
Ef a â'i holl yn arial  
I ollwng y cagal  
Ar hyd pob cymal
- 68 Hyny fai'n mingamu,  
Ac ar hyd nant y cwthwr  
A gwryme fy llowdwr  
Hyd yn Llanddyfrwr
- 72 Y mae y llwyren ddfiri,  
Ac i gylch y felin  
Ac i bwll y geudin  
Ac i berth yr eirin
- 76 Erbyn yfory,  
Ac yn pigo digon  
Ynghylch bôn y gynffon  
A chylch pwll y galon
- 80 I bori gwale,  
Ac yn cerdded yn rymus  
Ar hyd pob ystlys  
A gwrym fy llewys,

- 84 A gwnewch yn llawen  
 Â phob horen gadarn,  
 A phob nedden fechan  
 Yn dilyn eu cwman
- 88 Â duryn cemyw,  
 A dryll yr hen beisan  
 O hanner gwrthban,  
 A phob lleuen fechan
- 92 A honno'n feichog.  
 Chwithe Rys, myn fy nghred,  
 Un o'ch chwech dwbled  
 A rowch yn ddigolled
- 96 Rhog bod arnaf gellwair?  
 Ni byddwch waeth, myn y Grog,  
 Roi dwbled rywiog  
 Am y corff gwridog
- 100 Uwchlaw gwar y cedor.  
 Rhaid yw ymbil fellŷn  
 Â haelferch Watgyn,  
 Gwraig Rhys ap Llywelyn,
- 104 Unlliw ag eleirch.  
 Nid oes, myn y Drindawd,  
 Ferch gystal â Mawd  
 Am fwyd a diawd,
- 108 Nac oes, myn Dewi.  
 Myn y Gŵr a bie heno,  
 O chaf nerth honno  
 Mi a ga'r ddwbled i'i gwisgo
- 112 I gylch 'y mhedwar asgwrn,  
 A mil o yne  
 A mil o ddwblede,  
 A mil o gusane
- 116 Gan ferched mywn senedd,  
 A phedair mil o noble  
 A phum mil o rote,  
 A chwemil o sgude
- 120 Yn y pwrs eto,  
 A hael les Iesu,  
 Try barhao hynny,  
 Bid i Rys haeddu
- 124 Pum cant eisyddyn.

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 yrwy. 3 ayn. 4 ryar. 6 ac. 7 ltan. 8 ycmewddwr. 11 llwys. 12 ladden. 14 mnanaf. 17 cvrchvraelaf (yn dilyn y llinell hon ceir ~~arytwbletymtanaf~~). 18 obobolbylnhaddf. 20 tynas. 21 macwsocyre. 22 tvma. 23 ycnwatfre. 24 waewnifwydd. 27 mehefim. 28 arytyrafoedd. 29 siacnyn. 31 siacnyn. 32 vncam. 35 vrcwcalch. 36 ddiennydd. 37 hnw. 38 tvrvan. 41 lleveny. 42 cmeit. 43 fletben. 51 ayn; cycor. 54 crwyro. 56 cw[ ]ae. 58 bobenryn. 60 eres. 61 cfoto. 63 cryno (*ac y wedi ei newid yn r*). 64 hvnronvn. 65 afayhollynryal. 67 aryt. 69 aryt. 70 cryme. 81 crddet. 82 aryt; yslys. 84 llwen. 85 fohoren. 86 fnedden. 87 ytilin. 89 bisan. 94 ochwechbwblet. 95 ddcollet. 98 reoi. 101 fllyn. 102 forch. 103 llwelyn. 105 nyoës. 111 cwico. 112 ymetwar. 114 ddtwlete. 116 mvn. 118 afvmil. 119 wemiloscvtë. 121 haeles. 122 byrao. 123 heddv. 124 bm.

*Priodoliad*

ynantaycant.

*I ofyn cleddyf gan Rys ap Dafydd ab Ieuan Fwyaf  
dros Rys ap Llywelyn ap Gwilym*

- Rhys wyf ap Llywelyn  
 Yn deisyf cledd hirlym,  
 Rhog dyfod fy ngelyn  
 4 A'i law 'n 'y ngholer;  
 Dwrndal, cledd Rolant,  
 Gwell no llafan Beligant,  
 Cyn wned â'r crisiant  
 8 Ar y glun ase;  
 Brawd Caledfwlch Arthur  
 A dyr haearn a dur,  
 Hwy no llath o fesur,  
 12 Lle i'i law a'i fysedd;  
 Nai Corsëus  
 A wnâi Saeson yn us,  
 A waeda ar bob ystlys  
 16 Heb neb yn ei lestar;  
 Llafan gwyd digardd,  
 Ail i Ddurendardd  
 O gledde pastardd  
 20 A ddrylliai cant pastwm;  
 Ewythr, gledd croywgoch,  
 Yw i Ange Coch  
 A wna gwaed cyn toloch  
 24 Ar hyd pob talar.  
 Ar glun fy eryr  
 Y mae Hawtyclŷr  
 A wna llu ar wesgyr,  
 28 Lafan hir esgud.  
 Erchi rhodd enbyd  
 O lafan gwyarllyd,  
 A galw esbyd  
 32 Fy iawn gâr hysbys.  
  
 Nid oedd dim o gam  
 I f'ewythr, cefnder fy mam,  
 Am beri garan  
 36 Pan fai rhaid ymguro;  
 Cael rhodd fowrdda

- Rhys Dafydd ab Ieuan Fwya',  
 Ynte a gaiff y cynta'  
 40 O'r meirch hyd yn Hantwn;  
 Ac od eirch ychen  
 I dynnu dan fen,  
 Ac i dorri daearen  
 44 Dan aradr terwyn,  
 Efe gaiff, ym Dewi,  
 Cyhawdded â'u herchi,  
 O bydd hyd yn Nhywi  
 48 Ddwyfil o ddefaid.  
 Arched ar ael cwm  
 Gynllyfan o filgwn  
 I ladd carw bondrwm  
 52 A hob buandroed;  
 Na'i gwawl o fwäe,  
 Na'i ffyn isarne,  
 Na'i ddwy o saelede  
 56 Wrth selu adwy;  
 Ac o bydd tlyse  
 Lle cyrhaeddwyf inne,  
 Nid arhowyf un bore  
 60 Onis cei'n barod  
 Tros dy gledd hirfain  
 O lendid Llundain,  
 I'i ddwyn dan fy adain  
 64 Rhog ofon ym ynfydu.  
  
 Dellten o ddir gwyllt,  
 Pengloge a hyllt,  
 Er mwyn Esyllt  
 68 Y mynnaf ei osod.  
 A'i ddwrn glân diogel  
 Yng nghyfair pen fy mogel,  
 Nid rhaid ym ochel  
 72 Un dyn afiachus;  
 A'i bwmel i'm erbyn  
 A'i flaen at fy ngelyn,  
 A dechre cychwyn  
 76 A ffusto'i guche;  
 Dellten o ddir rhywiog  
 A llun delw'r Grog,  
 Rhag dyn digasog,  
 80 I'm llaw a'm bysedd;  
 Llawer cusan mêl  
 I'r groes a'r pwmel

- 84 Uchlaw fy metel,  
Nid cusan putain;  
Cledd hir pedroglgrwn,  
Cledd Bŵn o Hantwn  
Oedd ym pes dotwn,
- 88 Ac am hynny gwastata  
Cledd y gŵr arall,  
Nai Syr Hywel y Fwyall,  
Ac o ddur cuall,
- 92 Ef a wna cywain;  
A gwain eglurlan  
A gwregyse sidan,  
Mae gennyf amcan,
- 96 Os caffo encyd,  
Ddiolch y gledren,  
Lafan Nador Hen,  
A dangos fy mellten
- 100 Naw ugain milltir.
- Fy mendith i'm hewythr  
Am y rhodd gwehelythr;  
Gyrred ei lythr
- 104 I Frycheiniog lether,  
Ffordd y cerddo gwynt  
I drafaelu hynt,  
A mellt a lluchwynt,
- 108 Am y cledd tanllachar.  
Arch ym ei ddeuwerth,  
Arch ym ei drigwerth,  
Arch ei bedwargwerth
- 112 Am ei gael ergyd.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 401

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 hirlym. 6 bylant. 11 ~~oladd~~ dathwy. 15 awaetar. 19 basardd. 20 baswm. 21 ewyrdd; crowcoch. 24 aryt. 25 yferyr. 35 caram. 36 bn. 38 rystaf-afddabianfya (*ymddengys mai b neu f yw'r llythyren sydd wedi ei dileu*). 42 tvnv. 43 tharen. 47 ~~nebayham~~ obyddhytnwi. 48 ~~nebaymve~~ (*ychwanegwyd ddwyfiloddefeit ar ymyl y ddalen*). 50 filcwm. 52 hobvantroet. 58 cyraddwyfine. 60 baret. 63 yfatain. 69 addwrn. 73 ~~eylaerwyn~~ nimerbyn. 76 ~~afydd~~ dhynyeache (*ychwanegwyd afvstoycche ar ymyl y ddalen; ar ymyl y ddalen hefyd ceir afvstoy*). 77 ddvrywyoc. 85 yledd; cwrwn. 86 ledd. 87 [-]oedd. 88 cwstata. 90 ~~felsyrhy~~ wenai. 98

lafanasor. 100 millir. 102 cwhelyddr. 105 ferddycrddo.

*Priodoliad*  
nant.

*I ofyn cist gan Wilym ab Ieuan Fwyaf dros Siancyn ap Llywelyn*

- Siancyn wyf ap Llywelyn,  
 Uchelwr gŵreiddwyn  
 A gostes aur melyn  
 4 O waith meibion Alis.  
 Hwyl a naethon ym golled  
 Yn fy llys fowrgled;  
 Ni ato Duw uddun gerdded  
 8 Heb ddaegre i'u corddi.  
 Saesnogaidd cedyrn  
 A ddodes i'm erbyn  
 Gaer Dubal felyn,  
 12 Mi a fedraf eu dyfalu.  
 Mi a roesum fowrdda  
 Try ellais roi da,  
 Rhaid yw ffon glopa  
 16 I gadw'r hen geiliacwydd;  
 A doddi 'mryd ar geibo  
 Ac ar lafurio  
 I gael bwyd eto  
 20 Pan fo rhaid bwyta;  
 A rhoi ychen mowron  
 I rwygo mynydd a bron  
 I gael bara ddigon  
 24 Lle mae gwŷr ddeugain;  
 A llenwi'r ffetan  
 O'r blawd cerch gore  
 A gwae finne am giste  
 28 O naw can hastell.  
  
 Mi a wn lle mae cist,  
 Myn Duw a Mair a Christ,  
 Nid ydiw'n drist  
 32 Islaw'r ddau drestel;  
 A phe gellid ei hepgor,  
 Cist o gant cyfor,  
 Ni bydde nemor  
 36 O fara amydd.  
 Gwilym ab Ieuan Fwya',  
 Uwchelwr prifdda,



- 40 Hwnnw a rydd bara  
 Ddigon i bori.  
 Llwyth y Bach ap Gwaithfoed  
 Fu hwnnw erioed,  
 A gâi win addoed,  
 44 A hynny oedd addas.  
 Llwyth Tomas ap Dafydd  
 Ydiw'r carw dedwydd  
 A'r llygaid muchudd,  
 48 W'r da ei achen.  
 I hwnnw mae ciste  
 A digon o goffre  
 A dyrmaid o saethe  
 52 Dan fraich pob saethydd.  
 Mae cist fawr lydan  
 Islaw tâl ei bentan;  
 Siancyn, ym Cadfan,  
 56 Â honno y cydfydd;  
 O dderwgoed sychion  
 O Lwytgoed Cynon,  
 Ac o honno, ym Siaron,  
 60 Y cawn fesyryd.  
 Mae hi'n gymaint ei chropa  
 Â Moel y Wyddfa,  
 Ac yn llenwi ei bola  
 64 O flawd ceirch melys.  
 Pe bai pedwar atgordd  
 Yn torri pant a ffordd,  
 Ef a fydde ddigon o osgordd  
 68 Cyn llanwai y twysgwydd.  
 Ni lanwai cant gwreang  
 Y gist fawr gadarn;  
 Siancyn ail Trystan  
 72 A'i lleinw trosti.  
 Gwilym a rydd ceubal  
 O bren derw dyfal  
 I Siancyn gorn bual,  
 76 A hwnnw bie.  
 Ni bydd gwaeth, myn Silin,  
 Er rhoi cist gefn rhibin  
 Y sy 'n nhai Siancyn  
 80 Er es encyd.  
 Yno y caiff ddigon  
 O flawd a rhynnon  
 I lenwi ei chalon

- 84 Hyd ei cheule.  
Ni lanwai ei cheudin  
O flawd can melin;  
Siancyn yn ddiflin
- 88 A rôl ddigon o oflawd.  
Mae hi'n ddigon uchel,  
Uwch no dau gamel,  
Cist i Iarll Arndel,
- 92 Gwell nog Abad Corntwn.  
Mae hi'n gyfuwch â'r gronglwyd  
Fegis Cwm Caflwyd,  
Ac yn ffyrf ei morddwyd,
- 96 Hi a gaiff fowrdda.  
Rhoed Gwilym y gist  
Er mwyn Iesu Grist,  
Siancyn bie'r gist
- 100 Fel ail Elystan.  
Yno y caiff ei gwala  
O flawd a bara,  
Pei cyfled ei bola
- 104 Â thyre Cydweli.  
Pe canwn hyd dyddbrawd  
Hyny dylle fy nhafawd,  
Nid ânt yna na chŵn na llygawd,
- 108 Diawl a dynno eu llygaid!  
  
A Duw a ro einoes  
I'r gŵr a'i rhoes,  
Hi a bery deiroes
- 112 O fyw derwen;  
A'm bendith i Siancyn  
A roes aur melyn  
A bwyd i ddeucannyn
- 116 Ar bob cinio;  
A Margred arch Forgan  
A leinw'r gist o gan,  
A'r gist hyd bochan,
- 120 Mawr yw ei boche.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 365

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 sianyn; llwelyn. 2 cyfuchelwr. 4 meimbion. 5 clet. 8 ddacre. 9 saesnoceet. 12 miahff—tetraf. 13 fordda. 14 tyr. 16 cilacwydd. 17 cibo. 18 lafvrvo. 19 heto. 29 cis. 30 chris. 31 tyris. 35 nmor. 36 faramyt. 37 if—jan. 38

byrifddya. 46 tetydd. 49 cise. 55 siacnyn. 57 sychon. 59 hnomsiaron. 61 mahin. 63 llenwibola. 64 mlys. 65 betwr. 66 frdd. 67 efyfyddeddiconoscordd. 68 twyswydd. 71 siacnyn. 75 sacnyn. 78 erhoi. 79 ysynhaisiacnin. 81 ddiconoflawt. 83 lenwichalon. 87 siacninynddflin. 88 ddiconoflawt. 89 ddcon. 91 rantel. 92 cortwn. 93 hn; cvfwwch; cyroncyt[ ]'. 96 ceifowrdda. 99 siacnyn. 100 ylytan. 103 cylet. 105 ityddbyrawt. 106 fnafawt. 107 nytantinachwna. 108 llyeit. 113 siacnyn. 118 cit. 119 cistyt. 120 mwr.

*Priodoliad*  
ynantaycant.

*I ofyn mantell gan Ddafydd ap Rhys Tew dros Fargred ferch Morgan*

- 4           Ble y ceir toryn Eryllt  
               O grefft Gwyddel gwyllt,  
               O gelfyddyd Fferyllt,  
               A'r neb alle'i pheri?  
               Mantell deg ei heurfryn  
               Â lliw grawn celyn,  
 8           Ne waed aderyn  
               A fai wedy ei daro;  
               Mantell urddedig  
               O frethyn gwrddonig,  
 12          Nid oes un debyg  
               Tu yma i Fwnt Tabor;  
               Mantell rudd a melyn,  
               Mantell goch Gwyddelyn,  
 16          Unlliw ytewyn  
               Tu yma i Abertawy.  
               Mantelle ynn a roes,  
               Cygoched â'r egroes,  
 20          Dafydd hyd deiroes,  
               Ni phalla o'r toryn.  
               Mab Rhys Tew'n ddilis  
               A rydd mantell ffris,  
 24          Ac o waith Paris,  
               Efe gaiff yn barod;  
               Marsiandwr i'r goron,  
               Perchen llonge trymion,  
               Ac a rydd rhoddion  
 28          O arian a rhuddaur.  
               Mae 'm blaned urddedig  
               O wraig fonheddig  
               Am fantell Ffrenig  
 32          I fyned i offryma;  
               Margred ferch Forgan  
               A rô'r gwin a'r can,  
               Llin Gwilym gadarn,  
 36          Arnun oedd Edyrn;  
               Gwraig Siancyn ap Llywelyn  
               A roes yr aur melyn,  
               A gwin a roes Siancyn,

- 40 Ni cheise encil.  
Honno y sy wreigdda  
Mywn sidan o'r Asia,  
Pe câi fantell i herwa
- 44 Mywn coed hirwydd.  
Dafydd a rydd toron  
O goedwlan Iwerddon,  
Cygoched â'r sirion
- 48 Ynghylch y seren.  
Efe geir gweled  
Y fantell am Fargred,  
Nid rhaid iddi niwed
- 52 Am fantell newydd.  
Mantell, uchel yw'r pris,  
A Dafydd a'i dewis,  
Mantell o'r Fenis
- 56 Am gylch yr enaid;  
Mantell ruddgoch ei blew  
Gan Ddafydd ap Rhys Tew,  
Gwaith Gwyddel ac Iddew,
- 60 A da yw'r ddyweddi;  
Mantell Forcwd,  
Crwm yr hen hwgwd,  
Fforlach a mwgwd,
- 64 Daeth y wrach a'i maco;  
Mantell y Gwyddel bach,  
Ysgïen Ysgornach,  
Mantell a geir bellach,
- 68 Margred ni phellir;  
Mantell dros y môr,  
Mantell ddygyfor,  
Mantell lliw sinor,
- 72 Islaw'r ysane;  
Mantell o Iwerddon,  
Mantell dda ddigon,  
Mantell i Wyddyl gwylltion
- 76 I gerdded mywn ellyydd.  
O cheir y fantell  
Ef a â Dafydd wellwell  
Am Fargred yn ddiell,
- 80 O cheir y fantell;  
Mantell deg ei heurfron,  
Unlliw'r rhos cochion,  
A Dafydd, myn Caron,

- 84           A rydd y cwrel  
               I Fargred erch Forgan,  
               Fantell goch gadarn,  
               A lliw gwaed garan
- 88           Ar y fantell ore.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 422 [422–3: llau. 1–48; 444–5: llau. 49–88]

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2. ocyref. 7 waet. 8 wetytaro. 8+ mantellrddamely. 12 tvmayfwntabar. 14 cwyddelyn. 15 vnlliw. 16 [ ]vma (y mae'r tudalen wedi rhwygo). 19 hyteiroes. 20 nfalla. 26 brchenlloce. 30 foneddic. 31 fyrencic. 34 acan. 37 siacynabllwyeln. 39 acwcinaroesicyn. 40 ecncil. 43 herw[ ] (y mae'r tudalen wedi rhwygo). 44 mwn. 47 siron. 48 y[-.]cnlch. 49 cir. 54 twis. 59 aiddew. 62 yrerhwcwt. 71 mantelliw. 72 ioslawrysa[.].e. 73 mant[-.]ell. 75 cwlltyon. 78 ea. 79 ddell. 82 vnlliwros.

*Priodoliad*

nant (ceir nant hefyd yn dilyn ll. 80).

*I ofyn tarw coch gan Domas ap Dafydd ap Siancyn ab Ieuan ap Hywel  
dros Wilym ap Rhys ap Gwilym*

4           Ble ceir bu toloch,  
             Gŵr yr annair goch,  
             O darw rhuddgoch,  
             Unlliw â'r hyddgant?  
             Ac a ddwg belydr  
             Ar ei iad yn grydr,  
 8           Gŵr llymgoch hydr  
             A wŷr llamu eidion,  
             Â gwar gostogaidd  
             A ffriw daeogaidd,  
             Ac yn owladaidd,  
 12          Gŵr yr henfon lydan.  
             A dechre biglodd  
             Wedy darffo bod genti,  
             A briwo'r yteri  
 16          A wna pen y tarw,  
             A galw'n fain uchel  
             Ar y fuwch ddywel,  
             A doddi'i ddwy botel  
 20          Wrth din y butain,  
             A gyrru'n afraid  
             Ei fonllost o lathaid  
             I gael llaeth ceulaid  
 24          O waith ei gala.  
             Hen gostog ceilldrwm  
             Yn darstain mywn cwm,  
             O darw ffolendrwm  
 28          A'r annair felendroed,  
             Ac yn grych ddigon  
             Ei wddw a'i lawfron,  
             Tad yr ychen geirwon  
 32          Yn cyrchu'r oerfa.  
             Cawell mawr llydangarth  
             Yn gwylad pob buarth,  
             A'i gylla'n cyfarth  
 36          O châi annair ei chyfod;  
             A'i lygaid a'i ffroene  
             Fegis megine,

- 40 Ac o'r hanner ase  
Y mynnai fuwch wasod.
- Mae'n fyfyr imi  
Pwy sy'n ei erchi  
A phwy sy'n ei roddi,  
44 O daw hynny rhyddun:  
Gwilym ap Rhys ap Gwilym,  
Nid palledig o ddim,  
Hwnnw yw ail Edlym
- 48 A wnâi camlodlu;  
Tomas wineuwyn  
Ap Dafydd ap Siancyn,  
O'r tolwyth y henyn,  
52 Mi a wn eu hanes.  
Dafydd ap Siancyn yn ddigel,  
Llew Ieuan ap Hywel,  
A rôl roddion uchel
- 56 Try fu'n cael iechyd;  
Tomas a rydd bellach,  
Tra fo byw ac iach,  
Gwalch dewr diledach,
- 60 Hwnnw a ry'r eidion  
I Wilym i'r Blaene,  
Llew Ystradfellte,  
Rhys Llwyd bob bore
- 64 A roes y da parod.
- Tomas a rydd eidion,  
Tad yr ychen bôn  
A thad y lloi brithion,  
68 Ef a wŷr brathu.  
Tarw coch urddedig  
Yw'r tarw Seisnig,  
Tomas a rydd calennig
- 72 Cyn duw Calanmai;  
Pele mawr trymion  
O ddwygaill gochion,  
A gwialen o'r cyffion
- 76 Yn cuddio'i chwthwr;  
A rhoi hwrdd i herstin  
Yr henfon gethin,  
A hithe ar ben ei deulin
- 80 A'i holl blant yn dolef,  
Yn gweled y bilain  
Yn dechre'i llemain,



- 84 A hithe'n beichadain  
Am ddangos ei chedor.  
Nid oedd gynefin,  
Yr annair gethin,  
Â dangos ei moeldin
- 88 A'i cholomen ymyldew.  
Ni wdde hithe,  
Wrth rodio bob bore,  
Fod y gwas tyre
- 92 Ar feder taro,  
Na bai cydymddaith  
Y cydfwl dieithr  
Wrth glybod ei araith
- 96 Yn gordderchu'r forwyn,  
Ac na bu'n wraig iddo  
Ac na fedre ei chnychio,  
A hithe'n godde ganto
- 100 Wrth rodio'r nentydd.
- Tomas a rydd eidion  
Cyrudded â'r sirion  
I Wilym, pâr llinon
- 104 Yw'r gwrda llonydd.  
Gyrred Tomas gywydd  
I erchi ebol rhudd  
Dros y tarw gwalltrudd
- 108 A wna tir yn gylltre.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 436

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 cirbi. 10 teocaidd. 14 wetarfo. 19 totiddwy. 21 acvrnaraith. 27 folenrwm.  
30 lawron. 31 cirwon. 32 cvrchvr. 37 afroene. 40 waset. 50 siacnyn. 52  
mawn. 53 ddccl yndee. 54 iwan. 63 bobore. 70 yseisnic. 79 tvlin. 84  
amyddacnos. 90 bobore. 95 aridd. 98 ac'na. 99 aidden. 103 llinon. 105  
cyretomas. 108 cylltre.

*Priodoliad*

nant.

*I ofyn dwbled gan Risiart ap Siancyn Twrbil*

- Mi a af at y cwrner  
 A'm arglwydd a'm nêr  
 Erbyn nos ucher  
 4 I dorri fy syched.  
 Cwrner holl Forgannwg  
 Yw cwrner Llandudwg,  
 A chwrner Gwennlŷwg  
 8 Hyd yng Nghaerllion;  
 A chwrner Dwywent,  
 Ac o bydd Teirgwent,  
 Rhwng y pedwar elment  
 12 Ef a â'r holl elfydd;  
 A chwrner Brycheinog  
 Hyd yn Llangatog,  
 A Rhos a Phebidiog  
 16 Hyd yn Llanbadarn;  
 A chwrner Uwch Aeron  
 Hyd yn Nhywyn Meirion,  
 A Gwynedd a Chaerlleon  
 20 Hyd y Gorllewin.  
  
 Na fid neb ryfedd  
 Am ganu'r gwirionedd,  
 Ac yn Lloeger diredd  
 24 Ei big a dery.  
 Ceidwad gwlad Iestyn,  
 Perchen gwŷr cedyrn,  
 Cene yw o Siancyn,  
 28 Ni cheisodd encil.  
 Nid camach i'r cwrner  
 Gadw gwlad Gamber  
 A chrogi'r lladron lleder  
 32 A egyr bob llidiat.  
 Llyma'r byd: cynllwyn  
 A lleidr ym mhob llwyn;  
 Ef a ddaw Mab y Forwyn  
 36 Â hyn i wared.  
 Llyma'r nawmis yn ddie  
 Y cerdda'r cebystre

- 40 Am ladron y teie  
 Ar rynnos dywyll;  
 Llawer pren ar fynydd  
 Heb ddim o'r cynnydd,  
 44 A phenne ar geyrydd  
 A chyrff ac ysgeiredd.  
 Llyma'r haf hirfelyn  
 Nid ymgâr undyn,  
 A rhew 'mhob dyffryn  
 48 A'r saint heb ddeffro.  
 Arwyddon dyddbrawd  
 A welaf yn dyfawd,  
 Ac ni welaf y llogawd  
 52 Na chrogi un llogwrn.  
 Myrddin Amhorfryn  
 Oedd cywira' dyn  
 Pyn roes yr undyn  
 56 I wlad yr India,  
 Pyn aeth â'i chwaer fain  
 I hengaer Brydain,  
 A mam yn llefain  
 60 Am dâl y llafur.  
 Gwnaeth oed dydd dan dderw,  
 Gwych frenin carw,  
 Byrnhawngwaith garw,  
 64 Â'r undyn gore.  
 Claddodd ei drwsiadion  
 Yng Nghoed Celyddon  
 Dan ddaerydd gleision,  
 68 Fal y bu Lasar.  
 Coed Celyddon amlwg  
 Ydiw Llandudwg,  
 I'r coed yn un hudwg  
 72 Y dof ar fy hedeg;  
 A Myrddin groywgoch  
 Ydiw'r cwrner gwalltgoch,  
 Ar gwrser rhuddgoch  
 76 Yn dilyn yr hyddgant.  
 Erchi a wnaif i'r cwrner  
 Well no phais leder  
 I guddio 'nghroen a'm cleder  
 80 Rhog bod arnaf galedi:  
 Dwbled erdduniant  
 Fel pais Caradog Sant

- 84 A dâl aur a simant,  
Ym nid oedd symyl;  
Dwbled lân eglur,  
Gwell no phais Arthur,  
A main ac asur
- 88 Ym môn y gesail;  
Dwbled o felfed  
Ne ddwbled o siamled  
Am Ddafydd i gerdded
- 92 Mywn gardd gorddi.  
Nid syw i brydydd  
Wisgo croen nawmlwydd  
Fegis hen grechydd
- 96 Yn rhostio'i gomache.  
Rhys ap Llywelyn ap Gwilym,  
Gŵr megis Edlym,  
A roes dwbled Cynfelyn
- 100 I guddio'r croen a'r bola.  
Ef a aeth gwŷr Elfed  
Â'm pais o wrsted  
A sidan a felfed
- 104 Ddigon i filfyrdd.  
Y cwrner a rydd dwbled  
A fo syw i'i gweled  
Islaw fy saled
- 108 Cyn gŵyl Sain Silin.  
Minne fyddaf amlwg  
Erbyn dygwyl Dudwg,  
A'r gloria o'r golwg
- 112 Megis bugelydd,  
A thorri sbaere  
Y gŵn llwyd gore,  
A thynnu fy mreiche
- 116 I'u dangos yng ngwlad Frychan.  
Minne rof fy mendith  
Yn gyamled â'r gw lith  
I'r cwrner dilladfrith
- 120 Na wisgwn y lledryn.  
Mae 'n y llys blaned,  
Mae iddo ferched  
A rydd aur caled
- 124 I wneuthur pais a choler.  
Ŵyr Rhys ap Siancyn,  
Â'r cwrser claerwyn,

- 128 A drwsiodd aur melyn  
Ac arfe melan.  
Gwialen yw o'r Dyrllwyn,  
Brenhinllwyth Collwyn,  
Mi a wn y llwyn
- 132 A'i berllenni.  
Merch Siôn gadarn,  
Tu yma i'r Fan,  
Y benbres arian
- 136 A rif bob seren;  
Merch o Frycheinog  
A Glyn-nedd enwog,  
Mae honno'n genhedlog,
- 140 Nid rhaid dim o'r dadle.  
Ni ddarfydde ym gyfrif  
Ei cheneddl a'i rhif  
Na degwm nac eirif
- 144 Nes darfod y geire.  
Gwraig yw i'r cwrner,  
Perchen gwin seler,  
Ail Alecsander,
- 148 Uwch no môr Sandwis.  
Honno a bair y ddwbled,  
Perchen gwin clared,  
A'r cwrner nid caled,
- 152 Myn Duw a Cheli.

*Ffynonellau*

A—Pen 54, i, 413 B—Pen 54, i, 440

*Darlleniadau ac amrywiadau*

1 *A* miafatycwrer, *B* miafatycwrner. 3 *AB* erbynos. 4 *B* yleihvfyschet. 8 *A* yncaerllion, *B* ycaerllion. 12 *A* efar. 13 *B* brychenoc. 16 *B* hytyllanbatarn. 17 *B* vchaeron. 18 *A* hyty[-]nywynmirion, *B* hytywynmirion. 19 *B* chaerllion. 22 *B* cwironedd. 23 *B* llecer. 25 *A* iystyn, *B* citwat; iystyn. 28+ *A* tyrosymyladdyncatarn / arlawrewlatforcan / aeddyddartyn teiran / hebormoddyntaerv. 33 *A* llymarrbytc[.]ynllwyn. 34 *A* ymob, *B* arlleitiryhmobllwyn. 35 *A* yorwyn, *B* ddw. 38 *A* cwrddar. 39 *AB* theie. 40 *A* arynos, *B* aryns. 46 *A* vnvyn. 47 *A* mobtfryn, *B* mobobtyfryn. 52 *A* lloccwrn. 53 *A* myrddinamhorfryn. 54 *A* cewira. 57 *A* chwwaer. 61 *A* oetydd. 62 *A* [.]cwychfyrenhin. 63 *A* brnhawn. 64 *A* arvntyn core. 65 *A* cyladdedytrwsyati. 72 *A* hytec. 73 *A* cyrowcoch. 75 *A* cwrservddcoch. 76 *A* yntilinyrhyddcant. 79 *A* cvddo, *B* ycvddorcyroenarcyleter. 80 *B* yddwbletlytan. 84 *B* odd. 85 *A* bwblet. 87 *B* asvrymon. 88 *A* ymon, *B* ymonbobceseil. 91 *A* c[.]erddet, *B* yddafydd. 92 *B* mvn. 93 *B* byrtydd. 94 *A*

cyroenywlwmw, *B* cyroencyrechydd. 95 *A* rechydd, *B* fecish[.]  
~~no~~ecystlvmvdd. 96 *A* comach[.] *B* afaiwetystlomi. 97 *A* llwelynabylym. 99  
*A* cynfelym, *B* bwblet<sup>c</sup>ynfelym. 100 *A* cvddor, *B* ynamcarnymbola. 101 *AB*  
efaedd. 102 *B* amtwblet. 105 *AB* ardd. 108 *B* cwylsain. 111 *B* cyloracolwc.  
112 *B* fe[...]<sup>c</sup>mecis. 115 *A* fmreiche, *B* yddacnosfmreiche. 116 *A*  
yddancosbaisfyrehan<sup>n</sup> ytancosyncwlatfyrychan, *B* yollwlatfyrychan. 117 *A*  
rofy, *B* miarofymntdd. 118 *B* cyamlet (*nid* yncyamlet). 119 *B*  
cwrertillatfidd. 120 *A* amyddwbletlytan (nawiscwnylletryn *ar* ymyl *y*  
*ddalen*), *B* nawicwnyble[...]. 122 *AB* idd. 123 *B* aydd. 124 *A* nevddvrais, *B*  
nevddvrbaiss. 125 *A* wyrysabysiancyn, *B* wyrysabsacyn. 127 *A* evr[.]melyn,  
*B* twrwsodd. 128 *B* cylcharfe. 131 *B* oeinionabcollwyn. 132 *B* hytynolcello.  
133 *B* mrch. 134 *A* tvma, *B* arsiacethayarn. 135 *B* bwywrysaisysvcan. 136 *A*  
bobyseren, *B* ayfwyellaysocet. 137 *B* frecheinoc. 138 *A* clyneddenwoc, *B*  
clyneddrywyoc. 139 *A* ynhetloc. 140 *A* raitim. 142 *A* chenetddl, *B*  
chenenetnaerif. 143 *A* n<sup>a</sup>[.]ecwmnacirif, *B* naetecwmnaceirif. 144 *A* cire, *B*  
ceirie. 147 *A* elvcsanter. 148 *A* [.....]itwntwr (vwchnomorsatwis *ar* waelod *y*  
*ddalen*). 151 *A* ntaet, *B* cwrn[.]ytcalet.

### *Priodoliad*

*A* nant (*ac eto yn dilyn llau. 125–36 a ychwanegwyd ar ddiwedd y gerdd*), *B*  
nant.

### *Trefn y llinellau*

*A* 1–108, [109–12], 113–24, 137–52, 125–36 (*ychwanegwyd y llau. hyn ar*  
*ôl y priodoliad*).

*B* 1–8, [9–12], 13–40, [41–4], 45–8, [49–76], 93–104, 77–92, 113–16, 105–  
12, 121–44, [145–8], 149–52, 117–20.

*I ofyn caseg gan Siôn ap Gwilym Fychan dros Domas ap Siancyn Twrbil*

4 Tomas ddieiddil,  
 Fab Siancyn Twrberfil,  
 Perchen llyfyr sifil  
 I ddarllain o'i sefyll,  
 Yn llefain am orwyddes  
 A fagai eboles,  
 8 A march fal gormes  
 Wrth gaer yn germain.  
 Gwilog fawr rymus  
 O gaseg rewys,  
 12 A'i meibon yn frywys,  
 A wna ffyn yn friwydd,  
 Ac yn ddigon llydan  
 Ei chont a'i chwman  
 I ddwyn hacnai buan,  
 16 A Thomas bie;  
 Caseg Tomas Twrbil,  
 Caseg fawr ei hepil,  
 A blew ar ei gwegil  
 20 Ac yn hir ei gagen.  
 Cyn gyfled ei bontin  
 Â chastell Penllin,  
 A'i chont a'i melin  
 24 A'r dŵr yn malu;  
 A chluste urddedig  
 Fal cluste ewig,  
 A'i phen a'i phennyg  
 28 A hithe ffynnodd;  
 Ac aelode ffyrfon  
 Fal cesig Iwerddon,  
 Ac yn gyd ei chynffon  
 32 Â heol Cynffig;  
 Nac yn gaseg ruddgoch,  
 Nac yn gaseg felengoch,  
 Nac yn gaseg lwytygoch,  
 36 Ymohir, letbai.

Hir y bydd prydydd  
 Yn ymleferdydd:

- 40 Ble bo'r hael a'i rhydd  
 Er mwyn rhaiain?  
 Mae gwalch drythyll  
 A dyr gwayw'n gandryll,  
 44 Nid aeth ei farch yn estyll,  
 A dorres cant pastwn.  
 Pwy ydiw hwnnw?  
 Mi a wn ei henw,  
 Ac nid â ar herw  
 48 O chaiff ferch i'i harail:  
 Siôn ap Gwilym Fychan,  
 Mab uchelwr glân,  
 Gŵr a dorrai allan  
 52 Â'r henwayw ellyn;  
 Edling urddedig  
 O had bonheddig,  
 A dyr gwayw'n ysig  
 56 Dan ei waed asen,  
 Ac a rydd rhoddion  
 I wael a beilchion,  
 Medd llyfyr y ganon,  
 60 Walch dewr gwine;  
 Rhoi gwisg o arian  
 A medd o fasarn,  
 Mab Gwilym Fychan  
 64 Â'r galon uchel.  
  
 Erchi mae Tomas,  
 Nis archai i gas,  
 Gorwyddes fel danas  
 68 I biso deni.  
 Ni bydd gwaeth yn ddwblw  
 Pe rhoddai gwblw  
 I fwyta sibwl  
 72 O gesig ansyberw.  
 Siôn a rydd gwilffod  
 I wneuthur hafod  
 I Domas, wrth gyfod  
 76 Y gwyl y gofud.  
 Arched Siôn i Domas  
 Ych penfrith bras,  
 Na'i farch dulas  
 80 Ne ddau ystalwyn.  
 Ynte a gaiff ddigon  
 O had ebolion  
 Gleison a llwydion  
 84 O'r cesig llydan.



- 88 Siôn a rydd caseg  
Oni rydd angwaneg,  
Cyd yw ei maneg  
Â thre Fyniw.  
Anodd yw heldian  
Caseg fawr lydan  
Heb gaseg fechan
- 92 A honno'n feichog.  
Cerdded a wnein i gyd  
Hyd yn Llanilltyd,  
Hirion fydd ei gweryd
- 96 A'i chont yn egori,  
A chael ebolion ddigon  
Oddi tan ei chynffon,  
Minne gaf gan Garon
- 100 Adu'r gŵr gore.
- Siôn ap Gwilym Fychan  
A rydd rhodd gadarn  
I Domas ail Trystan
- 104 I gerdded trawstir;  
A Duw a ro cesig  
I'r gŵr bonheddig,  
Ac aur a sirig
- 108 A rif bob seren;  
A chael oes Arthur  
A merched eglur  
Y sy'n ail Peredur
- 112 I ellwng meirch rhydeg.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 377

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 tomas[.]. (*uwchben y llinell ceir t<sup>e</sup>mastwr*). 2 fabysiancyn. 9 fawrymvs. 11 fyrwys. 26 cvsewic. 27 afen. 28 afiddefynodd. 29 elote. 30 iweron. 32+ acynddevevfwch / acharecvwehcvweh / achylwwehcvfwch / vchlawycofv. 36 ymohit. 41 calch. 42 atytr; canddyll. 43 esyll. 44. baswn. 45 bwyn. 48 cheiferch. 49 cwimfychaan. 53 etlicn. 54 ohabyneddic. 55 waewn. 59 mellyfyrycanon dd. 61 cwio. 62 fasaryn. 63 cilimfychyn. 80 stalwyn. 84 llyan. 84+ hoetsion. 86 yncwanec. 89 heltan. 91 hb. 92 feichoc. 93 neyn. 94 vlltyt. 95. hyronfyddycwryt. 96 contenykori. 97 ddcon. 101 cilm. 104 cerddetyrawstir. 106 boneddic. 107 scric. 111 ysinai~~l~~byrevr. 112 yrytec.

*Priodoliad*

nantaycant.

*I ofyn gŵn gan yr Abad Wiliam*

Ef a roes yr abad  
 Ym ŵn o sgarlad  
 Ac a'm trwsiodd o ddillad,  
 4 Pynnag pwy a'i dyallai.  
 Yr Abad Wiliam,  
 Mi a wn paham,  
 Chwi ydiw Abram  
 8 Tir Groeg ac Ebrw.  
 O rhowch ym dudedyn,  
 Rhowch o iawn frethyn  
 O'r llawr hyd fy nuryrn,  
 12 O bydd rhaid ymdaro.  
 Gwisg ym a roddwch  
 O wllân tir Matholwch,  
 I fyned i gyfrwch  
 16 Ar farch a chyfrwy;  
 Gŵn o frethyn gwastad  
 Gore fo yn y farchnad,  
 Heb ddim o geden dafad,  
 20 Ti a gei awdl difai.  
 Nid syw i arglwydd  
 Roddi gŵn dwyflwydd,  
 Na rhoddi gŵn teirblwydd  
 24 I fyned i ffitelblas;  
 Gŵn newydd urddedig  
 O frethyn ffrisedig,  
 Ac o wllân Seisnig  
 28 Ni wypo Saesneg;  
 Ni ellir dim o'r Saesneg  
 Na iaffaith o'r Gwyddeleg  
 Na dim o'r Corneueg  
 32 Megis cyrn ewig.  
 Arglwydd o bumcanmorc,  
 Gwnewch ym ŵn o forc  
 Er mwyn cig porc  
 36 Yw fy mhwrcau.

Ni fynnaf i ŵn iselwerth  
 Fegis gŵn Iorwerth,

- 40 A fydde'n cerdded yn anferth  
Fegis gŵr ynfyd;  
Gŵn mawr llydan  
Fel gŵn Huw Tarhaearn,  
Megis sidan Morgan
- 44 A roes ym ŵn ergyd;  
Gŵn hir i ddwyn dart  
Fel gŵn Gwallter Hafart,  
Yr abad fel llewpart,  
Gŵn llaes llipa.
- 48 Bydd yn faen beril  
Megis Tomas Twrbil  
Mab Siancyn Twrberfil,  
Yno y mae 'mhorfa.  
Hwnnw a'm trwsiodd yn lân  
A'm tynnu o farcutan  
Fegis hen lluman
- 56 Cleirch yn noeth lumun;  
A rhoes ym ŵn nowllath  
A gostes chweugein bob llath,  
A minne, frath tryfrath,  
60 Fegis tarw trefred,  
Wedy i wŷr Hirfryn  
'Y ngyrru heb un edeifyn,  
Fegis hen getyn  
64 Wedy methu'r llygota.  
Minne geisais fyned  
Ar gefn y colt Trwmped,  
Gwedy fy nghlwyf a'm colled  
68 Gan williaid Cellan,  
Ac a ddeuthum yn gynnil  
Tua llys y Twrbil,  
Ar gefn y du crecwil  
72 Fal hen wrach groca;  
Ac yno y bŵm ddifiog  
Yn y llys gorniog,  
Wedy i wŷr Cyfeiliog  
76 'Y ngyrru ar gyfeiliorn.  
Gwell y gwnaeth Tomas  
Roddi gwyrdd y dinas,  
Fegis ail Elïas  
80 Yng Ngalalïa;  
Rhoddi rhodd wrthfawr  
O'r awyr hyd y llawr,  
Islaw fy nghedawr  
84 I guddio fy ngheudin.

- Chwithe'r arglwydd abad,  
 Syre, gan eich cennad,  
 Rhowch ym ŵn marchnad  
 88 Erbyn duw Merchyr.  
 Nid archaf i anael,  
 Erchi'r wyf i hael;  
 Ni thâl yr anael  
 92 Noeth er ei eni.  
 Llwyth Hywel Fychan,  
 Abad du sidan,  
 Chwi yw ail Cynan,  
 96 Minne fedra' ganu.  
 Cynnal Ehangwen  
 Fel Siôn abad hen  
 Yn y llys glaerwen  
 100 Wrth ganu Gloria;  
 Cynnal arglwydd-dai  
 Yng nghyfair Porth y Cai,  
 Â medd ac osai  
 104 A phawb yn eu ceiso;  
 A'th longe o Loeger  
 A'th win i'th seler,  
 A'th gan a'th leufer  
 108 O'th law a'th lifrai;  
 A'th lys yn ddisglair,  
 Faen mererid Mair,  
 A'th glych yn gywair  
 112 Fegis main cawad.  
 Gwnewch yr hyn a fynnoch,  
 Ai rhoi'r gŵn ai nas rhoddoch,  
 Cynnal dy lys hyd doloch  
 116 Basg a Nadolig.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 396

*Darlleniadau'r llawysgrif*

4 byl<sup>l</sup>-nac. 3 twrwsyodd. 11 fnvrn. 20 awtwl. 22 teirblwydd. 24 twyflwydd. 24 fiterba. 25 cwnewydd. 27 seisnic. 29 elir; ar. 31 atim. 32 meis; ewf<sup>l</sup>-ic. 35 erm<sup>w</sup>yn. 42 tyryarn. 43 mecisytan. 47 llbart. 52 maemmorfa. 53 twrwsyodd. 56 ynoedd. 57 wnowelladd. 58 hwevcein. 59 tryfraddf. 60 tyryfret. 61 wetywyr. 62 ycvrv. 63 chen. 64 llcota. 66 coltrwmbet. 72 hn. 74 coryoc. 75 wetywyr. 76 ycnrv. 84 cvddofcnevtin. 93 llyddhywel. 94 abat vsitan. 97 eyacnwen. 109 ynewair. 111 aacylych. 113 aycnewchyrin. 115 llystoloch. 116+ onybaicaelfyracnec / citachynevfyrecnic.

*I ofyn clog gan Syr Dafydd Fychan o Ystradfellte*

- Chwith ydiw prydydd  
 Heb ddillad newydd  
 Pyn ddêl tes ysblennydd  
 4 A myned yn fflewma.  
 Mae 'm yne hirion  
 A dwbleddi ddigon  
 A chryse gwnion  
 8 Wedy i'r merched eu cannu;  
 A chape a hete  
 Ac ysaneue  
 A bwäe a saethe  
 12 Megis can saethydd;  
 A chledde a dagar  
 A phadere mwyar  
 A thŷ ac adar,  
 16 Pell yma ei ado.  
 Ond eise cochol  
 I guddio dyn gweddol,  
 O bai wrth reol,  
 20 Mywn perth rial.  
  
 Mi a wn lle mae clog  
 I ail Tefrïog  
 Am brelad serchog,  
 24 I hwnnw pes archwn;  
 Yffeiriad o Forgannwg  
 A ddysgodd gan Gatwg,  
 Un da ei olwg  
 28 Ar lyfyr can dalen.  
 Mae'n canu fferenne  
 Yn Ystradfellte,  
 A rhoi aur a gwledde,  
 32 Ni ad ei g'wilyddo.  
 Mi a wnafl gerddi wrth gloch  
 I Syr Dafydd goch,  
 Ail abad Llandudoch  
 36 Am rodd odidog.  
 Ef a ddysgodd dan gob  
 Tu yma i Gorstinob  
 Mwy no chwech esgob

- 40 Tu yma i fôr yr Ysbaen.  
Mae clog muchudd  
Am y doctor Ddafydd  
A lle i dynnu'i adenydd
- 44 Pyn ddêl i'r dinas;  
Clog gwych, myn Silin,  
A wedde am frenin,  
Hyd ym mhen y ddeulin
- 48 Rhog ofon eiddilwch.  
Tŷ yw i'r prelad  
O wllân cefn dafad,  
Gwell nog ysgarlad,  
52 Megis gwisg Wrlais.
- Ni bydd palledig  
Ei barsel o'r calennig,  
Myn Mair a Chirig,  
56 Ni ellir fy ngherydd  
Am erchi i ffeiriaid  
Ac i bersoniaid  
Ac i sgwieriaid
- 60 O aur ac arian.  
F'ysbeilo naeth lladron  
A cherddeteion,  
Ac imi ni adowson
- 64 Gedechyn i'm croesi.  
Ynte Syr Dafydd  
A ry ym wisg newydd  
Fegis gŵr o grefydd
- 68 Rhog bod arnam grafu;  
A than lwyn o ddail  
Tynnu 'mraich o'm cesail,  
A chael dyn i'i harail
- 72 Megis Angharad.  
Tan fy nghlog o lir  
Wrth gadw'r geifir  
Y daw merched cywir
- 76 I wrando'r cywydd,  
A rhifo'r bytyne  
Ar hyd pen f'ysgwydde,  
A gwae finne am ysane
- 80 Erbyn nos Ynyd.

- Ni bu'n dwyn bedydd  
Haelach no Syr Dafydd  
Am gochol muchudd,  
84 Syr Dafydd Fychan,

- 88 A dysgu meibion  
 Ail y doctor Leison,  
 Ac yffeiraid a llygion  
 Fal ychen a logid.  
 Ef a rydd ym simwr  
 I guddio fy llowdwr  
 A'm hers a'm cwthwr  
 92 Wrth fyned i Langathen;  
 A dysgu hedfan  
 Yn y simwr llydan  
 Ag wyneb tylluan  
 96 Tu yma i Gaerlleon;  
 A thynnu fy llewys  
 Ar 'y nau ystlys,  
 A cherdded yn rymus  
 100 Fal gwraich yn rhanna,  
 Â hirgwd llydan  
 A hen ysgrepan  
 A gwas a ffetan  
 104 I gynnull y ffitel;  
 A cherdded pob gwichdwl  
 Yn fy nghlog trydwl,  
 A chasglu blawd cynnwll  
 108 I'm henfwrth gennyf;  
 Ac yfed gwin rhuddgoch  
 Gyda Syr Dafydd goch,  
 A dechre toloch  
 112 A chanu telyn.  
 A Duw a ro cochle  
 I'r yffeiriad gore  
 Yn Ystradfellte  
 116 I gnycho mywn elltydd.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 432

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 h<sup>w</sup>idd (ychwanegwyd c ar ddechrau'r gair, mewn llaw wahanol, o bosibl).  
 2 nwydd. 4 fylema. 8 wetyr. 18 cvddo. 33 cyerddi. 36 ytitoc. 38 tvma. 39  
 hwech. 43 tvnvtenydd. 54 basler. 56 ellirfncerydd. 57 erchifeiriet. 61 llaron.  
 62 chorddeteion. 63 nitowson. 66 wic. 71 haril. 75 yta. 78 a'yt. 80 erbynos.  
 85 tyvsc. 90 ycvddofllwtwr. 102 yscyreyban. 104 cvnvl. 108 ceny. 110  
 tfydd. 115 fellele.

*Priodoliad*

nant.

*Moliant Watgyn ap Syr Rhosier Fychan*

- Neidr urddedig  
 Yw neidr Foriddig,  
 Neidr, myn Cirig,  
 4 Hi a gaiff y gore;  
 Neidr fawr amlwg,  
 Aur cylch ei gwddwg,  
 Neidr mywn golwg  
 8 O'r môr bwygilydd.  
 Llu'r neidr gadarn  
 Yr hollfyd a hedan',  
 Maestr Watgyn Fychan  
 12 Yw'r neidr oruchel.  
 Gwiber edeinog  
 Yw'r neidr golerog,  
 Ag ewinedd pigog  
 16 A ladd bob egwan.  
 Bydd ŵr urddedig,  
 Neidr o Foriddig,  
 Mab Syr Rhoser orig,  
 20 Perchen gwindai eres.
- Deucanpib a welad  
 Yn llysoedd dy dad,  
 A'r gwin gwyn gwastad  
 24 A'r arian gwisgi,  
 A phimant i ganmil  
 A bwyd i chweugeinmil,  
 A gyne i deirmil  
 28 Oedd ar ei derment.  
 Chwithe'r Maestr Watgyn,  
 O Foriddig Warwyn,  
 Ymlid yr ellmyn  
 32 A hela arallwlad;  
 Ymlid y lladron  
 Â'th fwâu hirion,  
 Ac ennil y goron,  
 36 Ti yw'r gŵr gore.  
 N'ad un gwilliad  
 Yn dy swydd wastad,



- 40 Nac i fugunad  
 I chwythu megine,  
 Nac i ffroeni arnad  
 Na bygytho'r wlad,  
 Na cherdded wrth leuad  
 44 I yrru da lawer.  
 Gestwng wŷr hirion  
 Tu yma i Dregaron  
 Â'th wewyr sythion  
 48 A digon o saethe.  
 Bydd Olifer arnun  
 Fal a'i clywo pob dyn,  
 Ti yw'r Maestr Watgyn,  
 52 Gan glych a chytgerdd.  
 Marchoga ganwlad  
 Fal y gwnaeth dy dad,  
 N'ad leidr na gwilliad  
 56 Heb wayw yn ei gylla.  
 Gwisg goler eurlen  
 Ac ysbardun felen,  
 Bydd farchog dan heulwen  
 60 I rai haelon.  
 Eura dy ddagar  
 A'th gledde a'th faslart,  
 Ti yw'r ystiwart  
 64 Dros dir y Deau.  
 Mi a glywais adfarn,  
 Fab Syr Rhoser Fychan,  
 Yr ewch i dir Melan  
 68 I ryfelu.  
 Trig i'th wlad o ddifri  
 A gad i Ffrainc ymgorddi,  
 A phoed oerchwedl iddi  
 72 A hwyntwy a leddir;  
 A gad uddun bwyo  
 Ffrainc a'u dyludo,  
 A thir Maen ac Ainsio  
 76 Â thri chanmil o ynse;  
 Ac Edwart yn gall,  
 Fal Syr Hywel y Fwyall,  
 A gorna gafall  
 80 Yn y cyfog;  
 A ffrwyno'r brenin  
 A'i dynnu ar ben ei elin  
 A wna Edwart Frenin

- 84 Ar hyd yr holl frynar;  
Ac ennill Picardi  
A Mwnt a'i lloggi,  
A'i holl wŷr yndi,
- 88 A wna brenin Llundain;  
A Gien a Gasgwin  
I Edwart Frenin,  
A chanmil yn ei ddilyn
- 92 Yn un ddolef.  
  
Cynnal dithe ganmil,  
Wyd arglwydd ys[ ],  
A gwnewch hynny'n gynnil
- 96 Gan eich cennad;  
A'r byd fal y mynnych  
Try fo ŷd mywn rych,  
Hyny êl Wysg yn sych
- 100 Gan ei syched;  
A chael oes Ferddin  
A chael oes Daliesin  
[ ]ch, y Maestr Watgyn,
- 104 [ ] yn ei ddatgan.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 387

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 vrddic. 4 cef. 10 ynollfyt. 14 eistir. 15 awinedd. 16 ecan. 19 syroser. 20 cinteï. 26 hwevceinmil. 28 ary[...]~~ment~~terment. 32 orallwlat. 38 wasat. 40 hwddv. 41 annat. 44 vrv. 46 tvma. 47 wewyryyddyon. 50 cylwo. 57 cwiscoler. 58 ysbar[.]vn. 59 bdd; fevlwen. 61 ddacarta. 62 addwae. 64 tyirytev. 65 cylweisatfan. 66 syroser. 70 fraicn. 71 chwetelidd. 72 wntwy. 73 vddv. 74 fyraicn. 76 addrchanmiloyse. 78 eyfwyall. 79 acona. 82 tvnv. 84 arytyroll. 86 mwytalloci. 87 ayoll. 88 llv[ ]. 89 csewin. 91 ddiln. 94 ys[. ]. 95 hyny[. ]. 101 [ ]chael. 102 [ ]ael. 103 [ ]ch. 104 [ ]jnyddatan.

*Priodoliad*

nant.

*Moliant Tomas ap Syr Rhosier Fychan  
i ddymuno iddo ddychwelyd o gastell Penfro*

Erestiwyd ail Melwas  
 Gan y Maestr Tomas,  
 Ef erestiwyd y dyrnas  
 4 A'i holl gedernid;  
 Nis restiai neb  
 Ar a welai ei wyneb,  
 Ef a ddwg ateb  
 8 Ar gaethiaid eto.  
 Nid oedd yn ei blas  
 Un ffon, un ffas,  
 Nac yn ei dyrnas  
 12 Un gwayw dyrnaid;  
 Ni bu frenin o'r Sieb  
 Y cyfryw wyneb,  
 Nac un ddoethineb  
 16 Ni ddaeth o'i ene.  
 Ef a aeth wellwell  
 Dre Benfro gastell  
 Lle mae'r iôr diell,  
 20 Efe geir diod.  
 Arglwydd Naf dinam  
 A Mair ei fam  
 A'i dwg atam  
 24 I Dre'rtŵr eto.  
 Y tair Mair gwnion  
 O Lanerchaeron,  
 A Duw a Charon  
 28 A dyr ei chaere.  
 Dwynwen a Cheinwen,  
 Brothen, Rhianwen,  
 A ddwg yr unben  
 32 O'r hengaer enbyd.  
 Peblig a Chirig  
 A Sain Domnig,  
 Rhowch un calennig  
 36 [ ]o walch calonnog.  
 Y grog o Gaerlleon

- A Dewi a Non,  
 A Chynin a'i weison  
 40 A Mair ac Asa,  
 A ddyco'r Maestr Tomas  
 O Benfro ddiiflas,  
 Ef a ddaw i solas  
 44 I dir Maesaleg.  
 Y grog o Lechanwen  
 A Sulien a Chathen  
 A dyr y gaer drwynwen  
 48 Cyn y bore drennydd,  
 A'i holl gyple  
 A'i holl hornele  
 Yn fil o ddrylle  
 52 A'r Maestr allan.  
 Y grog o Aberhoddni  
 A Mair o Aberteifi,  
 A Christ a Cheli  
 56 Y harchaf a Cheler,  
 Am y carw eurllin  
 O gorff y brenin  
 A ddwg gadair Ferddin  
 60 Cymry ac Iwerddon.  
 Mwrog, Carannog  
 A Dogwel ac Enog,  
 A Thygwy a Thyfrydog  
 64 A'i cadwo rhog bradwr.  
 Padarn a Beuno  
 A Seirioel a'i nodd,do,  
 A Derfel a'i cadwo  
 68 Rhog saig hocedwr.  
 Cybi ac Elien,  
 Teilo, Deiniolen,  
 Gwenog a Gwnnen,  
 72 Y'i caf gennwch.  
 Garmon, Sain Simon,  
 Cristiolus a Siaron,  
 Tubiel ac Einion,  
 76 Non a Chennych,  
 A ddyco'r Maestr Tomas  
 O'r hengaer freithlas,  
 A Duw a Saint Andras  
 80 A Mair wendroed,  
 O garn yr henSais blin  
 A charn bwg y felin,

- 84 Ac o garn y coblin,  
Gwaith yr hen gobler,  
Ac o'r hen eisingrug  
Ac o garn y seithug,  
88 Cas dwbe Ceidryg,  
Costog bicra,  
Ac o garn y lladron  
Ac o garn cystogion,  
Ac o garn y Saeson  
92 Er yn oes oesoedd,  
Ac o garn y cigfrain  
Ac o'r moel clogfain,  
A phob cythrel yn llefain  
96 Gan faint y llafur,  
Yn gweiddi o'r mure  
A'r ceirydd a'r cloddie,  
A Phenfro dyre,  
100 Oheni ni'm dorwn,  
Swydd Benfro halog,  
Rhos a Phebidiog,  
Ac yn nhai pob taeog  
104 Tân ac ytewyn.
- A chael mab Syr Rhoser,  
Maestr Tomas eurner,  
A thrychan gwanner  
108 A milioedd gennym,  
A chan clariwns  
A chan gitwns  
A chan maen gwns  
112 Yn ei gwysel;  
A'r Maestr Tomas  
Mywn cloth-of-Aras  
Yn gyrru'r dyrnas  
116 Â'r gwewyr a'r darne,  
A chanmil o filioedd  
Yn dilyn rhyfeloedd  
A gwŷr ac aeroedd  
120 Yn ymguro;  
A llyma deuluwas,  
Y Maestr Tomas,  
Perchen glaif gwnias,  
124 Da yw gennyf.  
Ac felly y darffo  
I Ros a Phenfro

- 128 A swydd Gaer eto,  
Hwy a gân' fatel;  
Ac yn dilyn y sias  
Ar gwrser gwnlas,  
132 Llu'r Maestr Tomas  
Â'r henwayw lletmog.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 406

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 meleas. 5 ny srestyi. 6 a[.]awelei. 7 efaddwy. 8 caeddyit. 11 tyras. 12 vn<sup>c</sup>wew. 14 cfrw. 15 ddeddineb. 16 ddevdd. 17 efaedd. 20 efecir. 21 y~~ra~~rclywydd. 25 mir. 26 lanarch. 31 ddwc[.]yr. 34 saintomnic. 35 yrhowch (a'r y wedi ei dileu?). 36 [.]<sup>v</sup>owalch. 41 tmas. 44 maeshalec. 49 aholl. 50 aholl. 51 eddrylle. 53 oberhoddni. 57 a~~ra~~<sup>m</sup>. 59 addwcateir. 61 mwrocaranoc. 62 aceloc. 65 bvno. 67 acatw. 68 focetwr. 70 tynyolen. 74 ciristiolvs. 77 maestertmas. 79 avw. 85 eisinrvc. 86 sevddvc. 88 bica. 95 cvddrel. 97 cweiddor. 98 cylodde. 100 nynorwn. 101 swy[.]dd. 102 febibioc. 103 ynhaibobthaeoc. 105 syroser. 108 c[.]wm. 115 cvrv. 116 cewyrarne. 117 chamilofliodd. 118 ryfelodd. 119 acaerodd. 120 yn[.]ymvro. 125 fellytarfo. 129 ynilin. 130 cwrsercwnlas. 132 aren.

*Priodoliad*

nant.

*Moliant Meredudd*

...

- Mae gwin mywn pibe  
 O fywn i'r selere,  
 A bwyd o'r gore  
 4 A phawb yn ei guro;  
 A'r ffiole'n rhedeg,  
 Bob un ar bymtheg,  
 A'r seige ar osteg  
 8 A phawb yn ei restio;  
 A thrwst y bere  
 Yn y cegine  
 Fal rhode meline  
 12 Hyd ym Maelienydd;  
 A'r gŵr yn uchel  
 Fegis maen cwrel,  
 Lliw sirian siwel  
 16 Yn croesawu:  
 Mur Arglwydd Herbert,  
 Meredudd win gwfert,  
 Ystôr ac ystiwert,  
 20 Rhaid uddun dewi.
- Yno y dof inne  
 O Forgannwg dyre  
 I lenwi fy fforsele  
 24 O fwrddin Silin.  
 Ni ddaeth neb allan  
 O'r llys fawr gadarn  
 Heb aur llydan  
 28 Yn ei byrse lleder;  
 A bwydydd a diodydd  
 Yn llysoedd Meredudd,  
 A gwin ac elfydd  
 32 Fegis mywn gwylfa;  
 Ac arfe gwnion  
 Tir Melan ddigon,  
 A bwäe sythion  
 36 A gwŷr yn saethu;  
 A milgwn a bytheiaid  
 Ac ysbaenelaid,

- 40 A gwŷr a gwasogiaid  
Uwchlaw'r seige;  
Ac emys ddigon  
A merched a meibion  
Uwchlaw Caerllion
- 44 Cyn wned â'r lliain;  
A pherllannau ddigon  
A garddau gwyrddion,  
A chloxydd gleison
- 48 A gwydr eglwysig;  
Ac erydr yn cerdded  
Ac ierchwys a thudded  
A sidan a felfed
- 52 Ynghylch rhyfelfeirch;  
A gleisiaid o'r eigion  
Ac ehogiaid gwnion,  
A lifreioedd brithion
- 56 Ac aml frethyn.

- Ni chanwn i elfydd  
Na ddlye Feredudd,  
Hwnnw yw'n llywydd  
A gwnewch yn llawen.
- 60

### *Ffynhonnell*

Pen 54, i, 448 [448–446: cofnodwyd y gerdd a'r llyfr a'i ben i lawr. Mae tt. 449 a 450 (a 451?) wedi eu rhwygo ymaith. Gwelir yr un llaw ar y mymryn o ymyl td. 450 sy'n weddill—cerdd a gofnodwyd a'r llyfr a'i ben i lawr eto.]

### *Darlleniadau'r llawysgrif*

6. armddec. 12 ymeilienydd. 19 [-]ystor. 21 tofine. 27 lltan. 28 ller. 39 acyracwsocyeit. 40 ywllawr. 41 ddcon. 46 crddyon. 49 eryrt. 50 llvddet. 52 rfel. 53 ac[.]leisieit. 54 ehocyt. 56 acmalfyreddyn. 57 elfdd.

### *Priodoliad*

nant.



*Melltith ar ladron Llandysul*

...

- A'u hesgyrn crinon  
 A'u cyrff yn ddyfnon,  
 A'u gwaed a'u rhofion  
 4 I'r cŵn yn rhaffe;  
 Ac na bo un cwmwd  
 Heb gael llam ysgŵd,  
 A phob lleidr heb siwrwd  
 8 I'r cŵn yn fesyryd;  
 A mil o gebystre  
 Am gyrm eu mynygle,  
 A'u plant a lefe  
 12 Gan arfe llifaid;  
 O ddyrnodau cleddyfau  
 Ar esgyrn eu penglogau,  
 A'u traed a'u coesau,  
 16 Ysig pob cesail;  
 A'u hewinedd budron  
 A'u migyrnedd duon,  
 A gwaed eu calon  
 20 Ar hyd pob celli;  
 A'u hesgyrn crapach  
 A'u holl berfeddiach  
 Uchlaw Pwllodyfach  
 24 I'r brain yn defyrn.
- A'r ail lladdfa'n flin  
 Uwchlaw Caerfyrddin,  
 Wrth Gothi gethin  
 28 Islaw Llangathen;  
 A gyrru'r lladron rhigod,  
 Fal gyrru llwynogod,  
 I bob daear barod  
 32 Erbyn y bore;  
 A chanmil o gigfrain  
 Yn gwyliad pob celain,  
 Ar gais yn ubain  
 36 Uwchben pob abwy;  
 Nac yffeiriad na chlochydd  
 Na dim o'r elorwydd,

- 40 Nac amdo na bedydd,  
 Ond uffern bydew.  
 Felly'r haeddason,  
 Y carnystogion,  
 Wrth wyn eu galon  
 44 O'r môr bwygilydd.
- Dwyn fy nhrwsiad glân  
 A'm haur a'm harian,  
 A'm peisau sidan  
 48 A wnaeth y sawdwyr;  
 Pum gŵn o yne  
 A chwech o ddwblede,  
 A naw o noble  
 52 Y bardd wyneblwyd;  
 Dwyn gwrthbane  
 A'm llenllieine,  
 A dwy o hete,  
 56 A'r diawl a'u hetail;  
 Dwyn fy nghlog pybyr  
 A'm pedwar llyfyr,  
 A gwaed êl yn eglur  
 60 Yng nghorn eu mynygle;  
 Dwyn fy nghyfrwy gore  
 A'm ysbardune,  
 A'm ffrwyn a'm botase  
 64 A wnaeth gwŷr Llandysul;  
 Dwyn fy nghorn bual  
 A dwyn fy nwy sbectal,  
 Dwyn fy nghryse syndal  
 68 O'm helw is hendy.  
 Ac felly y cweirwyd  
 Y bardd ysgyrnllwyd,  
 Ac felly y'i gyrrwyd  
 72 Try barhaodd un cwaerel.
- Minne weddiâf  
 Gyda'r lladron pennaf  
 A'm ysbeiliodd yr haf  
 76 Ar y rhyfel,  
 Na chaffon orffwys  
 Pyn elon i baradwys  
 Am y da amddyfrwys  
 80 A aeth i Lanymddyfri;  
 Ac na bo uddun enaid  
 Od êl i fil o gythreulaid

- 84 Y lladron diriaid  
 A aeth â'm dillad a'm arian,  
 Na mab wrth erchwyn  
 Na merch mywn rhwymyn,  
 Na da nac undyn  
 88 Yn swydd Gaer yndi.  
 Mi a gana' Ddews lawden  
 Ar y lladron hen,  
 Hyny gaffon yr wden  
 92 Am eu gyddge rhydeg;  
 Ac na bôn flwyddyn,  
 Na deuparth blwyddyn,  
 Na hanner blwyddyn,  
 96 Cynawan bleiddiastr;  
 Ac na bôn drimis,  
 Ac na bôn ddeufis,  
 Ac na bôn unmis,  
 100 Tolwyth gwlad Dyfennen;  
 Ac na bôn dair wythnos,  
 Ac na bôn bythewnos,  
 Ac na bôn wythnos  
 104 Heb newyn a noethi;  
 Ac na bôn y trydydd dydd,  
 Ac na bôn ddeuddydd,  
 Ac na bôn undydd  
 108 Heb losgi eu hendai;  
 Ac na bôn deirawr,  
 Ac na bôn ddwyawr,  
 Ac na bôn unawr  
 112 Heb eu gwenwyno.  
 A'r diain gwaethaf  
 Ar bobl planhaddaf  
 A fo ar y cadarnaf  
 116 O wŷr y dyrnas;  
 Ac na hilio undyn  
 O swydd Gaer i Ddulyrn,  
 Ac na bo cedechn  
 120 Nac un dyn bychan;  
 Ac felly y clywer  
 Yng ngwlad y wiber,  
 A phob costog ysgeler  
 124 Yn gawl ysgawlwyn.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 359

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 yhescyrn. 2 ddfynon. 5 acyna. 7 sirwt. 11 allefe. 13 cyleddy[.]ev. 16  
 ysicbobheseil. 17 hyw[.]inedd. 18 mi[.]yrnedd. 22 ahollbyrfeiddiach. 24  
~~amddwynyntefer~~ (*ychwanegwyd yrbyrinyntefyrn ar ymyl y ddalen*). 29  
 cvrvr. 40 vfhern. 43 wrddyn. 45 t<sup>w</sup>ynfnrwsyat. 48 sawtyr. 50 wech. 51  
~~asaiddonoble~~ (*ychwanegwyd anawonobeleyba ar ymyl y ddalen*). 52  
 yrbardd. 57 ~~ee~~bybyr. 67 fcnryse. 68 isenty. 69 fellycweirwyt. 71  
 fellycyrwyd. 72 tyrybyraoddvncaroel. 74 llaron. 75 yraf. 79 tamddyfrwys. 80  
 aeddylanymddfri. 84 aedd. 92 cyddceyrytec. 93 flwddyn. 94  
 ntevbarddbwlwyddyn. 95 bwlwyddyn. 97 bot<sup>r</sup>rimis. 100 cwlatyfynen. 102  
 byddhewnos. 105 trtydd. 108 yentai. 117 acyna. 120 bchan. 121 fellycylwer.  
 124 yscalwyn.

*Priodoliad*

ynantaycantlyrcwn [Y Nant a'i cant i'r cŵn].

*Englynion i'r lladron*

- Llys Nedd gyfannedd, gof emnyd,—y gweler  
 Yn galw yr hollyd,  
 Swydd Ddinbych y sydd enbyd  
 4 A swydd Gaer a sawdd i gyd.
- I gyd y ceir yd da'r hendaid—o ladron  
 Nid haelon, nid telaid,  
 Is Cennen wrth nos gannaidd,  
 8 Llanddeusant, oes cant nas caid?
- Os caid, ni byddai raid buddairawn—arnun  
 Na bore na phyrnhawn,  
 Ond cyff a bwyall rydlawn  
 12 A chigfrain Llundain yn llawn.
- Llawn fydde 'nghalon, lon lais,—y dydd  
 Y delwn wrth y drws,  
 Y dyn a dynnid i maes  
 16 Heb dorri'i ben er ei bwys.
- Er ei bwys o aur ac arian,—yn elyn  
 A êl hyd Lyn Aeron,  
 Ei din yll yngwn i mywn  
 20 Heb eu lladd wrth y llinin.
- Wrth bob llinin llin ydoedd orchest—graen  
 I grogi moch y fforest,  
 Bedw lle bai un pedest  
 24 Uwch y ffridd yn torri'i frest.
- Can rest ac arwest, ac ar wŷdd—y grog  
 Y cair cregyn eu deurudd,  
 Can cwdwm gan y gwaedydd,  
 28 Myn y tân, heb un oed dydd.
- Ni bydd na dydd na dau—na chaner,  
 Ac na chanwyf innau,  
 Am yr arian o'r murau  
 32 A'r bladur a'r dwbledau.

36 Heb ddwbledau y saethau sythion—yng nghlydwr,  
 Yng nghleder y ddwyfron,  
 Ais ac arwe'n ysgyron  
 A ganwyf wrth y ganon.

40 Wrth y ganon llon y llanwaf—o awen,  
 Ac o newydd y dwedaf,  
 Myn Dewi, fyth ni thawaf,  
 O'm genau mi a ganaf.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 375

*Darlleniadau'r llawysgrif*

1 cyfandd. 2 yrollyt. 3 swyddimbvch. 5 yta<sup>r</sup>entitolaronn. 6 nytaelonyteleit. 8 llanyddevsant; cat. 9 ra[.]anrvn. 10 fynawn. 11 rtlawn. 12 chieffren; llwn. 14 delwn. 16 toriben. 17 aryanelyn. 18 aer. 19 ynytin; vmvn. 20+ wrddellinillinytoe. 23 lebei. 24 torifrest. 25 ryes<sup>t</sup>acarwes. 27 cwevtydd. 28 oetydd. 33 ysaeddsyddonynclwtwr. 35 arweyn. 39 tew[-]i. 40 cenev.

*Priodoliad*

ynantaycant (*yn dilyn ll. 36*); nant (*yn dilyn ll. 40*).

*Dychan i Fedyn Sioch*

	Bedyn Sioch deiroch
	Yn hela trillun o foch
	Wrth ei hen [         ]
4	Ni wŷyr [             ]
	A throi i ffordd i Rufain
	Wrth ei dair adain,
	A'r bedwaredd adain
8	Hi a aeth i hedeg.

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 431

*Darlleniadau'r llawysgrif*

2 tyrillyn. 3 wrddyhenestvoch. 4 nywrybi[.]anystv<sup>[.]</sup>r. 5 addroyfordd. 7 bytwreddatain. 8 hiaedd.

*Priodoliad*Dauyd Nant (*mewn llaw wahanol*).

*Atodiad*

entym<sup>or</sup>emayforwyn<sup>llwn</sup>  
hewlvhoetchaeyncn  
cllabatarcylywyddn  
canhallorcvn[.]ll[.]  
collwynafentwyn  
[.]reittrostwry[.]  
hllwynedd  
aecinhilbyrenhinyn

*Ffynhonnell*

Pen 54, i, 412



# Nodiadau

## I

Cerdd i Rys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Aberpergwm yw hon, yn dymuno iddo ddychwelyd adref o Loegr.<sup>1</sup> Ei fam, y cyfeirir ati yn llinellau 5 ac 85, oedd Alis ferch Dafydd ap Watgyn Llwyd; cyfeirir at ei thaid Watgyn Llwyd yn llinell 46, ac at Fallt ei mam yn llinell 86. Y mae'n debyg mai'r wraig *Y sy ferch i'r marchog* (ll. 90) yw gwraig gyntaf Rhys (nas enwir yn yr achau) a oedd yn ferch i Syr Rhosier Fychan o Dretŵr, ac yn hanner chwaer i wrthrychau cerddi 11 a 12. Enwir hefyd ddwy o bedair chwaer Rhys a restrir yn yr achau, sef Margred a Sisli (llau. 93–4), a chyfeirir at ei frodyr heb eu henwi (rhestrir dau frawd iddo yn yr achau).

Yr oedd teulu Aberpergwm ymhlith noddwyr pwysicaf Morgannwg, ac yng nghyfnod Rhys ap Siôn y gwelwyd anterth ei nawdd i'r beirdd. Fel y dywed Peredur Lynch, 'Goroesodd canu pedwar bardd ar ddeg—rhyw ugain o gerddi i gyd—i bedair cenhedlaeth o'r teulu hwn, a hynny o ddyddiau Rhys ap Siancyn (?m. cyn 1470) a'i fab, Siôn (m. c.1480), hyd ddyddiau'r noddwr amlycaf, Rhys ap Siôn (c.1460–1520), a'i fab yntau, Rhisiart ap Rhys'.<sup>2</sup> Yn ogystal â'r Nant, molwyd Rhys ap Siôn gan Lewys Glyn Cothi,<sup>3</sup> gan Fedyn Sioch,<sup>4</sup> sef gwrthrych cerdd 16 isod, a chan fardd dienw;<sup>5</sup> cadwyd pum cerdd iddo o waith Iorwerth Fynglwyd gan gynnwys ei farwnad,<sup>6</sup> a chanwyd marwnad arall iddo gan Lewys Morgannwg.<sup>7</sup>

Bu Rhys yn gwnstabl Castell-nedd, a diau mai at y swydd honno y cyfeiria Lewys Glyn Cothi: *Senedd fawr llys Nedd yw fo, / lutenont a'i wlad tano*.<sup>8</sup> Fel Lewys Glyn Cothi, rhydd y Nant gryn sylw i'w awdurdod yn ei fro ei hun ac i'w rinweddau milwrol, ond prif fyrdrwn y gerdd hon yw erfyn arno i ddychwelyd i Lyn-nedd o Loegr lle y bu'n filwr yn lluoedd y Brenin Edward IV a'i frawd Rhisiart, dug Caerloyw. Erfynnir arno i ddychwelyd

<sup>1</sup> Am ach Rhys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn ap Rhys o Aberpergwm yng Nglyn-nedd, gw. WG2 'Einion ap Gollwyn' 11F<sub>2</sub>, 11F<sub>4</sub>; LPMG 150–2.

<sup>2</sup> P. Lynch, 'Aberpergwm a'r traddodiad nawdd', *Nedd a Dulais*, gol. Hywel Teifi Edwards (Llandysul, 1994), 4. Gw. hefyd George Eaton, 'The Williams family of Aberpergwm: a study in cultural patronage', *Neath Antiquarian Society Transactions*, 1979, 19–37; NBMM 42–58, 231–2.

<sup>3</sup> GLGC cerdd 104.

<sup>4</sup> Pen 54, i, 425.

<sup>5</sup> *Ib.* 420.

<sup>6</sup> GIF cerddi 1–5.

<sup>7</sup> GLMorg cerdd 21.

<sup>8</sup> GLGC 104.17–18.

adref erbyn Calan Mai er mwyn ymlid gwylliaid o'i fro, gan ddarogan yn afieithus orfoledd ei ffyddloniaid o weld etifedd ifanc Aperpergwm yn ôl ar ei aelwyd ei hun. Dywedir, fodd bynnag, y bydd yn dychwelyd i ymladd yn Humberside yng ngogledd-ddwyrain Lloegr, a hyderir y caiff ei urddo'n farchog yn sgil hynny. Canwyd cywydd Lewys Glyn Cothi, fe gredir, yn fuan ar ôl brwydr Bosworth yn 1485.<sup>9</sup> Dengys y cyfeiriad at y Brenin Edward (ll. 77), a fu farw yn Ebrill 1483, ac at dad Rhys (ll. 87) a fu farw c.1480, fod y gerdd hon yn perthyn i gyfnod cynharach.

- 2 **Siancyn** Llsg. *siacyn*. Y mae'r math hwn o drawsosodiad yn nodweddiadol ohono; cf., e.e., *siacyn* ac *ecnil* yn llau. 19–20.
- 6 **Lloeger** Cf. 9.105 lle y profir y ffurf lafar gan yr odl. Llsg. *lecer*.
- 8 y **dug** Rhisiart, dug Caerloyw, a ddeuai'n Rhisiart III ym Mehefin 1483 cyn ei ladd ar Faes Bosworth yn Awst 1485; cyfeirir ato eto yn llau. 35 a 78.
- 9 **coler glaerwen** Coler arian a ddynodai foneddigrwydd, a statws ysgwier yn benodol; cf. 2.30 *gwalch colerwyn* a'r enghrau. o *coler wen* a restrir yn GPC 543.
- 12 **athrist** Llsg. *addris*.
- 14 **gwddon** Ffurf ar *gwddont*, 3 ll.pres.dib. *gwybod*.  
**dyall** 'Cymryd gafael yn, meddiannu', gw. GPC 908 d.g. *deallaf*, *dyallaf*; y mae'n debyg mai'r un yw'r ystyr yn 9.4. Yr unig engh. yn yr ystyr honno a ddyfynnir yn GPC yw CDG 111.63–4 *Paham, eiddungam ddangos, / Na ddeail y naill y nos ...* ('Morfudd fel yr Haul'), gw. *ib.n.*
- 16 **hwyntwy** Llsg. *hwntwy*. Cf. 11.72; digwydd y ffurf lafar *hwynte* yn ll. 59 isod (llsg. *hwyne*).
- 17 **cenol** Ffurf ar *canol*, gw. GPC 414. Fe'i clywir ar lafar o hyd mewn rhannau o'r De.  
 y **Glyn** Yng Nglyn-nedd yr oedd Aberpergwm, cartref Rhys ap Siôn; cf. ll. 71 a 7.138. Ceir Glyn-nedd-ganol, -isaf ac -uchaf, gw. WATU 77.
- 22 **Llandudwg** Plwyf i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr ym Morgannwg (S. *Tytheaston*), gw. WATU 109, 279. Yr oedd Twrbiliaid Llandudwg ymhlith noddwyr y Nant, gw. cerddi 7–8.
- 23 **Llangatwg** Ceir sawl Llangatwg, gw. WATU 125–6. Y mae'n debyg mai Llangatwg (Glyn) Nedd (Cadoxton-juxta-Neath) a olygir yma, gw. *ib.* 125, 303.
- 24 y **Coety** Arglwyddiaeth a maenor yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, gw. WATU 47, 279. Llsg. *ceetv*; cf. ll. 25.

<sup>9</sup> Gw. NBMM 52, GLGC 574.

- 27 **atu** Ffurf ar *atunt*, gw. GMW 59.
- 29 **Gwalchmai** Un o farchogion Arthur, gw. TYP<sup>3</sup> 367–71; WCD 303–5.
- 30 **gwnion** Dyma'r ffurf yn rheolaidd gan y Nant. Am enghrau. diweddar-ach o hepgor y llafariad y, gw. GPC 1770 a cf. 12.130 isod.
- 32 **gwirod** Llsg. *cwcirot*. Rhydd y diwygiad ystyr a chynghanedd foddhaol.
- 37 **dengwlad** Cf. GLGC 96.30, 121.27, 178.19.
- 38 **Rhydodyn** Plasty ym mhlwyf Llansawel yng nghwmwd Caeo yn yr hen sir Gaerfyrddin a oedd yn enwog am noddi'r beirdd, gw. WATU 191; GGLI 242. Â'r engh. hon, cf. GG.net 101a.47–8 *Nid adwaen hyd Rydodyn / Abad well i roi bwyd ynn*.
- 39 **duryn** Yn wawdlyd, mae'n debyg, am drwyn dyn, gw. GPC 1100–1; cf. 9.11, sef yr engh. gynharaf o'r ystyr honno a ddyfynnir yn GPC, a 2.59, 88. Diau mai at y gelyn y cyfeirir yma; gall mai arf dur a olygir, er na roddir yr ystyr honno yn GPC.
- 43 **rhog** Dyma'r ffurf yn rheolaidd gan y Nant, ac eithrio 3.79 *rhag*. Digwydd *rhog* yn gynnar, gw. GPC 2999 lle y nodir ei fod ar lafar yn ne-ddwyrain Morgannwg yn y ffurf *rog*, *roc*.
- 44 **cwdwm** Ffurf ar *codwm*, gw. GPC 527 a cf. 15.27.
- 46 **Watgyn Llwyd** Hendaidd Rhys a urddwyd yn farchog yn Agincourt yn 1415, gw. GLMorg 21.44n. Mam Rhys oedd Alis ferch Dafydd ap Watgyn Llwyd ab Ieuan ap Watgyn, gw. WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 6; WG2 'Einion ap Gollwyn' 11F<sub>2</sub>; LPMG 152. *Ach Rhys Hen a 'sgrifennwyd / at gnewyll ach Watcyn Llwyd*, medd Lewys Glyn Cothi yn ei gywydd moliant i Rys (GLGC 104.9–10), a gelwir ef gan Lewys Morgannwg yn *llew Watgyn Llwyd* (GLMorg 21.44).
- 47 **dulwyd** Llsg. *vlwyt*.
- 49 **adrau** Amr. ar *adref*, gw. GPC<sup>2</sup> 60.
- 51 **tyrau** Llsg. *tyre*<sup>e</sup>. Ai ll. *tŵr*? Posibilrwydd arall yw ei fod yn amr., er mwyn yr odl (cf. *adre / adrau*), ar *dyre / tyre* 'chwantus'. Ceir *gwas tyre* (am darw) yn 6.91.
- 56 **coednant** Llsg. *coetant*.
- 57 **clywon** Llsg. *cyhwon*.
- 58 **gŵr y god** Gŵr hael a chyfoethog, gw. GPC 1694 a'r enghrau. a nodir yno. Nid annichon yr ystyr 'bwgan' yma, gw. *ib*. a GG.net 23.20n.
- 62 **isarn** Llsg. *isar*.
- 63 **gwlad Forgan** Morgannwg. Credir mai Morgan Hen ab Owain (m. 974), brenin Glywysing, a roes ei enw i'r hen deyrnas Gymreig, gw. WCD 485–6.

- 64 **hercyd** ‘Cyrchu, ymofyn, dwyn, nôl, hôl, estyn (allan), cyrraedd’, GPC 1855 d.g. *hercaf*<sup>1</sup>: *hercyd* (engh. gynharaf: 1547). Cymerir mai'r ffurf hon a gynrychiolir gan *hercit* y llsgr., yn hytrach nag amr. ar yr e. *ergyd*; ond cf., e.e., *enw / henw* a'r ffurfiau diweddarach *hergwd*, *hergydiad*, gw. *ib.* 1857. Digwydd *ergyd* yn 3.112 a 9.44 *A roes ym w'n ergyd*.
- 67 **tefyrn** Llsgr. *tefyr*.
- 69 **Castell-nedd** Y mae tref Castell-nedd ychydig filltiroedd i'r de o Aberpergwm.
- 70 **Aberafan** Saif y dref ychydig filltiroedd i'r de o Gastell-nedd.
- 75 Darlleniad ansicr. Llsgr. *aefacwlatyalaidd*; ymddengys fod y llythren gyntaf wedi ei dileu ac mae'r *c* yn aneglur. Y mae'r gystrawen ‘Ef a ...’ yn gyffredin yng nghanu'r Nant; cf. yn arbennig 5.78 *Ef a â Dafydd wellwell*, a 7.12 *Ef a â'r holl elfydd*. Dehongliad petrus G.J. Williams, ‘Cerddi'r Nant’, B xvii (1956–8), 84, yw *ae fawl at y talaidd*, gan nodi bod yr *a* ar y dechrau yn ansicr ac y gellir tybio bod llythren sy'n debyg i *c* rhwng yr *a* a'r *w*.
- 77 y **Brenin Edwart** Edward IV, a ddaeth i'r orsedd am y tro cyntaf yn 1461 ac a fu farw yn 1483. Ychwanegwyd yr ardd. *at* er mwyn yr ystyr.
- 79 **dygwyl Lambart** 17 Medi. Cyfeirir at *Sain Lambart* gan Dudur Aled, TA CXIV.3.
- 80 **gwlad Himbir** Humberside. Cf. GHS 3.3–4 *Mastr Tomas, dart Ymyr / Y barnaf i dy bren fyr* (Moliant Tomas ap Syr Rhosier Fychan o Dretw'r, gwrthrych cerdd 12); GLGC 127.11–12. Y mae'n bosibl fod yr elyniaeth tuag at *Himbir* yn adlewyrchu glaniad Edward a Rhisiart yno ym Mawrth 1471, a'r croeso oeraidd a roddwyd i Edward, gw. Charles Ross, *Edward IV* (London, 1974), 161–2. Ymddengys fod y bardd yn llau. 73–80 yn rhag-weld cyrch dialgar ar yr ardal honno.
- 82 **Cymry** Digwydd y sillafiad *Cymry* (cf. 12.60) a *Cymru* (cf. ll. 26), gw. GPC 771.
- 84 **ym Teilo** Llsgr. *mteilo*. Ceir *msiaron* (*ym Siaron*) yn 4.59, a cf. 3.45 *ym Dewi*, 4.55 *ym Cadfan*. Cysylltir Teilo Sant yn bennaf â Llandeilo Fawr yn sir Gaerfyrddin ac â Llandaf, gw. LBS iv, 226–43; TWS 128–34. Ceir cyfeiriad arall ato yn 12.70.
- 86 **Mallt** Mallt ferch Gwilym, sef mam Alis ferch Dafydd ap Watgyn Llwyd a nain Rhys ap Siôn, gw. WG1 ‘Bleddyn ap Maenyrch’ 6.
- 89 **ddyn ofnog** Awgryma G.J. Williams, *art.cit.* 84, ddiwygio *ddynonoc* i naill ai *ddonioc* neu *ddyn ofnoc*. Rhoddai *ddoniog* (neu *ddyn ddoniog*) ystyr addas, ond mae *ddyn ofnog* yn ddiwygiad mwy naturiol a'r synnwyr yn gweddu os cyfeirir at bryder gwraig Rhys ynghylch ei dynged yn filwr yn Lloegr.

- 91 **gwalch calonnog** Llsg. *cwalchylonoc*. Diwygir er mwyn y synnwyr a'r gynghanedd.
- 92 **Calanmai** Llsg. *cylanmai*. Anodd dewis rhwng *Calanmai* a *Clanmai* (gw. GPC 390 d.g. *calan*<sup>1</sup>) gan y gall y yn orgraff y copiïdd fod yn llafariad ymwithiol neu gynrychioli'r sain *a*. Cf. *cylenic* / *cylanmai* yn 6.71–2.
- 94 **Sisli** Gw. y nodyn cefndir. Llsg. *sili*.
- 99 **A'r sawl sy 'n ei du** Llsg. *arsawlnty*. Diwygiad petrus ar lun ll. 97 *A'r sawl sy'n ei garu*. Rhoddai 'ar ei ochr' ystyr addas, cf. yr ymadrodd 'yn ei blaid'. Gellid *tŷ* yn hytrach na *tu*. Posibilrwydd arall yw *A'r sawl ni edy* 'A'r sawl nad yw [Rhys] yn eu goddef', er mai anodd gwybod beth a roddai gynghanedd foddhaol yn y ll. nesaf. Digwydd *gedy* (yn hytrach na'r ffurf fwy cyffredin *gad*) yn *Gwaith Ieuan Gethin*, gol. Ann Parry Owen (Aberystwyth, 2013), 2.30 *Aed i ddiawl, ni edy ddim*.
- 100 **i'i dywydd** Llsg. *itywdd* a'r w fymryn yn aneglur. Diwygiad ansicr arall, ond rhydd *tywydd* 'trawstiau' (*tŷ* + *gwŷdd*) gynghanedd briodol â *tu*. Cymerir ei fod yn ffig. yma am gartref Rhys: boed i'w gefnogwyr ddod o dan ei gronglwyd.

## 2

Yr oedd Rhys ap Llywelyn ap Gwilym yn gefnder i Rys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd, sef gwrthrych cerdd 1. Canodd y Nant i'w frawd Siancyn ap Llywelyn yn ogystal (gw. cerdd 4). Fel sy'n gyffredin yn y canu gofyn a diolch, cawn ach Rhys yn llau. 25–34: *Rhys ap Llywelyn ap Gwilym ... Llin Rhys ap Siancyn ... O ferch Rhys ap Siancyn ... Llin Rhys Llwyd ab Adam / Heb dolwyth ei fam*. Yr oedd ei fam, felly, yn fodryb i Rys ap Siôn, a'i henw hithau oedd Siwan Ddu a briododd â Llywelyn ap Gwilym o Borthgogof, Ystradfellte, ychydig filltiroedd i'r gogledd-ddwyrain o Lyn-nedd yn yr hen Gantref Mawr ym Mrycheiniog.<sup>1</sup> Mewn cywydd i Lywelyn gan Hywel Dafy sy'n enwi ei wraig Siwan, disgrifir Llywelyn fel *blaen draic y blaenevdir*, a chyfeirir at ei gartref *ymhorth gogof*, ac at y Mynydd Du a *brodir a mynyddir nedd*.<sup>2</sup> Hen daid Rhys ap Llywelyn o linach Bleddyn ap Maenyrch oedd Rhys Llwyd ab Adam o Borthgogof;<sup>3</sup> yr un Rhys Llwyd y cyfeirir ato yn 6.63. Enwa'r Nant wraig Rhys yn ogystal, sef Mawd ferch Watgyn (llau. 102–6), ond Margred ferch Dafydd a enwir yn wraig iddo yn yr achau.<sup>4</sup>

<sup>1</sup> Gw. WG2 'Einion ap Gollwyn' 11F<sub>1</sub>, 'Bleddyn ap Maenyrch' 25B<sub>1</sub>; LPMG 151.

<sup>2</sup> Gw. Peniarth 67 cerdd LXIX. Cadwyd tair cerdd gan Hywel Dafy i Lywelyn, sef moliant a dwy farwnad, un iddo ef ac un iddo ef a'i wraig ar y cyd (bydd golygiad A. Cynfael Lake o waith Hywel Dafy yn ymddangos yng 'Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr').

<sup>3</sup> Gw. WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 25.

<sup>4</sup> WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 25B<sub>1</sub>.

Ymddengys fod Rhys ymhlith noddwyr pwysicaf y Nant. Ceir ganddo gerdd yn gofyn cleddyf drosto (cerdd 3), ac mewn cerdd arall yn gofyn dwbled, y tro hwn gan Risiart ap Siancyn Twrbil o Landudwg, sonia am ddwbled a gafodd yn rhodd gan Rys ap Llywelyn ap Gwilym (7.97–100), gan gyfeirio'n ôl, efallai, at y gerdd hon. Y mae hon yn gerdd ofyn ddyfeisgar sy'n dangos parodrwydd y Nant i chwerthin am ei ben ei hun er diddanwch i'w gynulleidfa. Gan ddilyn un o gonfensiynau'r cywyddau gofyn niferus sy'n erchi dilledyn, y mae'n ei ddarlunio'i hun fel henwr tlawd a thruenus heb wisg o werth amdano. Â rhagddo i foli'r noddwr gan olrhain ei dras, a rhydd ei fendith arno ar ddiwedd y gerdd ar ôl canmol haelioni a harddwch ei wraig. Yn groes i arfer y canu gofyn, fodd bynnag, ychydig iawn o sylw a roddir i'r ddwbled ei hun. Yn hytrach, am dros hanner can llinell yng nghanol y gerdd cawn ddisgrifiad llawn gormodiaith o'r llau sy'n mynnu crwydro pob modfedd o gorff y bardd fel creaduriaid rheibus, a phob manylyn dramatig yn ychwanegu at ddigrifwch y darlun.

1 **yr wyf** Llsg. *yrwy*; *wyf* yw'r ffurf ym mhob achos arall.

4 **rheadr** Cynigir yn betrus mai gwall am *ryatr* yw *ryar* y llsg. a'r gytsain goll yn nodweddiadol o esgeulustod y copïydd. Y mae rhaeadrau (neu 'sgydau' fel y'u gelwir yn lleol) yn nodwedd drawiadol ar dirlun ardal Ystradfellte ac y mae'r gyffelybiaeth yn un addas; cf. yr ymadrodd 'siarad fel pwll y môr'. Diwygiad mwy sylfaenol, ac felly llai tebygol, fuasai *Rhisart*. Felly hefyd *trydar* a *rhuadwr*, er bod yr ystyr yn gweddu.

**Sierwm** Unwaith eto, y mae darlleniad y llsg., *sierwm*, yn ffurf dywyll. Os derbynnir y diwygiad blaenorol, gellir cynnig ei fod yn enw ar raeadr penodol a aeth dros gof, naill ai e. lle neu e.prs. Y mae ambell un o raeadrau'r fro honno yn dwyn enw person, megis Sgwd Einion Gam yn Nedd Uchaf, gw. GPC 3253 d.g. *sgwd*<sup>1</sup>. Gallai fod yn Gymreigiad o'r e.p. *Jerome* (ond sylwer mai *Siaron* yw'r ffurf a geir gan y Nant ar enw'r sant yn 4.59 a 12.74). *Sieron* sy'n digwydd amlaf gan y Cywyddwyr, gw., e.e., GLGC 665, ond digwydd *Sierom* a *Sierôm* hefyd, fel y gwelir yn y dyfyniadau isod. Er mai anodd dirnad arwyddocâd y darlleniad *ryar* yn y cyswllt hwnnw, fe all mai at ddysg a dawn ieithyddol y sant ei hun y cyfeiria'r Nant, fel sy'n gyffredin yng nghanu'r Cywyddwyr—fel cyfieithydd y Beibl i'r Lladin, ystyrid ef y mwyaf dysgedig o'r tadau eglwysig, ac y mae'n enwog hefyd am ymosod ar hereticiaid, gw. GG.net 77.34n. Cf. yn arbennig GST 47.20 *Os o rym iaith Sierôm oedd*; YEPWC 4.87–8 *Ymlhe* [sic] *doedais, clirlais clav, / Ail i Sierom, lyseiriav*; GHD 14.35–6 *Sierôm wyd, oes wr am iaith / Ar Ladin mor ddilediaith?*

7 **llowdwr lydan** Llsg. *llowtwrltan*. Gall *llawdr* fod yn eg. neu eb. a rhoddai *llowdwr llydan* gryfach cynghanedd â'r ll. nesaf, ond cf. y trawiad *llewys / lawen* yn llau. 11–12. I'r 16g. y perthyn yr engh.

gynharaf o'r ffurf *llowdwr* a restrir yn GPC 2106; cf. ll. 70 a 10.90 lle y profir y ffurf gan yr odl.

- 11 **llewys** Llsgr. *llwys*.
- 12 **llawen** Diwygiwyd *ladden* er mwyn y gynghanedd a'r ystyr.
- 14 **amdanaf** Cymerir mai gwall am *mtanaf* yw *mnanaf*, sef darlleniad y llsg.
- 15 **myrnaf** Tybed ai gradd eithaf yr a. *mwrn* sydd yma? Un ystyr a roddir yn GPC 2512 yw 'tywyll a henaidd (am ddillad, &c.)', gan nodi ei fod ar lafar yn nwyrain Morgannwg. Llai tebygol yw'r f. *mwrn(i)o* 'galaru (ar ôl), bod yn drist, gwisgo dillad galar', gw. *ib.* d.g. *mwrnaf*<sup>1</sup>.
- 16 **hornel** Cf. 12.50 *hornele*. Amr. ar *cornel*? Ceir *hvnronvn* am *cynrhonyn* yn ll. 64. Ni restrir y ffurf *hornel* yn GPC.
- 18 **planhaddaf** Llsgr. *bylnhaddf*. Plant Adda, cf. 14.114 (llsg. *bylanhaddaf*).
- 21 **Mae twysog gyrre** Llsgr. *macwsocyre*. Diwygiad petrus, ond rhydd 'arweinydd heidiau' ystyr addas, er mai *gyrroedd* yw'r unig ffurf l. a nodir yn GPC 1796 d.g. *gyr*<sup>1</sup>. Efallai mai *tyre* yn yr ystyr 'nwyfus' yw'r elfen olaf, cf. 6.91n, 12.99n a 13.22n. Posibilrwydd arall yw mai *gre* gydag y ymwthiol yw'r gair olaf.
- 22 **y Banne** Bannau Brycheiniog. Cf. 7.134 *Tu yma i'r Fan*; GLGC 138.19–20 *Pwy is y Bannau'n hapusion—hwyntau? / Pwy uwch y Bannau ond selau Siôn?*
- 23 **A wna dur yng ngwaetffre** Llsgr. *awnatvrycnwatfre*. Cf. 8.12 *A wna ffyn yn friwydd*. Petrus yw'r diwygiad i *yng ngwaetffre* a rydd gynghanedd rannol gydag yn *niffrwyth* y ll. nesaf. Cf. *gwaetffrau* 'llif neu dywallt gwaed, brwydr' a geir yng nghanu Beirdd y Tywysogion, gw. GPC 1551. Cymerir bod iddo rym a. yma; ynghylch treiglo a. yn drwynol yn dilyn yn traethiadol (cf. *ynghyntaf*), gw. Treigladau 245.
- 24 **diffwrwyth** Anodd canfod ystyr i ddarlleniad y llsg. *waewnifwydd*. Cymerir mai'r un treiglad anghyffredin a welir yma eto.
- 27 **Mehefin** Llsgr. *mehefim*, ond rhaid mai lled-odl sydd yma. Cf. y sillafiad *cynfelym* am *Cynfelyn* yn 7.99 (odl -ym).
- 29 **Rhys ap Siancyn** Gw. y nodyn cefndir.
- 33 **Rhys Llwyd ab Adam** Gw. y nodyn cefndir a cf. 6.63n.
- 34 **tolwyth** Amr. ar *tylwyth*, cf. 6.51 a 14.100 a gw. GPC 3674.
- 35 **gwalch** Llsgr. *cwcalch*.
- 38 **truan** Llsgr. *tvrvan*.
- 39 **dygwyl Ysteffan** 26 Rhagfyr. 1547 yw dyddiad yr engh. gynharaf a restrir yn GPC 1132–3.
- 40 **Ffwg Ystaffordd** Fulk Stafford (c.1420–63). Tra bu'n siryf swydd

- Gaerwrangon bu ar gomisiwn i arestio rebeliaid yn 1461; dichon mai dyna ergyd y cyfeiriad hwn. Ni welwyd cyfeiriad arall ato gan y beirdd. Arno, gw. <[http://www.girders.net/Sta/Stafford,%20Fulk,%20\(ca.1420-1463\).doc](http://www.girders.net/Sta/Stafford,%20Fulk,%20(ca.1420-1463).doc)>.
- 44 **cefn** *cefen* yw'r sillafiad yn ddieithriad, sydd, o bosibl, yn adlewyrchu ffurf lafar y gair.
- 45 **bothelle** Dyma ffurf wreiddiol y gair. I'r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf o'r ffurf *pothell*, gw. GPC 303, 2865.
- 50 **Hywel Grythor** Efallai mai'r un un ydyw â'r Hywel Grythor a ddychenir mewn englynion amheus eu hawduraeth a briodolir i Guto'r Glyn, gw. GG.net cerdd 121 ac yn arbennig y nodyn ar Hywel Grythor. Honnir yn yr englynion iddo dderbyn dagr yn rhodd gan Dudur Aled ond caiff ei wawdio am ei ddefnyddio i fwyta yn hytrach nag ymladd. Fe'i disgrifir fel *Hywel Grythor fawr* a hanai o'r gogledd-ddwyrain, a gellir casglu ei fod yn ei flodau yn negawdau olaf y 15g. Y mae'n bosibl mai ef yw *Hwllyn Grythor* y ceir ei enw mewn rhestr yn Pen 54, i, 298 (c.1480), sef y llsgr. lle y cofnodwyd cerddi'r Nant. Ymddengys cyfeiriad cellweirus y Nant at berchyll Hywel Grythor yn gyson â'r argraff ei fod yn gyff gwawd i'r beirdd.
- 51 **cyngor** Llsgr. *cycor*. Cymharol wan yw'r gynghanedd rhwng *cyngor* a *canfed*.
- 54 **crwydro** Llsgr. *crwyro*.
- 64 **cynrhonyn** Llsgr. *hvnronvn*.
- 65 **Ef a â'i holl yn arial** Yn betrus iawn y diwygir darlleniad y llsgr. *afayhollrynryal*. Cymerir mai *holl* yn yr ystyr 'hollt' a olygir a bod grym a. i *arial* yma, '?nwyfus, bywiog, hoenus, ffyrnig, dewr', gw. GPC<sup>2</sup> 462 d.g. *arial*<sup>1</sup>. Llai tebygol o ran cystrawen yw *A fai oll yn real* 'A fyddai'n frenhinol i gyd'.
- 70 **gwryme** Cf. ll. 83; llsgr. *cryme*.
- 71 **Llanddyfrwr** Plwyf Llanddowror yn sir Gaerfyrddin. *Llanddyfrwyr* yw'r ffurf yn WATU 113; ceir *Llanddyfrwyr-yn-Edeligion* yn sir Fynwy hefyd, gw. *ib*.
- 72 **llwyren** Ffurf dywyll. Diwygiadau posibl fuasai *llwyden* 'creatures lwyd', am gwningen neu ysgyfarnog, gw. GPC 2240; a *llwyg* (amr. ar *llyg*, *lluyg* 'cynrhon(y)n bach sy'n magu mewn caws', *ib*. 2261) + *-en*.
- 73 **melin** Ni restrir engh. debyg yn GPC, ond â *cylch y felin*, cf. efallai *cylch yr arffed*. Tybed nad ei ben ôl a olygir? Buasai maen melin a thwll yn ei ganol yn drosiad addas; cf. 8.23-4 *A'i chont a'i melin / A'r dŵr yn malu* (am gaseg). Diddorol yw sylwi y gall y Llyd. *milin-brenn* gyfeirio at dwll tin ceffyl, gw. Martial Menard, *Alc'hwez Bras ar Baradoz Vihan: Geriahudur ar Brezhoneg* (Releg-Kerhuon, 1995), 339.



- 80 **gwale** Ll. *gwâl* 'gwely', efallai, yn hytrach na *gwal*. Posibilrwydd arall fyddai diwygio i *bori*'i *gwala*, cf. 4.101.
- 85–6 **A phob horen ... / A phob nedden** Llsg. *afohoren ... afnedden*. Byddai ailadrodd *A phob ...* yn nodweddiadol o'r arddull, cf. ll. 91.
- 87 **cwman** Yn yr ystyr 'tin' yma, mae'n debyg. Cf. 8.14 a gw. GPC 640.
- 88 **cemyw** Eog gwryw. Cf. GIF 20.35–6 *da big oedd; mor debyg yw / dury'n cam i drwyn cemyw*.
- 89 **peisan** Ffurf fachigol *pais* sef tiwnig neu siaced; i'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir yn GPC 2670 d.g. *pais*<sup>1</sup>. Ymddengys mai gwall yw *bisan*.
- 102 **haelferch Watgyn** Gw. y nodyn cefndir. Llsg. *haelforch*.
- 108 **Dewi** Nawddsant Cymru, gw. TWS 31–73.
- 109 **y Gŵr a bie heno** Math cyffredin o ymadrodd am Dduw neu Grist.
- 111 **gwisgo** Llsg. *cwico*.
- 116 **senedd** Rhaid mai cynulliad neu oed yn gyffredinol a olygir, er na nodir yr ystyr honno yn GPC.
- 117 **noble** Darn o aur bath a oedd gan amlaf yn gyfwerth â thraean punt oedd *nobl*, o'r S. *noble*, gw. GPC 2587 d.g. *nobl*<sup>2</sup>. Cf. 14.51 isod.
- 118 **grote** Ll. *grôt* a oedd yn gyfwerth â phedair ceiniog, o'r S.C. *grote*. Y mae *grode* yn bosibl hefyd gan yr arferid *grôt* a *grod* yn y 15g., gw. GPC 1535 d.g. *grôt*, *grôt*, *grod*.
- 119 **sgude** Ni restrir yr union ffurf hon yn GPC, ond cf. *ysgud* ac *esgûd*, sef darn o aur neu arian bath Ffrengig (o'r S.C. *escud*), a geir gan Lewys Glyn Cothi a Thudur Aled, gw. *ib.* 3848. Gall mai *escvte* yn hytrach nag *oscvte* a geir yn y llsg.
- 123 **haeddu** Llsg. *heddv*.

## 3

Yng ngherdd 2 y mae'r Nant yn gofyn dwbled gan Rys ap Llywelyn ap Gwilym. Y tro hwn y mae'n mabwysiadu llais ei noddwr er mwyn erchi cleddyf ar ei ran gan un y mae'n ei alw yn ewythr i Rys, cefnder ei fam (ll. 34), Rhys ap Dafydd ab Ieuan Fwyaf. Dengys yr achau fod Rhys Hir yn fab i Ddafydd ab Ieuan Fwyaf ap Gwilym Ddu o Lyntawe ym Mrycheiniog a oedd yn frawd i Efa, sef gwraig Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd a nain Rhys ap Siôn a folir yng ngherdd 1. Yr oedd hithau'n fam i Siwan Ddu a briododd â Llywelyn ap Gwilym o Borthgogof yn Ystradfellte.<sup>1</sup>

<sup>1</sup> Gw. WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 33B, 'Einion ap Gollwyn' 11F<sub>1</sub> a nodyn cefndir cerdd 2.

Perthyn y gerdd hon i linach gyfoethog o ganu i ofyn ac i ddiolch am gleddyfau ac arfau tebyg. Er nad yw disgrifiadau'r Nant o'r cleddyf mor greadigol â'r math o ddyfalu sy'n gyffredin yng nghanu'r Cywyddwyr, y mae'n tynnu ar yr un storfa barod o gyfeiriadaeth lenyddol gan gyffelybu'r arf i gleddyfau enwog a gysylltir â nifer o arwyr chwedlonol a hanesyddol.<sup>2</sup> Y mae Iolo Goch, er enghraifft, wrth ddiolch am gyllell yn un o'r cywyddau diolch cynharaf sydd ar glawr, yn enwi nifer o'r un cleddyfau chwedlonol ag a geir yng ngherdd y Nant, gan gynnwys cleddyf Iwl Cesar, Angau Coch, sy'n gyfeiriad cymharol brin:

Chwaer undad, giliad galon,  
 I Ddurendardd hardd yw hon;  
 Cyfnitherw, dichwerw dachwedd,  
 I Hawd y Clŷr, hoywdeg gledd;  
 Nith, ddiragrith oreugrair,  
 I Angau Coch, yn yng y'i cair;  
 Merch o ordderch ddiweirdoeth  
 I Galedfwlch gyfwlch goeth ...  
 Gŵr gorsedd, ag ŵyr Gwrseus  
 Y tynnaf waed dan ei weus.<sup>3</sup>

Un o gonfensiynau eraill y *genre* yw'r hyn a eilw Bleddyn Owen Huws yn 'fotiff talu pwyth',<sup>4</sup> lle y caiff rhywbeth ei gynnig yn gyfnewid am y rhodd. Dyfais yw hon sy'n perthyn fel rheol i ddiweddglo cywydd, ond yma y mae'n rhan ganolog o'r gerdd wrth i Lywelyn gynnig i'w ewythr feirch, ychen, milgwn, arfau a thlysau. Y mae'r sôn am anfon llythyr ar ddiwedd y gerdd unwaith eto'n adleisio'r cywyddau gofyn.<sup>5</sup> *Gwrandu lythr dy ewythr du*, medd Tudur Penllyn wrth erchi milgi gan Feurig ap Rhys o Lanrwst dros ei ewythr.<sup>6</sup> Yr un berthynas rhwng ewythr a nai a welir yng ngherdd y Nant, sef y berthynas deuluol amlycaf yn y cywyddau gofyn a diolch.<sup>7</sup> Ceir cerdd i erchi cleddyf gan Ddafydd Llwyd o Frycheiniog ar yr un mesur â cherdd y Nant, heb ddim o'r gyfeiriadaeth chwedlonol wrth ddisgrifio'r arf. A'r cleddyf ganddo, meddai, *Mi a ynghorra yr kerddorryon / vod yn araf wethion / rrac ofn y mi lladd hwy oi bron / megis y brynaich*.<sup>8</sup>

2 **hirllym** Odl afreolaidd, cf. llau. 35 a 50; y mae'r *m* yn aneglur yn y llsgr.

<sup>2</sup> Am drafodaeth ar y gynhysgaeth gyffredin hon, sy'n cyfuno'r traddodiad Cymraeg a'r traddodiad cyfandirol, a chwedlau Siarlymaen yn arbennig, gw. CGD 177–8.

<sup>3</sup> GIG XI.37–48.

<sup>4</sup> CGD 215.

<sup>5</sup> Gw. *ib.* 57–8.

<sup>6</sup> GTP 33.16.

<sup>7</sup> Gw. CGD 139.

<sup>8</sup> Peniarth 67 III.68–71.

- 5 **Dwrndal** Un o'r enwau ar gleddyf Rolant, gw. YCM<sup>2</sup> 51, 52, 56. Cf. *Durendardd* yn ll. 18 isod; digwydd y ffurf *Dwrndardd* hefyd, YCM<sup>2</sup> 141, sydd fel petai'n gyfuniad o'r ddau enw.
- Rolant** Nai Siarlymaen ac arwr 'Cân Rolant'.
- 6 **llafan** Dyma'r ffurf yn ddiethriad. Arni, gw. GPC 2087 d.g. *llafn*. Fe'i ceir gan gyfoeswr i'r Nant, Dafydd Llwyd o Frycheiniog, yn y gerdd y cyfeirir ati yn y nodyn cefndir uchod, lle y profir y ffurf gan yr odl; gw. Peniarth 67 III.52.
- Beligant** Cymeriad a enwir yng Nghân Rolant, gw. YCM<sup>2</sup> 114, 122. Dilynyr awgrym J. Lloyd-Jones wrth ddiwygio *byliant*, gw. G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 86.
- 7 **gwnned** Cf. 1.30n.
- 9 **Caledfwlch Arthur** Caledfwlch oedd enw cleddyf y Brenin Arthur, gw. CO<sup>3</sup> lxxvii, 6. Cyfeirir at Arthur eto yn 7.86 ac 8.109 isod.
- 13 **Corsëus** Cleddyf Otfel, un o arwyr chwedlau Siarlymaen; gw. YCM<sup>2</sup> 262 am rai o'r ffurfiau amr. ar yr enw. *Cyrseus* yw'r ffurf yn CDG 71.24 (i odli â *dwyweus*), a *[C]wrseus* yn GIG XI.47 (i odli â *gweus*).
- 15 Gellid diwygio i *A gwaed ar bob ystlys*; cf. ll. 23 isod, *A wna gwaed ...*
- 18 **Durendardd** Enw ar gleddyf Rolant, gw. YCM<sup>2</sup> 26, 141, 142, 156.
- 19 **pastardd** Diwygiwyd *basardd* y llsg. O dderbyn *pastwm* yn y ll. nesaf, *pastardd* yw'r ffurf a awgrymir gan y gynghanedd. Cleddyf anghyffredin o fawr a olygir. Un diffiniad a rydd OED Online i'r a. *bastard* yw 'of abnormal shape, or irregular (esp. unusually large) size', e.e. am gleddyfau a gynnu; cf. *my Bastard Sword* (1418).
- 20 **pastwm** Llsg. *baswm*. Amr. ar *pastwn*, cf., e.e., *botwm* / *botwn*; gw. GPC 2700, ond ni restrir engh. gynnar o'r ffurf hon. *Pastwn* yw'r ffurf yn 8.43–4 lle yr ailadroddir yr un topos: *Nid aeth ei farch yn estyll, / A dorres cant pastwn* (llsg. *esyll* / *baswn*).
- 21 **ewythr** Er bod y ffurf *ewyrth* i'w chael mor gynnar â'r 14g., gw. GPC 1266, diwygiwyd *ewyrd* yng ngoleuni llau. 34 a 101 isod. Cymerir bod yma engh. o'r math o drawsosodiad sy'n nodweddu'r orgraff.
- croywgoch** Llsg. *crowcoch*; cf. 7.73 (llsg. *cyrowcoch*).
- 22 **Ange Coch** Cleddyf Iwl Cesar, *Crocea Mors* yn Llad., gw. BB 41 a cf. GIG XI.41–2.
- 23 **toloch** Gwedda'r ystyr a roddir yn GPC 1074 d.g. *doloch*, 'galarnad, cwyn, ochenaid' (awgrymir yn betrus ei fod yn gyfuniad o'r S. *dole* 'mourning, lamentation' ac *och*), ond gallai fod yn fe., cf. 10.111 isod. Digwydd y gair mewn tri man arall yng nghanu'r Nant: 6.1, 9.115 a 10.111. Awgryma'r gynghanedd yma ac yn 10.111 mai *toloch* yw'r ffurf i'r Nant; rhestrir y ffurf honno yn GPC ond heb nodi enghrau.

- 25 **fy eryr** Llsg. *yferyr*. Cf. *tanyfatain* am *dan fy adain* yn ll. 63.
- 26 **Hawtyclŷr** Cleddyf Olifer, un arall o arwyr chwedlau Siarlymaen, o'r H.Ffr. *Halteclere*, gw. YCM<sup>2</sup> 74, 149, 152.
- 27 **ar wesgyr** Ffurf 3 un.pres.myn. y f. *gwasgaru* yw *gwesgyr*, ond ymddengys mai ffurf l. (wneud) ar yr ymadrodd 'ar wasgar' sydd yma; *llwarwescyr* a ddarllenodd G.J. Williams, *art.cit.* 87.
- 34 **i f'ewythr** Gthg. ll. 101, *i'm hewythr*.
- 35 **garan** Yn yr ystyr 'coes; gwerthyd, echel', mae'n debyg (gw. GPC 1380 d.g. *garan*<sup>2</sup>), yn drosiad am gleddyf; cf. 7.149 *Honno a bair y ddwbled*, a 5.4. Ymddengys mai llwgr yw *caram*; cf. yr odl rhwng *Llywelyn a hirlym* yn llau. 1–2 a rhwng *filgwn a bondrwm* yn llau. 50–1. Annhebygol yw *garam*, sef ffurf ddichonadwy ar *garm* 'bloedd', ac felly hefyd *geran* 'dolefain'.
- 40 **Hantwn** Hampton Court, cf. GLGC 222.29, 230.33.
- 43 **daearen** Llsg. *tharen*. Dilynir G.J. Williams, *art.cit.* 87, *t[ae]haren*. Y mae'r llythyren *h* o blaid y diwygiad hwn yn hytrach na *tarren*.
- 44 **terwyn** Gellid *terrwyn*.
- 45 **Dewi** Gw. 2.108n.
- 47 **hyd yn Nhywi** Llsg. *hytynwi*. Diwygiad llai tebygol fyddai *hyd yn Nyfi*, er cryfed y gynghanedd.
- 48 Ychwanegwyd y ll. ar ymyl y ddalen. Dilëwyd y ll. wreiddiol, sef *nebaymvo* (neb a'i amheuo?).
- 50 **milgwn** Llsg. *filcwm*. Cf. yr odl yn llau. 1–2 a 34–5.
- 52 **hob** Mochyn neu hwch. Fe'i ceir yn y Mabinogi, PKM 68, ond nid ymddengys ei fod yn air cyffredin, gw. GPC 1880 d.g. *hob*<sup>1</sup>. Llsg. *ahobvantruet*; a *fo* yw darlleniad petrus G.J. Williams, *art.cit.* 87, ond mae'n sicr mai *h* sydd yma yn hytrach nag *f*. Rhoddai *A fo buandroed* ystyr addas; cf. 7.106 *A fo syw i'i gweled*.
- 53 **cwbwl** Cadarnheir y ffurf lafar gan yr odl yn 8.70.
- 53–5 **na** Am enghrau. tebyg o'r cys. *na* yn yr ystyr 'neu', gw. GPC 2545–6 d.g. *na*<sup>4</sup>, *nac*<sup>2</sup> a cf. 8.79.
- 60 **Onis cei'n barod** Llsg. *onysceynbaret*; cf. 5.24 *Efe gaiff yn barod*.
- 61 **tros dy gledd tyroet y cyledd** a ddarllenodd G.J. Williams, *art.cit.* 87, yn hytrach na *tyrostycyledd*, ond mae'r *s* yn sicr.
- 64 **ofon** Digwydd yr un ffurf yn 10.48.
- 66 Gellid cymal pth.—a hyllt benglogau.
- 67 **Esyllt** Cariad chwedlonol Trystan, gw. TYP<sup>3</sup> 350–2.
- 73 **i'm erbyn** Cf. 4.10 ond yn ll. 101 *i'm hewythr* ceir yr anadliad caled o

- flaen llafariad yn dilyn ‘*m* genidol. Cf. hefyd 7.2 *A’m arghwydd*; 14.46 *a’m harian*. Ynghylch yr anghysonder hwn mewn Cym.C., gw. Treigladau 153.
- 75 **cychwyn** Yn yr ystyr ‘ysgwyd, chwifio’, gw. GPC 657 d.g. *cychwynnaf*.
- 76 Ychwanegwyd y ll. ar ymyl y ddalen. Dilëwyd y ll. wreiddiol, sef *ayfaeddvhynycacho* (A’i faeddu hyny gacho).
- 78 **delw’r Grog** Croesbren Crist, sef cyfeiriad at siâp carn y cleddyf.
- 82 **pwmel** Gellid y ffurf dreigledig *bwmel* gan y gall fod yn eg. neu’n eb., gw. GPC 2940–1. Y mae’r llythyren *b* yn cynrychioli’r sain *b* a *p* yn orgraff y copïydd.
- 85 **pedroglgrwn** *Pedrogl*, ffurf gyffredin ar *pedrongl* ‘ac iddo bedair cornel neu ochr’, gw. GPC 2708–9, + *crwn* (llsgr. *bytroclwrwn*). Anghyffredin yw ffurfiau cyfansawdd o’r fath yng nghanu’r Nant, ond dyna a awgryma aceniad y ll., a cf. *Y galon bedroglgron* gan Ddafydd ap Gwilym (CDG 16.9). Cf. hefyd TA VII.94 *pedrogl waywddellt*, XXIX.34 *ffon pedrogl ffyrf*.
- 86 **Bŵn o Hantwn** Cyfieithwyd ‘La Geste de Boun de Hamtone’ i’r Gym. tua chanol y 13g. a cheir y copi cynharaf yn Llyfr Gwyn Rhydderch; gw. Morgan Watkin, *Ystoria Bown de Hamtwn* (Caerdydd, 1958), ac Erich Poppe, ‘Beues of Hamtoun in Welsh bardic poetry’, CMCS 43 (Summer 2002), 49–57.
- 88 **gwastata** Gwastatáu, yn yr ystyr ‘darostwng, gorchfygu, gwastrodi’, gw. GPC 1600 d.g. *gwastatâf* a’r enghrau. a ddyfynnir yno. Llsgr. *cwstata*. Ymddengys mai be. sydd yma gan y byddai’r 3 un. *gwastatâ* yn drysu’r gynghanedd a’r aceniad; *gwestety* yw’r ffurf 3 un. yn CDG 77.30. Fodd bynnag, nid annichon 3 un. *gwastata* a roddai gystrawen fwy naturiol.
- 90 **Syr Hywel y Fwyall** Cf. 11.78. Syr Hywel ap Gruffudd, un o Gymry amlycaf y 14g. Bu’n gwnstabl castell Cricieth rhwng c.1359 ac 1381, ac fe’i hurddwyd yn farchog yn dilyn brwydr Crécy, 1346. Fel yr awgryma A. Cynfael Lake, diau fod a wnelo’i enwogrwydd diweddarach â phoblogrwydd y cywydd a ganodd Iolo Goch iddo (GIG cerdd II), gw. GLMorg 60.5n lle y rhestrir rhagor o gyfeiriadau gan y beirdd at ei wrhydi milwrol. Gw. hefyd GGMD iii, cerdd 2 a’r nodyn cefndir, tt. 135–9.
- 96 **os** *O* ‘os’ + rh.m.gwrth. 3 un. -s sy’n cyfeirio at y cleddyf; cf. 15.9.
- 97 **diolch** Heb ardd.; cf., e.e., CDG 120.48 *nis diyloch*.
- 98 **Lafan Nador Hen** Llsgr. *lafanasorhen*. Ffurf anh., ond awgryma J. Lloyd-Jones y gallai *Nador* fod yn llygriad o *Nestor*, gw. G.J. Williams, *art.cit.* 88. Yn ogystal â’i ddewrder a’i ddoethineb, yr oedd Nestor, un o arwyr yr *Iliad* a’r *Odyssey*, yn adnabyddus am ei oedran

mawr, nodwedd a grybwyllir yn y Brutiau, gw. RB 27.

- 102 **gwehelythr** Diwygiad petrus: llsg. *cwhelyddr* (gall mai w yw'r bedwaredd lythyren). Ai ffurf wneud ar *gwehelyth* sydd yma er mwyn yr odl, gydag awgrym, efallai, o'r gair *uthr*? Rhoddir yr ystyr a. 'pendefigaidd' i *gwehelyth* yn GPC 1618, ond i 1699 y perthyn yr unig engh. a ddyfynnir yn yr ystyr honno. Os e. ydyw, gall gyfeirio at y berthynas deuluol rhwng Rhys ap Llywelyn a'i ewythr.
- 103 **llythr** Gallai *lyddyr* gynrychioli *lythyr* neu *lythr*. Dewiswyd yr ail er mwyn yr odl, er bod y gynghanedd yn wannach.
- 105 **ffordd** Cys. 'fel'; gw. yr enghrau. o 'ffordd y ...' yn GPC 1304. Llsg. *ferddycrddo*.
- 112 **ergyd** Awgryma'r engh. hon a 9.44 *A roes ym ŵn ergyd* ystyr adf. debyg i 'unwaith' neu 'mewn dim o dro', er na restrir yr ystyr honno yn GPC 1233. Gellid diwygio i *encyd* 'ennyd, ysbaid', cf. ll. 96 uchod, ond buasai hynny'n amharu ar y gynghanedd.

## 4

Yr oedd Siancyn ap Llywelyn yn frawd i un o noddwyr eraill y Nant, sef Rhys ap Llywelyn ap Gwilym (gw. cerddi 2–3), ac yn gefnder i Rys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd, gwrthrych cerdd 1. Nodir yn yr achau mai ym Mhenderyn ym mhen uchaf Cwm Cynon y trigai,<sup>1</sup> ychydig filltiroedd i'r de o gartref ei dad ym Mhorthogof, Ystradfellte. Bu Lewys Morgannwg yn canu ar aelwyd ei fab, Lewys Gwyn o Drefesgob.<sup>2</sup> Ei wraig gyntaf oedd Margred ferch Morgan ap Gwilym ap Meurig o'r Garth, Llandeilo'r-fân yng Nghantref Selyf ym Mrycheiniog. Fe'i henwir hithau ar ddiwedd y gerdd, a throsti hi y gofynnir am fantell yng ngerdd 5. (Nid oes sail i honiad G.J. Williams mai Siancyn ap Llywelyn o lwyth Gwaithfoed yw hwn, gŵr y trigai ei hynafiaid yn ardal Merthyr Tudful ac a oedd yn briod â Margred ferch Morgan ap Rhys Fychan o Gelli-gaer.<sup>3</sup>) Enwir rhoddwr y gist fel Gwilym ab Ieuan Fwyaf a dywedir ei fod yn perthyn i lwyth Tomas ap Dafydd ac i lwyth y Bach ap Gwaithfoed (llau. 45, 41), llinach a gysylltir â Morgannwg a Gwent.<sup>4</sup> Er gwaethaf y manylion hyn, ni lwyddwyd i ddod o hyd iddo yn yr achau. Gan mai cist *O dderwgoed sychion / O Lwytgoed Cynon* (llau. 57–8) yw cist Gwilym, efallai ei fod yn hanu o'r un parthau â Siancyn ap Llywelyn.

Er mor amrywiol yw'r gwrthrychau a ddisgrifir yn y canu gofyn a diolch,<sup>5</sup>

<sup>1</sup> Ceir ei ach yn WG2 'Bleddyn ap Maenyrech' 25B1, 25B2.

<sup>2</sup> Gw. GLMorg cerddi 73–5.

<sup>3</sup> G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 80.

<sup>4</sup> Gw. WG1 'Gwaithfoed' 6.

<sup>5</sup> Gw. CGD 231–8.

ni wyddys am gywydd sy'n erchi cist. Hynodrwydd arall ar gerdd y Nant yw fod ynddi ddau lais. Yr eirchiad Siancyn ap Llywelyn sy'n llefaru yn llau. 1–28, gan honni bod Saeson wedi dwyn ei gyfoeth oddi arno. Bu'n hael ei roddion gynt, meddai, ond bellach er mwyn cael bara i fyw rhaid iddo lafurio ac aredig y tir fel amaethwr cyffredin, ac mae angen cist arno i gadw'r blawd. Dywed y bardd fod y gist ddelfrydol i'w chael gan Wilym ab Ieuan Fwyaf, ac â ati i'w foli yn ddigon cryno gan nodi ei ach. Y gist ei hun a gaiff y sylw pennaf, a hynny drwy ei dyfalu â gormodiaith smala yn null y celwydd golau. Y mae hi'n *gymaint ei chropa / Â moel y Wyddfa*, y mae'n *Uwch no dau gamel*, ac yn *gyfuwch â'r gronglwyd / Fegis Cwm Caflwyd* (llau. 61–2, 90, 93–4), ond hyd yn oed *Pei cyfled ei bola / Â thyre Cydweli* (llau. 103–4), caiff ei gwala o flawd gan Siancyn. Cyn tewi dymunir hir oes i Wilym, a bendithir Siancyn gan enwi ei wraig yn y llinellau clo yn y dull arferol.

- 1 **Siancyn** Llsg. *sianyn*. Gallai *wyfab* gynrychioli *wyfab*.
- 2 Ychwanegwyd llythrennau aneglur (*cy<sup>r</sup>?*) ar ddechrau'r ll., ac mae'r v yn *vchelwr* yn ansicr.
- 4 **meibion Alis** Enw dilornus ar y Saeson, *plant Alis* fel rheol, sef Alis Rhonwen, merch Hengist, gw. GPC 2818 a GDL1 3.41n.
- 5 **naethon** Cf. 10.61 *naeth*. Am enghrau. tebyg, gw. Treigladau 222, ond gthg. 14.48, 64 *A wnaeth*.
- 6 **mowrgled** 'Clyd neu ddiddos iawn', GPC 2384 d.g. *mawrgled*; dyfynnir yr engh. hon a DN VII.61 *Gwae wŷr farglwydd yn y gaer fowrgled!*
- 11 **Caer Dubal** Y mae'r union arwyddocâd yn dywyll, ond ceir sôn ym mhroffwydoliaeth Myrddin am lwynog Caer Dubal, gw. RB 153. Cf. hefyd GLGC 12.65 *ac a achub Iorc a Chaer Dubal*, unwaith eto wrth gyfeirio'n ddilornus at y Saeson.
- 13 **mowrdda** Llsg. *fordda*. Cf. ll. 96, 3.37 a ll. 6 *fowrgled*, ll. 21 *mowron*.
- 14 **try** Ffurf ar *tra*, gw. GPC 3538 (engh. gynharaf: 1574). Gallai *tyrelleis* gynrychioli *tyr[y]* neu *tyr[a] ellais*, ond *try* yw'r ffurf a geir gan y Nant fel rheol. Digwydd un engh. sicr o *tra* (*tyra*) yn 6.58, ond *try* (*tyry*) yw'r ffurf yn 6.56, ddwy l. ynghynt.
- 17 **ceibo** Llsg. *cibo*.
- 26 **cerch** Ceir y ffurfiau *ceirch*, *cerch* a *cyrch*, gw. GPC 454. *Ceirch* yw'r ffurf yn ll. 64 isod.
- 29–31 Hepgorwyd y gytsain *t* ar ddiwedd pob ll.
- 38 **uwchelwr** Ni restrir y ffurf yn amr. ar *uchelwr* yn GPC 3697, ond digwydd y ffurf *uwchel*, gw. *ib.* 3694 d.g. *uchel* (engh. gynharaf: 1551), a cf. yr amr. *uwchelder* (engh. c.1585), *ib.* 3695. *Uchelwr* yw'r ffurf yn

- 8.50 isod ac, yn fwy na thebyg, yn ll. 2.
- 41 y **Bach ap Gwaithfoed** Gw. y nodyn cefndir. Credir iddo gael ei eni tua dechrau'r 12g. yn Ynysgynwraidd yn sir Fynwy, gw. WG1 'Gwaithfoed' 6.
- 43 **addoed** Yr ystyrion a roddir yn GPC<sup>2</sup> 75 d.g. *addoed*<sup>1</sup> yw 'marwolaeth, achos marwolaeth, niwed (marwol), anaf, cystudd, aflwydd, anffawd', a d.g. *addoed*<sup>2</sup> (enghrau. o 1588 ymlaen) 'oed, bywyd, amser penodedig'. Efallai mai cyfeiriad at y Cymun olaf yw [g]win *addoed*.
- 46 **dedwydd** Llsgr. *tetydd*.
- 49 **ciste** Llsgr. *cise*.
- 55 **Cadfan** Nawddsant Llangadfan ym Mhowys. Fe'i cysylltir hefyd â Thywyn ym Meirionnydd lle y mae ei brif eglwys, ac ag Ynys Enlli, gw. LBS ii, 1–9; TWS 174–7.
- 58 **Llwytgoed Cynon** Y mae Llwytgoed ychydig i'r de o Benderyn, gerllaw Hirwaun, gw. WATU 146.
- 59 **Siaron** Cf. 12.74. Ffurf ar enw'r sant Jerome, fe ymddengys; arno, gw. ODCC<sup>3</sup> 731–2. *Sieron* yw'r ffurf fwyaf cyffredin yng nghanu'r Cywyddwyr, gw. 2.4n ar *Sierwm*, ond digwydd y ffurf *Siarom* yn TA IX.75. Llsgr. *hnomsiaron*. Cf. *mteilo* (*ym Teilo*) yn 1.84.
- 60 **mesyryd** Cf. 14.8. 'Cyflawnder o fes, mes', hefyd 'yr arfer o droi moch i bori mes mewn coedwig', GPC 2443.
- 68 **twysgwydd** Llsgr. *twyswydd*, ond dyma'r ffurf a awgrymir gan y gynghanedd; cf. G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 81. Ymddengys mai cyfuniad sydd yma o *gwýdd* 'coed' a *twysg* 'cyfran, maint, swm' neu 'pentwr, crugyn', gw. GPC 3667, efallai gyda grym a. Ystyr addas hefyd fyddai 'coed sy'n cronni', cf. *ib.* d.g. *twysgaf: twysgo* 'pentyrru, hel, cronni'.
- 71 **Trystan** Gw. 8.103n.
- 75 Ychwanegwyd *I* ar ddechrau'r ll. er mwyn yr ystyr.
- 77 **Silin** Gw. 7.108n.
- 78 **rhibin** I'r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf a restrir yn GPC 3066.
- 88 **goflawd** 'Lluch blawd', gw. GPC 1431. Llsgr. *ddiconoflawt*, ond o *oflawd* yn hytrach nag o *flawd* a awgryma'r gynghanedd â *ddifflin* (a cf. *ddiconoscordd* yn ll. 67).
- 91 **Iarll Arndel** William FitzAlan, y trydydd iarll ar ddeg i ddwyn y teitl Arundel (1438–87), gw. GG.net 98.17n. *Arwndel* yw'r ffurf gan Guto'r Glyn, ond cyfeirir at *Iarll Arndel* gan Lewys Môn, GLM LXXV.31. Llsgr. *rantel*, ond cadarnheir y trawsosodiad gan y gynghanedd â *Corntwn* yn y ll. nesaf.
- 92 **Abad Corntwn** Wiliam Corntwn, abad Margam; gw. cerdd 9. Llsgr.



*cortwn.*

- 94 **Cwm Cawlyd** Naill ai Cwm Cawlyd yn mhlwyf Llandeilo Fawr yn sir Gaerfyrddin (WATU 52), neu'r ardal o'r un enw rhwng Capel Curig a Llanrwst a welir, mae'n debyg, yn enw'r dylluan Cuan Cwm Cawlyd yn chwedl yr Anifeiliaid Hynaf, gw. CO<sup>3</sup> liiin, 32.
- 100 **Elystan** Elystan Glodrydd, sefydlydd nifer o deuluoedd Rhwng Gwy a Hafren, gw. WG1 'Elystan Glodrydd' 1, &c.; WCD 247. Llsg. *yltan*.
- 103 **cyfled** Llsg. *cylet*.
- 104 **tyre Cydweli** Atgyfnerthwyd castell Normanaidd Cydweli yn sylweddol yn ystod teyrnasiad Edward I yn niwedd y 13g.
- 105 **hyd dyddbrawd** Llsg. *ityddbrawt*.
- 107 **nid ânt yna na** Diwygiad petrus; llsg. *nytantina*. Cf. G.J. Williams, *art.cit.* 81 *nyt ant ina [na]*. Posibilrwydd arall fyddai *Nid ânt iddi ...* (ceir *idd* am *iddi* yn 11.71).
- 108 **llygaid** Llsg. *llyeit*.
- 117 **Margred arch Forgan** Gw. y nodyn cefndir. Ffurf ar *ferch* yw *arch*, gw. GPC 2433 a cf. 5.85n.
- 118 **cist** Llsg. *cit*.
- 119 **A'r gist hyd bochan** Llsg. *arcistybochan*. Cymerir mai amr. ar y f. *bochian* 'bolio, to bulge' sydd yma, gw. GPC<sup>2</sup> 688 d.g. *bochiaf*, ond ni restrir engh. gynnw'r o'r ffurf. Ynghylch y diffyg treigladd yn dilyn yr ardd. *hyd*, gw. Treigladau 393–4 a cf. *hyd dyddbrawd* yn ll. 105 uchod.
- 120 **mawr** Llsg. *mwr*.

## 5

Margred ferch Morgan oedd gwraig gyntaf Siancyn ap Llywelyn o Bendersyn y gofynnir cist drosto yng ngherdd 4. Fe'i henwir yn yr achau fel Margred ferch Morgan ap Gwilym ap Meurig o'r Garth yng Nghantref Selyf (cyfeiria'r Nant at ei thaid Gwilym yn ll. 35).<sup>1</sup> Ni wyddys pwy yw Dafydd ap Rhys Tew. Yr oedd gŵr o'r enw Rhys Tew ap Morgan ap Maredudd yn trigo yng nghyffiniau Ystradfellte lle y magwyd gŵr Margred,<sup>2</sup> ond ymddengys ei fod yn rhy ddiweddar i fod yn dad i wrthrych y gerdd hon. Awgryma'r disgrifiad *Marsiandwr i'r goron*, / *Perchen llonge trymion* (llau. 25–6) fod Dafydd ap Rhys Tew yn ŵr o gryn fodd.

Mantell Wyddelig goch yw'r wisg a erchir dros Fargred. Fel y dengys cyfeiriadau'r Cywyddwyr at wisgoedd o'r fath, yr oedd yn ddilledyn

<sup>1</sup> Ceir ei hach yn WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 25B<sub>2</sub>, 'Brycheiniog' 7.

<sup>2</sup> Gw. WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 27A lle y nodwyd y ffynonellau canlynol mewn llawysgrifen: Card 5.6, 152 ac Egerton 2587, f. 560.

ffasiynol yn y cyfnod hwn gan adlewyrchu pwysigrwydd y fasnach wlân rhwng Iwerddon a Phrydain.<sup>3</sup> Fel marsiandwr i'r goron, tybed a oedd a wnelo Dafydd ap Rhys Tew â'r fasnach honno? Wrth ddyfalu'r fantell, dengys y Nant ei fod yn hyddysg yn nelweddaeth y Cywyddwyr. Y mae cyn goched â grawn celyn, egroes, ceirios, rhosod cochion a gwaed aderyn, delweddu cyfarwydd o fyd natur o'r math sy'n britho nifer o'r cywyddau hynny sy'n gofyn neu'n diolch am wisg.

1 **Ble y ceir ...** Yr un cwestiwn sy'n cychwyn cerdd 6.

**Esyllt** Gw. 3.67n. Ni wyddys am unrhyw hynodrwydd a berthyn i'w mantell, ond cf. efallai gyfeiriadau'r beirdd at fantell Tegau Eurfron; gw. ll. 81n.

2 **crefft** Llsg. *cyref*.

**Gwyddel gwyllt** Cf. ll. 75. Ceir sawl cyfeiriad at Wyddelod gwylltion yng nghanu'r cyfnod, gw. GLMorg 17.37n, gan adlewyrchu'r portread ystrydebol o'r Gwyddelod yn yr Oesoedd Canol. Cyfeirir yma ac yng ngweddill y gerdd at enwogrwydd Iwerddon fel un o brif ganolfannau'r diwydiant gwlan; gw. y nodyn cefndir a cf., e.e., 9.13–14 *Gwisg ... / O wllân tir Matholwch*, a *gwisg Gwyddel gwyllt* mewn cywydd gan Ieuan Du'r Bilwg yn diolch am wll coch (DGGD 13.30).

3 **Fferyllt** Yr oedd y bardd Llad. Vergilius yn enwog fel dewin ac fel crefftwr celfydd yn yr Oesoedd Canol; cf. CDG 135.55–6 *Ei chwyr sydd, nid gwýdd gwyll, / O ffurf gelfyddyd Fferyll* (am delyn); GIF 27.11–12 *Gwal i feirdd fu gelfyddyd / Fferyll fwy no ffair holl fyd*, a gw. *ib.n.* Ar y ffurf hon, gw. GPC 1284 d.g. *fferyll, fferyllt* a G 505.

4 Treigladd annisgwyl gan mai eg. yw *toryn*, gw. GPC 3535. Cyfeirir ymlaen, mae'n debyg, at *mantell* yn y ll. nesaf.

5 **eurfryn** Y mae'n weddol sicr mai dyma a gynrychiolir gan *heurfryryn* (cf. ll. 81 *Mantell deg ei heurfron*), ond nid yw'r ystyr yn amlwg oni bai fod *bryn* yn cyfeirio at ran uchaf y fantell.

7 **ne** Gw. 7.90n.

7–8 Cf. ll. 87 isod, *lliw gwaed garan*. Efallai fod yma adlais o'r disgrifiad yn chwedl 'Peredur' ohono'n gweld brân yn ymborthi yn yr eira ar gnawd hwyaden a oedd wedi ei lladd gan walch gwyllt, ac yn cymharu'r lliwiau â gwedd ei gariad. Mydryddir yr hanes gan Ddafydd ap Gwilym,

<sup>3</sup> Gw. Alaw Mai Jones, '“Val y gwydel am y ffaling”: beirdd y bymthegfed ganrif a'r fantell Wyddelig', *LlCy* 32 (2009), 85–100; Eurys Rowlands, 'Un o gerddi Hywel Swardwal', *YB* vi (1971), 95–6; ymdriniaeth Dylan Foster Evans â'r gerdd honno, sef cywydd yn gofyn ffaling Wyddelig, yn *GHS* 169–70; *CGD* 77–8; ac am gywydd Guto'r Glyn yn gofyn ffaling gan Elen ferch Robert Pilstwn, gw. *GG.net* cerdd 53.

- CDG 86.51–2 *Gwaed yr edn gwedy r’odi*, / *Gradd haul, mal ei gruddiau hi* (‘Dyddgu’).
- 10 **gwrddonig** Ffurf ar *gwyrdonig* ‘garw, cedenog, blewog’, gw. GPC 1783 a cf. GLGC 163.25–6 *mantell gron yw hon fal hwyl*, / *wyrdonig o rudd annwyl*. Rhoddir yr ystyron ‘*rough or shaggy mantle, Irish mantle, gaberdine*’ i *mantell werddonig* (*wyrdonig*) yn GPC 2346 d.g. *mantell*. Cf. *ib.* 1783–4: ‘cafwyd y ff. *gwerddonig* drwy gangysylltu’r gair ag *Iwerddon* oherwydd bod mentyll, clogau, &c., yn dod o’r wlad honno’.
- 12 **Mwnt Tabor** Cyfeirir at Fynydd Tabor yng Ngalailea sawl gwaith yn y Beibl, ac ymladdwyd drosto yn ystod rhyfeloedd y Groes. Yno y dywedir i Foses blannu’r gwaiil cyn marw ac y daeth Dafydd Frenin o hyd iddynt. Cf. Yst Addaf 14–15 *Ac ympenn mil o vlwynnyded gwedy moessen broffbyt y dysgbyg dauid trby yr ysbryd glan y vynet ohonna6 y vynyd thabor y y gyrchu y gbielin a blannassoed voessen yno ... Ac ympenn y nabuettyd y doeth y vynyd tabor*. Cf. hefyd *Glyn Tabor* yn GGMD ii, 1.118n a *Tabor wlad* yn IGE<sup>2</sup> 286 (Siôn Cent). Diwygiwyd *fwntabar*, gan nad oes lle o’r enw hwnnw’n hysbys; gellid *mwnt* neu *mwnd*, gw. GPC 2510. Cf. *Tu yma i Gorstinob* a *Tu yma i fôr yr Ysbaen* yn 10.38, 40.
- 14 **Gwyddelyn** Ffurf fachigol *Gwyddel*, gw. GPC 1754. Gallai fod yn e.prs., naill ai Gwyddelyn Gor a oedd yn enwog am ei hudoliaeth, gw. TYP<sup>3</sup> 61, 395, neu, yn llai tebygol, y bardd a ddychenir gan Iolo Goch, GIG cerdd XXXVII; gw. R. Iestyn Daniel, ‘Y Gwyddelyn: cymeriad dychmygol ynteu bardd hanesyddol?’, *Dwned*, xii (2006), 107–11.
- 16 **Abertaw** Ffurf wreiddiol *Abertawe*.
- 17 **ynn** ‘Inni’; dyma’r unig engh. o’r ffurf yng nghanu’r Nant. Tybed nad *ym* a fwriadwyd?
- 21 **dilis** Cadwyd sillafiad y llsg. er mwyn yr odl; cf. CDG 130.33 *Nid gwyn pryd dilis disglair*. Fel y nodir yn DG.net 130.33n, y mae’r ffurf yn ddigon cyffredin mewn testunau Cym.C., gw. GPC 1016 d.g. *dilys*.
- 22 **ffris** Math o frethyn blewog, o’r S.C. *fryse, frees* ‘*frieze*’, gw. GPC 1314 d.g. *ffris*<sup>1</sup>.
- 23 **Paris** Cf. *fantell Ffrenig* yn ll. 31, i ddynodi coethder, mae’n debyg. Y mae’n annhebygol mai at Paris, arwr y chwedlau Groegaidd, y cyfeirir.
- 25 **marsiandwr** Gallai *myrsiantwr* gynrychioli *marsiandwr* neu *mersiandwr*, gw. GPC 2363.
- 26 **llonge** Llsg. *lloce*. Disgwyliid *llocne* yn orgraff y copïydd, fel a geir yn 9.105 *A’th longe o Loeger*. Go brin mai *lloge* a fwriadwyd.
- 29 **planed** Yn ganmoliaethus am berson, yn enwedig merch neu wraig; gw. yr enghrau. a ddyfynnir yn GPC 2816 a cf. 7.121 isod.
- 34 **gwin a’r can** Llsg. *cwinacan*.

- 35 **llin Gwilym** At daid Margred y cyfeirir, gw. y nodyn cefndir.
- 36 **Edyrn** Ceir yr un ffurf gan Lewys Morgannwg, GLMorg 86.25. Fel y nodir, *ib.* 615, enwir pum Edern (Edyrn) yn G 438, sef Edern ap Nudd, Edern ap Padarn Beisrudd, Edern ap Cunedda, Edern Sant ac Edern Dafod Aur. O'r rhain, Edern ap Nudd sydd amlycaf yng nghanu'r beirdd. Nid ymddengys fod yr a. *edyrn* 'aruthr, rhyfeddol' yn air cyffredin erbyn y cyfnod hwn, gw. GPC 1169, a chadarnheir y dybiaeth mai e.prs. sydd yma gan debygrwydd 11.49 *Bydd Olifer arnun*.
- 37 **Siancyn ap Llywelyn** Gŵr Margred, gw. y nodyn cefndir a cherdd 4.
- 39 **A gwin a roes Siancyn** Llsg. *acwcinaroesicynyn*. Gellid darllen a rôî.
- 40 **encil** Llsg. *ecncil*. Ceir y trawiad *Siancyn*, / *Ni cheisodd encil* yn 7.27–8.
- 42 **sidan o'r Asia** Buasai Tsieina yn enwog am ei masnach sidan o gyfnod cynnar iawn, a synnid am Asia yn gyffredinol fel tir llawn cyfoeth a rhyfeddodau ecsotig, cf., e.e., TA V.75 *Mwnai o'r Asia, main a roesoeh*; GLGC 41.36 *aur yr Asia*.
- 46 **coedwlan** Ni welwyd engh. arall o'r ffurf. Ystyr wahanol sydd i *gwlan coed* 'wood-wool, cotton', gw. GPC 1680 d.g. *gwlan* (engh. o'r 18g.).
- 47 **sirion** Llsg. *siron*, ond cf. 6.102 *Cyrudded â'r sirion* (gw. *ib.*n).
- 48 **seren** Am enghrau. eraill o ddefnyddio *seren* yn drosiadol am ferch, gw. GPC 3226.
- 49 **Efe geir gweled** Llsg. *efecircwelet*. Cf. 12.20n.
- 51 **niwed** I'r 16g. y perthyn y engh. gynharaf o *niwed* (yn hytrach na'r ffurf wreiddiol *eniwed*) a ddyfynnir yn GPC 2585.
- 55 **y Fenis** Un o wledydd cyfoethocaf Ewrop yn yr Oesoedd Canol. Sonia Lewys Glyn Cothi am *aur y Fenis* ar yr un gwynt ag *aur yr Afia* ac *aur yr Asia*, GLGC 41.34–6.
- 59 **Gwyddel ac Iddew** Cyplysyr y ddwy genedl mewn cywydd i ofyn ffaling o waith Dafydd Epynt. *Gwe Wyddelig o Ddulun* yw'r dilledyn; *Dyro, rhag y dŵr a'r rhew*, / *I'r corff dudedd, crefft Iddew* (GDEp 19.39, 45–6). Ymddengys fod a wnelo hyn â rhyw fath o wisg Iddewig neu wisg a wnaed gan Iddew, ond efallai, fel yr awgryma Owen Thomas, *ib.* 172, mai at enwogrwydd yr Iddewon fel masnachwyr a benthycwyr arian y cyfeirir. Ychwanega: 'Er mai prin oedd nifer yr Iddewon yn Iwerddon erbyn y 15g. a'r 16g. yr oedd rhai o ieirll Iwerddon yn ddibynnol iawn ar fasnachwyr Iddewig i gyflenwi eu hanghenion masnachol', gw. Louis Hyman, *The Jews of Ireland: from earliest times to the year 1910* (Shannon, 1972), 8. Cyplysyr y cenhedloedd mewn modd difriol gan Hywel Swrdwal: GHS 23.39–40 *Ni wnâi Iddew neu Wyddel / A wnaeth dyn â'i saeth dan sêl*. Darlleniad y llsg. yw *aiddew*. Gellid a fel ardd. (gw. GMW 37), 'Gwyddel o

Iddew', ond mae'r ystyr honno'n annhebygol ac ni cheir engh. arall o'r gystrawen gan y Nant.

61 **Morcwd** Ai Cymreigiad o'r e.prs. Gwydd. *Murchadh?* Digwydd y ffurf *Mwrchath* mewn awdl ddychan gan Fadog Dwygraig, GMD 10.19 *Rhawn gwrcath Mwrchath*, sef cyfeiriad, mae'n debyg, at Murchadh mac Finn, brenin Leinster, gw. *ib.n.* Fe'i henwir yn ach Gruffudd ap Cynan, gw. HGK 4 (ll. 27), ac *ib.* 54 lle y nodir rhai o'r amrywiadau ar y ffurf Gym., e.e. *morchath*; gw. ymhellach TYP<sup>3</sup> 455. Gallai *forcwt* y llsg. gynrychioli *fforcwd* neu ffurf dreigledig *borcwd* yn ogystal.

62 **Crwm yr hen hwgwd** Llsg. *cyrwmyrerhwcwt*. Diwygiwyd yn betrus i *yr hen (yren)* gan mai anodd yw canfod ystyr fel arall; cf. 12.84 *Gwaith yr hen gobler*.

**crwm** Yn yr ystyr 'cwman' neu 'crymedd'? Gw. GPC 615.

**hwgwd** Drychiolaeth neu fwgan brain, gw. *ib.* 1909 d.g. *hugwd*, *hwgwd*. Digwydd yr engh. gynharaf mewn cywydd dychan o waith Iolo Goch, GIG XXXVI.97-8 *A'i chunnog laeth a'i chwynnogl, / A'i chwd, Hersdin hwgwd Hogl*.

63 **fforlach** Ai benthyciad o'r Gwydd. *folach* 'act of hiding, covering; a veil, mask, covering, cover', P.S. Dinneen, *An Irish-English Dictionary* (Dublin, 1927), 474? Rhoddai 'llen', 'mwgwd' neu 'gorchudd' ystyr addas yn y cyd-destun.

**mwgwd** I'r 16g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir yn GPC 2508.

66 **Ysgïen Ysgornach** Gallai fod yn enw gwneud cellweirus, sef enw'r *Gwyddel bach*, yn debyg i rai o'r enwau Gwydd. yn chwedl 'Culhwch ac Olwen'. Y mae *ysgïen* yn air digon cyffredin yng nghanu'r Cywyddwyr am gyllell neu gleddyf, ac fe'i cymherir yn GPC 3835 â'r gair Gwydd.C. *scian* a'r S.C. *skene*. Efallai mai o *ysgorn* (< S. *scorn* 'dirmyg, gwawd') y ffurfiwyd *ysgornach*, ond mae *sgornach* yn golygu 'gwddf' mewn Gael., a roddai ystyr addas gydag *ysgïen*, ac mae'n digwydd hefyd fel e. lle yn yr Alban.

71 **sinor** Ai ffurf ar *sinobr* 'coch, gloywgoch; ocr coch, carreg goch, plwm coch'? Gw. GPC 3284 d.g. *sinobl*, *sinopl*, *sinobr*, *sinopr*, a sylwer ar yr enghrau. yn y farddoniaeth o'r ymadrodd *lliw sinobl*.

72 **Islaw'r ysane** Llsg. *ioslawrysaf..je*. Y mae'n anodd darllen yr hyn sydd rhwng yr *a* a'r *e*, ond byddai *ysane* yn gweddu o ran synnwyr a chynghanedd. Ceir y ffurf honno yn 10.79, a gw. 10.10n ar *ysaneue*.

76 **elltydd** Rhoddai *gellydd* gryfach cynghanedd; yr oedd y ddwy ffurf yn gyffredin erbyn y 15g. Yr ystyr 'coedwig, llechwedd coediog' sy'n gweddu yma ac yn 10.116, gw. GPC<sup>2</sup> 186 d.g. *allt*.

78 **ef a â Dafydd** Llsg. *eatafydd*. Cf. 12.17 *Ef a aeth wellwell* (llsg. *efaedd*).

- 79 **diell** Llsg. *ddell*. Cf. 12.19.
- 80 Rhaid mai drwy amryfusedd yr ailadroddir ll. 77 yma. Disgwylid gair i gyflythrennu â *ddiell*.
- 81–8 Ychwanegwyd y llau. hyn ar ôl y priodoliad *nant*, a cheir y priodoliad eto ar eu diwedd. Nid oes sicrwydd, felly, mai'r rhain yw'r llau. clo.
- 81 **deg ei heurfron** Llsg. *te<sup>c</sup>yhevr<sup>f</sup>on*. Diau fod yma chwarae ar yr e.prs. Tegau Eurfron; cf. ll. 5 *Mantell deg ei heurfryn*. Gwraig Caradog Freichfras oedd Tegau, ac yr oedd ei mantell enwog yn un o Dri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain, gw. TYP<sup>3</sup> 259, 264, 503–6; WCD 600–2. Cyfeiria Lewys Glyn Cothi, e.e., at *Mantell Degau* mewn cywydd yn gofyn mantell, GLGC 163.53.
- 83 **Caron** Y sant a gysylltir â Thregaron, cf. 8.99 a 12.27. Arno, gw. LBS ii, 135–6.
- 85 **erch** Ffurf ar *ferch* mewn e.prs.; *ferch* a geir fel rheol gan y Nant, fel yn ll. 33 (ond *arch* yn 4.117), a dichon y dylid diwygio yma.

## 6

Yr oedd Gwilym ap Rhys ap Gwilym yn gefnder i Rys a Siancyn ap Llywelyn ap Gwilym y cenir iddynt yng ngherddi 2–4.<sup>1</sup> Yr oedd Rhys ap Gwilym yn frawd i Lywelyn o Borthgogof yn Ystradfellte, ac fel *Llew Ystradfellte* (ll. 62) y disgrifir ei fab yn y gerdd hon. Y *Rhys Llwyd* y cyfeirir ato yn llinell 63 oedd hen daid Gwilym a Rhys, Rhys Llwyd ab Adam, a enwir yng ngherdd 2. Enwir y rhoddwr fel Tomas ap Dafydd ap Siancyn ab Ieuan ap Hywel. Sylwodd G.J. Williams fod gŵr o'r enw hwnnw yn byw yn y Betws yn Nhir Iarll ac yn perthyn i'r un tylwyth â Rhys Brydydd,<sup>2</sup> ond ni ellir bod yn sicr mai ef sydd dan sylw yma. Gellir nodi hefyd fod Dafydd ap Siancyn Tew ab Ieuan ap Hywel yn trigo yn ardal Is-Clydach ym Mrycheiniog, heb fod ymhell iawn i'r gogledd o Ystradfellte,<sup>3</sup> ond ni restrir mab iddo yn yr achau ac fe all fod yn rhy ddiweddar.

Cerdd yw hon a ganwyd dros Wilym ap Rhys i erchi tarw Seisnig coch erbyn Calan Mai. Rhydd y Nant ddisgrifiad manwl a chraff o olwg ac yn arbennig o ymddygiad rhywiol y tarw, gan bwysleisio'r ffrwythlondeb a'i gwnâi'n greadur mor werthfawr i'w berchennog. Yna y mae'n enwi'r eirch-iaid a'r rhoddwr, yn nodi eu hach ac yn datgan bod haelioni'r cyndeidiau yn parhau yn y to presennol. Try ei sylw drachefn at ragoriaethau corfforol y tarw, a rhydd ddisgrifiad lliwgar arall o'r anifail wrth ei waith gan bersonoli'n ddramatig ei berthynas ag un fuwch a fu'n ddigon anffodus i

<sup>1</sup> Gw. WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 25; WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 25A.

<sup>2</sup> Gw. G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 88; WG1 'Einion ap Gollwyn' 5; WG2 'Einion ap Gollwyn' 5E<sub>1</sub>; LPMG 184.

<sup>3</sup> Gw. WG2 'Is-Clydach' B.

gael ei dewis ganddo. Yn niwedd glo'r gerdd y mae'n annog Tomas i anfon cywydd at Wilym i erchi ebol yn gyfnewid am y tarw. Fel y gwelwyd yn nodyn cefndir cerdd 3, y mae'r syniad yma o dalu'r pwyth yn un o nod-weddion y canu gofyn a diolch.

Ceir gan feirdd y cywydd ddisgrifiadau lled briddlyd o deirw, er bod y math o fanylder graffig a geir yng ngherdd y Nant yn anghyffredin. Ymhlith yr enwocaf y mae cywydd Deio ab Ieuan Du i ddiolch i Siôn ap Rhys o Aberpergwm, tad Rhys ap Siôn a folir yng ngherdd 1, am darw coch. Dyma'r cywydd sy'n cynnwys y cwpled adnabyddus: *Y ddraig goch ddyry cychwyn / Ar ucha'r llall ar ochr llwyn*,<sup>4</sup> a thebyg hefyd yw'r modd y caiff y tarw ei bersonoli gan y bardd. Cymharer yn ogystal gywydd Llawdden i ofyn tarw coch gan Risiart ap Siancyn Twrbil o Landudwg, gwrthrych cerdd 7 isod, cywydd sy'n llawn dyfalu mwy trosiadol a mwy syber na'r hyn a geir gan y Nant.<sup>5</sup>

- 1 **bu** Eidion. Rhannodd G.J. Williams y geiriau'n wahanol: *byle c[e]ir bit [t]oloch*, gw. 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 88, ond anodd dirnad beth yw ystyr *bit* yma. Gall *i* gynrychioli'r sain *u / y* yn orgraff y copïydd. Digwydd *cir* am *ceir / geir* hefyd yn 5.49 a 12.20, a cf. *cirwon* am *ceirwon* yn ll. 31 isod.

**toloch** Gw. 3.23n. Ymddengys fod grym a. i'r gair yn y fan hon: dolefus?

- 2 Gellid *i'r* yma ac yn ll. 12.

- 6 **crydr** Cryndod, dirgryniad. Cf. GIG XX.40 *A chrydr ar belydr balwyf*, sef yr unig engh. a nodir yn GPC 620 ac eithrio'r geiriaduron.

- 13 **bigloddi** 'Bugunad, brefu' neu 'tyrchu'r ddaear â'r cyrn fel tarw, cornio'r ddaear'. Ceir y ffurfiau *bigloddi* a *bugloddi* (*bu + cloddi(o)*), gw. GPC 348.

- 14 **genti** Ffurf 3 un.b. yr ardd. *gan*, 'ganddi'; cf. *ganto* yn ll. 99. Diwygiwyd *wetarfo*, cf. G.J. Williams, *art.cit.* 88. Cyfeiria'r ymadrodd *bod genti* at gyfathrach rywiol; cf., e.e., CDG 147.13 *Paid â bod gan rianedd*.

- 15 **yteri** Ai benthyciad o'r S. *udder* 'cadair, pwrs'? Ni restrir y ffurf yn GPC.

- 18 **dywel** Ffurf dywyll, oni bai ei bod yn amr. er mwyn yr odl ar *dywal* 'ffyrnig, creulon, erchyll', gw. GPC 1151. Mewn herodraeth ceir yr ystyr 'rampant', cf. *llew dywal neu rampiawnt* (*ib.*).

- 19 **potel** Ai'r ddwy botel yw ceilliau'r tarw? Fel *pele* y'u disgrifir yn ll. 73. Cf. GG.net 68.53 *Potel dan bestel bostiwr* ('Dychan i gal Dafydd ab Edmwnd'), sef cyfeiriad at geillgwd Dafydd yn ôl pob golwg; gw. hefyd

<sup>4</sup> GDID 15.55–6.

<sup>5</sup> GLI cerdd 28. Am gerddi eraill yn gofyn ac yn diolch am deirw, gw. *ib.* 236 a CGD 231–2.

- CMOC<sup>2</sup> 132–3.
- 21 **A gyrru'n afraid** Llsgr. *acvrvnarait*. Diwygiad petrus, ond cf. ambell engh. ddiweddarach o *afraid* mewn cyswllt rhywiol yn GPC<sup>2</sup> 104.
- 27 **ffolendrwm** Diwygiwyd *folenrwm* er mwyn yr ystyr a'r gynghanedd.
- 30 **llawfron** Llsgr. *lawron*.
- 31 **geirwon** Llsgr. *cirwon*.
- 32 **oerfa** Lle oeraidd, cysgod rhag yr haul. Dyma'r engh. gynharaf a restrir yn GPC 2625.
- 33 **cawell** Mewn ystyr drosiadol ddifriol, cf. CDG 116.19.
- 36 **cyfod** Be., yn yr ystyr 'cyffroi, cynhyrfu', efallai; gw. GPC 527 d.g. *codaf*.
- 39 **ase** Ffurf lafar ar *asau*, sy'n amr. ar *aswy* 'chwith', gw. GPC<sup>2</sup> 507.
- 40 **gwasod** Yn gofyn tarw. Llsgr. *waset*.
- 47 **Edlym** Cf. 7.98 isod. Edlym Gleddyf Coch, cyfaill Peredur fab Efrog, gw. *Historia Peredur vab Efracw*, gol. Glenys Witchard Goetinck (Caerdydd, 1976), 49–52; G 494. At ei filwriaeth y cyfeiria'r beirdd gan amlaf, gw. GMD 4.31n, ond awgrymir ei haelioni gan Lewys Glyn Cothi, GLGC 228.23.
- 48 **camlodlu** Llu a wisgwyd â chamlod. Gw. GPC 402 d.g. *camlad*, *camlod*: 'Defnydd ysgafn o wllân, sidan a blew at wneud mentyll, &c., yn wreiddiol defnydd drudfawr gwych o'r Dwyrain' (o'r S.C. *cham(e)lot*, *camlot* 'camlet'). Nid annichon ffurf ar *Camelot*, lleoliad llys y Brenin Arthur yn ôl rhai o'r rhamantau cyfandirol. Cf. YSG 1 *Megys yd oed yr amherawdyr Arthur yn y llys a elwit Camalot nos Sadwrn Sulgwynn...*
- 52 **mi a wn** Llsgr. *mawn*.
- 53 **Dafydd ap Siancyn** Tad Tomas ap Dafydd.  
**digel** Llsgr. *ddcel*.
- 54 **Ieuan ap Hywel** Hendaidd Tomas ap Dafydd. Llsgr. *iwanaabhowel*.
- 56 **try** Digwydd y ffurf fwy cyfarwydd *tra* yn ll. 58, gw. 4.14n.
- 61 **y Blaene** Y tir mynyddig o amgylch Ystradfellte.
- 62 **Ystradfellte** Y mae plwyf Ystradfellte ychydig filltiroedd i'r gogledd-ddwyrain o Lyn-nedd, yn yr hen Gantref Mawr ym Mrycheiniog.
- 63 **Rhys Llwyd** Rhys Llwyd ab Adam, gw. y nodyn cefndir.
- 66 **ychen bôn** Yr ychen sydd yn y cefn wrth aredig, gw. GPC 3749 d.g. *ych*<sup>1</sup>.
- 68 **brathu** Yn yr ystyr 'trywanu, treiddio'.
- 70 **Seisnig** Gwallus, fe ymddengys, yw *yseisnic* (cf. ll. 84n), oni bai mai *[h]y Seisnig* a olygir.



- 71 **calennig** Llsgr. *cylenic*. Gellid *calennig* neu *celennig*; cf. 10.54 a 12.35.
- 73 **pele** Dyfynnir yr engh. hon yn GPC 2721 d.g. *pêl*. Drwy amryfusedd y'i dyfynnir yn GPC<sup>2</sup> 619 d.g. *belau*<sup>1</sup>, *bele*<sup>2</sup> 'blaidd, bwystfil ysglyfaethus'.
- 74 Am y treigladau, gw. Treigladau 130.
- 75 **cyffion** Yn yr ystyr 'hynafiaid', mae'n debyg, yn hytrach na 'bon-cyffion', gw. GPC 727. d.g. *cyff*.
- 79 **deulin** Llsgr. *tvlin*.
- 82 **llemain** Llamu, mewn ystyr rywiol, cf. ll. 8. Dyfynnir yr engh. hon yn GPC 2092 dan yr ystyr 'neidio mewn cytgnawd (yn enw. am deirw a hyrddod), ymrain, cnuchio'.
- 83 **beichadain** Dyma'r unig engh. o'r ffurf amr. hon (adffurfiad o'r be. *beichad* + *-ain*) a restrir yn GPC<sup>2</sup> 613 d.g. *beichiaf*<sup>1</sup> 'brefu neu fugunad (am fuwch, &c.)'.
- 84 **am ddangos** Llsgr. *amyddacnos*. Efallai mai gwall am *iddi ddangos* sydd yma, ond cf. yr y ddiangen yn ll. 70.
- 88 **colomen** Gellid *colomen* neu *clomen* (llsgr. *chylomen*). At y llawes goch y cyfeirir, mae'n debyg. Yn Llyd. ceir yr ymadrodd *koll he fichon glas* 'colli ei cholomen lwyd' am ferch yn colli ei gwryfodod, gw. Martial Menard, *Alc'hwez Bras ar Baradoz Vihan: Geriahudur ar Brezhoneg* (Releg-Kerhuon, 1995), 382. Perthnasol hefyd, efallai, yw cerdd awgrymog ei delweddath yr honnir ei bod yn boblogaidd yn nhafarnau Cymru yn ystod y 19g. Dywed llanc ifanc fod un o ddwy lodes a fu'n canlyn ar ei ôl wedi gofyn iddo a ddôi i'r parlwr perlau ar ôl saethu'r golomen wen. Â'r gân rhagddi: *Mi nelais am y brigyn / Yn union fforch y pren / A'r cwd a'r shots yn tachian / Dan aden y glomen wen*; gw. Bleddyn Owen Huws, *Hanes Cyhoeddi Cerddi Eryri* (1927) *Carneddog* (Llandybie, 1999), 16–17.
- 89 **gwdde** Cf. 1.14 *gwddon*.
- 91 **tyre** 'Trythyll, nwydus, chwantus', gw. GPC 1145 d.g. *dyre*<sup>1</sup>. Cf., e.e., GPB 6.29 *Chware nid dyre teirw pwyedig*; GLLL1 9.3 *dyre—orwyddawr, ib. 14.27 meirch mygrfawr, dyrawr, dyre*. At feirch hefyd y cyfeiria rhai o'r enghrau. o *dyre* fel e., 'chwant cnawdol, trachwant', gw. GPC 1145. Ymddengys mai *tyre* yw'r ffurf gan y Nant—gw. 12.99n ynghylch *A Phenfro dyre*, a 13.22n—a rhoddai hynny gryfach cynghanedd yma, er bod digon o enghrau. o gyfateb *d a t*. Rhestrir *tyre* yn GPC ond heb nodi enghrau.
- 92 **meder** Cf. y ffurfiau *lleder* a *clleder* yn 7.78–9.
- 94 **cydfwl** Ai *cyd* 'cytgnawd' + *bwl* (< S. *bull*)? Ond *bwla* a *bwly* yw'r unig ffurfiau a restrir yn GPC 352 (< S.C. *bule*). Gan y gall y llythyren *f* gynrychioli *ff* yn orgraff y copïydd, fe all mai *ffwl* yw'r ail elfen.

**dieithr** Y mae'r odl yn anghyflawn.

95 **araith** Llsg. *aridd*.

98 **cnychio** Llsg. *chynychyo*. 1547 yw dyddiad yr engh. gynharaf o *cnuch(i)o* yn GPC 522; nodir bod *cnycho* ar lafar, sef y ffurf a geir yn 10.116 (llsg. *cynycho*).

99 **ganto** Ffurf 3 un.g. yr ardd. *gan*: 'ganddo'.

102 **sirion** Cf. 5.47. Amr. ar *sirian* 'ceirios', sef y ffurf a geir yn 13.15; gw. GPC 3292.

108 **cylltre** Ll. *cwlltr* sef llafn aradr. *Cylltyrau* yw'r unig ffurf l. a roddir yn GPC 640 d.g. *cwlltwr*, *cwlltr*, ond cf. GIG XXVIII.46 *cylltrawg*. Llsg. *cyllre*, ond dyma'r ffurf a awgrymir gan y gynghanedd.

## 7

Erchir rhodd yn y gerdd hon gan aelod o deulu'r Twrbiliaid neu'r Twrberfiliaid, tylwyth o dras Eingl-Normanaidd yr ymsefydlodd canghennau ohono ym Morgannwg ac a ddaeth yn amlwg yn niwylliant nawdd y bymthegfed ganrif.<sup>1</sup> *Cwrner Llandudwg* (ll. 6) yw'r noddwr hwn, aelod o'r gangen o'r teulu a ymgartrefodd yn y plwyf hwnnw i'r gorllewin o Ben-y-bont ar Ogwr. Ni chyfeirir ato wrth ei enw bedydd, ond *Cene yw o Siancyn*, meddir (ll. 27), a thybiodd G.J. Williams mai'r un ydyw â'r Tomas ap Siancyn Twrbil y gofynnir caseg ar ei ran yng ngherdd 8.<sup>2</sup> Fodd bynnag, yr oedd y gŵr hwn yn briod â *Merch Siôn gadarn* yr oedd ei gwreiddiau ym Mrycheiniog a Glyn-nedd (llau. 133–8). Priododd brawd Tomas ap Siancyn Twrbil, sef Rhisiart, a oedd yn fyw yn 1479, â Margred ferch Siôn ap Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd,<sup>3</sup> chwaer i Rys ap Siôn a folir yng ngherdd 1. Perthynai Margred ferch Siôn ar ochr ei mam i linach Bleddyn ap Maenyrch o Frycheiniog.<sup>4</sup> Diau mai mab hynaf Rhisiart a Margred, Siôn Twrbil Gloff, a oedd yn fyw yn 1488,<sup>5</sup> yw *Ŵyr Rhys ap Siancyn* o [*f*]renhinllwyth *Collwyn* (llau. 125–30)—sef Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd—a glodforir ar ôl cyfeirio at ferched y noddwr heb eu henwi (ond un ferch i Risiart a Margred a enwir yn yr achau<sup>6</sup>). Ef oedd etifedd Rhisiart ap Siancyn—canwyd cywydd iddo gan Risiart ap Rhys Brydydd<sup>7</sup>—a chyfran fechan o eiddo'r teulu a ddaeth i feddiant eu mab arall, Siancyn.<sup>8</sup>

<sup>1</sup> Gw. ByCy 928–9; TLIM 20 *et passim*; LPMG 447–63; NBMM 145–8; Eirian E. Edwards, 'Cartrefi noddwyr y beirdd yn siroedd Morgannwg a Mynwy', LICy xiii (1974–81), 200–1.

<sup>2</sup> G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 77n.

<sup>3</sup> Gw. WG1 'Turberville' 2.

<sup>4</sup> Gw. WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 6 ac 1.46n uchod.

<sup>5</sup> WG2 'Turberville' 2A.

<sup>6</sup> *Ib.*

<sup>7</sup> GRB cerdd 14.

<sup>8</sup> Gw. GLMorg 249, 251

Yn ogystal â chanu'r Nant i Risiart a Tomas Twrbil, cadwyd awdl foliant i Risiart gan Lewys Glyn Cothi,<sup>9</sup> cywydd o waith Llawdden yn erchi tarw coch ganddo,<sup>10</sup> a chywydd arall iddo gan Wilym Tew.<sup>11</sup> Ceir hefyd gywydd marwnad o waith Hywel Swardwal i'w brawd Siancyn yr awgrymwyd ei ganu rywdro yn ystod chwedegau neu saithdegau'r bymthegfed ganrif. Yno, disgrifir eu diweddar dad Siancyn ap Gilbert fel *Pen-llin dad, paun Llandudwg*.<sup>12</sup> Credir bod cysylltiad y Twrbiliaid â phlwyf Pen-llin, ryw wyth milltir i'r dwyrain o Landudwg, yn deillio o briodas Gwenllian ferch John Norris o Ben-llin â hendaid y brodyr, Tomcyn Twrbil.<sup>13</sup> Ymddengys i Risiart ymgartrefu ym Mhen-llin, ond yn Llandudwg y trigai ei fab hynaf Siôn Twrbil Gloff,<sup>14</sup> a chadarnheir yn ll. 70 mai Llandudwg oedd cartref ei dad pan ganwyd y gerdd hon. Yno hefyd yr aeth Lewys Glyn Cothi i'w foli.<sup>15</sup>

Nid cerdd ofyn gyffredin mo hon. Y mae'n cychwyn drwy ganu clodydd Rhisiart Twrbil yn y dull arferol fel milwr yn Lloegr ac fel un sy'n cynnal cyfraith a threfn yn ei wlad ei hun. Yna ceir llinellau sy'n adleisio'r canu brud wrth gyfeirio at yr haf hinfelyd ac arwyddion dydd y Farn gan ddarogan gwae i bob lleidr: *Llyma'r byd: cynllwyn / A lleidr ym mhob llwyn; / Ef a ddaw Mab y Forwyn / Â hyn i wared* (llau. 33–6). Ceir darlun tebyg o gamreol ac anfoesoldeb yng nghywydd Lewys Glyn Cothi sy'n galw ar i saint Cymru adfer trefn i'r wlad: *Gofal drwy'r byd a gafad, meddai, ond Myn f' Arglwydd, llyma'r flwyddyn / a'r haf y dinystrir hyn*.<sup>16</sup>

Troir wedyn at un o ffigurau canolog y canu darogan, sef Myrddin Amhorfryn a fu'n byw yn wyllt yng Nghoed Celyddon wedi iddo gollu ei arglwydd Gwenddolau ym mrwydr Arfderydd. Ceir gan y Nant amrywiad diddorol ar chwedl Myrddin Wyllt a'i chwaer Gwenddydd, sy'n sôn am wlad yr India, am Gaer Brydain ac am Fyrddin yn claddu ei ddillad yng Nghoed Celyddon. Ymddengys ei fod yn adleisio fersiwn o'r chwedl a oedd yn cylchredeg ar lafar, gan nad hawdd yw cysoni'r elfennau hyn â'r chwedl wreiddiol nac â'r datblygiad ohoni yng ngwaith Sieffre o Fynwy ac yn y chwedlau cyfandirol, nac ychwaith â chyfeiriadau niferus y beirdd at chwedl Myrddin. Annisgwyl hefyd yw fod Myrddin yn cynrychioli'r noddwr yn y gerdd hon, gyda Choed Celyddon yn drosiad am y cartref yn Llandudwg y mae'r Nant yn ymweld ag ef. Y bardd ei hun a gyffelybir i Fyrddin gan y Cywyddwyr fel rheol, gan gymharu hiraeth marwnadwr am ei noddwr â

<sup>9</sup> GLGC cerdd 105.

<sup>10</sup> GLI cerdd 28.

<sup>11</sup> Gwilym Tew: Gw 479–81

<sup>12</sup> GHS 11.30.

<sup>13</sup> Gw. WG1 'Turberville' 2; GHS 167. Ynghylch cysylltiad y teulu â Phen-llin, gw. ymhellach y nodyn cefndir i gywydd Lewys Morgannwg i wŷr Rhisiart Twrbil, Crystor Twrbil o Ben-llin, GLMorg cerdd 16.

<sup>14</sup> Gw. WG2 'Turberville' 2A.

<sup>15</sup> GLGC 105.1–2.

<sup>16</sup> *Ib.* 7.1–8.

hiraeth Myrddin Wyllt am Wenddolau, neu artaith y bardd serch â phoen Myrddin ar bawl yng Nghoed Celyddon, a chan uniaethu ar dro y ddawn farddol â huodledd a dysg Myrddin y bardd a'r proffwyd.<sup>17</sup>

O linell 77 ymlaen, y mae'r Nant o'r diwedd yn cyflwyno'r cais am y ddwbled. Honna, nid am y tro cyntaf, i ladron—gwŷr Elfed yn yr achos hwn—ddwyn ei wisg oddi amdano, ac mae'n atgoffa Rhisiart am haelioni noddwr arall a roes ddwbled iddo yn y gorffennol, sef Rhys ap Llywelyn ap Gwilym o Ystradfellte, cefnder ei wraig (gw. cerdd 2). Cawn ddarlun gogleisiol ohono wrth iddo edrych ymlaen at ei ddangos ei hun yn ei ddwbled newydd yn ôl ym Mrycheiniog, a daw'r gerdd i ben drwy foli plant a gwraig y noddwr oherwydd eu gwehelyth a'u haelioni.

Yn wahanol i'r cerddi eraill, ceir dau fersiwn o'r gerdd hon yn Pen 54, i: fersiwn A (tt. 413–18) a fersiwn B (tt. 440–4). Seiliwyd y golygiad ar y testun hwyaf, sef fersiwn A, gan gymryd rhai darlleniadau a llinellau ychwanegol o fersiwn B lle bo'r testun arall yn ddiffygiol. Rhestrir amrywiadau fersiwn B yn dilyn y testun golygedig ac fe'u trafodir yn y nodiadau isod. Nodir hefyd drefn y llinellau, sy'n amrywio rhywfaint rhwng y ddau fersiwn. Y prif wahaniaeth rhwng y ddau destun yw fod llinellau 49–76, sy'n cynnwys y cyfeiriad at chwedl Myrddin, yn eisiau yn fersiwn B.

1 **cwrner** Ffurf ar *crwner*, swyddog sir neu ranbarth a oedd yn gyfrifol gynt am gynnal a diogelu hawliau'r goron ar ei heiddo (< S.C. *crowner* 'coroner'), gw. GPC 615 d.g. *crwner*<sup>1</sup>, *crowner*, *cwrner*. Fersiwn A *cwrer*.

4 Fersiwn B *I leih[a]u fy s[y]ched*.

6 **Llandudwg** Gw. 1.22n. Cyfeirir at ddygwyl Dudwg yn ll. 110.

7 **Gwenllŷwg** Gwynlliwiog yn wreiddiol, sef tir Gwynlliw mab Glywys, a roes y ffurfiau cyffredin Gwynllŷg a Gwaunllŷg, gw. G.O. Pierce, 'The Evidence of Place-names', GCH ii, 456–92 (482). Â'r ffurf arbennig hon, cf. *Gwaunllŷwg* yn GLMorg 31.27, 32.70, a *Gwenllŷg* yn GLGC 104.22.

8 **Caerllion** Caerllion ar Wysg; cf. 13.43.

9 **Dwywent** Gwent Is Coed a Gwent Uwch Coed, gw. WATU 81.

10 **Teirgwent** Gwent Ganol, mae'n debyg, oedd y drydedd ran, gw. nodyn A. Cynfael Lake ar *Teirgwent* yn GLMorg 30.15n. Gw. hefyd GG.net 25.13n.

11 **pedwar elment** Pedair elfen sylfaenol y cread yn ôl syniadaeth yr Oesoedd Canol, sef tir, aer, tân a dŵr; gw. GPC 1204 d.g. *element*, *elment*.

14 **Llangatog** Llangatwg ger Crucywel ym Mrycheiniog (S. *Llangattock*).

<sup>17</sup> Ynghylch cyfeiriadau'r beirdd at chwedl Myrddin Wyllt, gw. TYP<sup>3</sup> 458–62 a nodyn Eurys I. Rowlands yn LICy iv (1956–7), 117–19.

- 15 **Rhos a Phebidiog** Dau gantref yng ngorllewin sir Benfro, gw. WATU 306 a cf. 12.102.
- 16 **Llanbadarn** Llanbadarn Fawr yng ngogledd Ceredigion, efallai, ond cofier am blwyfi Llanbadarn Odwyn a Llanbadarn Trefeglwys yng nghymydau Pennardd ac Anhuniog yng nghanol y sir, gw. WATU 103.
- 17 **Uwch Aeron** Un o dri chantref Ceredigion i'r gogledd o afon Aeron.
- 18 **Tywyn Meirion** Tref Tywyn ym Meirionnydd. Cf. GLGC 16.23–4 *Ei feddiant fal sant y sydd—o'r Deau / i Dywyn Meirionnydd*.
- 19 **Caerlleon** Caerlleon Gawr (Chester).
- 25 **gwlad Iestyn** Iestyn ap Gwrgant, tywysog Morgannwg (*fl.* 1083–93), gw. WG1 'Iestyn' 1.
- 28+ Ceir pedair ll. ychwanegol yn fersiwn A a llinell drwyddynt: *Dros ymladd yn gadarn / Ar lawr gwlad Forgan / Aeth ei ddart yn deiran / Heb ormodd ymdaeru*.
- 30 **gwlad Gamber** Sef Cymru, cf., e.e., GLGC 16.78. Un o dri mab Brutus oedd Camber, ac yn ôl y Brut fe rannwyd Ynys Prydain rhyngddo ef a'i frodyr Locrinus ac Albanactus. I Gamber y rhoddyd y tir y tu draw i afon Hafren, ac enwyd y wlad yn Gymru ar ei ôl, gw. RB 60; WCD 97.
- 31 **lladron lleder** Naill ai lladron sy'n dwyn lledr neu rai gwydn fel lledr, cf. CDG 31.86 *lleidrddyn ledreddyrn* 'lleidr â dyrnau fel lledr'.
- 32 **llidiat** Dyma'r ffurf yn y ddau fersiwn. Daw *llidia(r)t* o'r H.S. *hlidgeat*, gw. GPC 2175.
- 33 **cynllwyn** Gwedda'r ystyr 'rhagod, *ambush*' yn y cyd-destun, gw. GPC 793.
- 38 **cerdda** Darlleniad fersiwn B. Fersiwn A *cwrdda*, ond *cwrdd* yw'r ffurf 3 un.pres.myn. a 1567 yw dyddiad yr engh. gynharaf o'r f. a ddyfynnir yn GPC 647.
- 40 **rhynnos** Noson rynnlyd. Gellid *ar y nos* (fersiwn A *arynos*, B *aryns*).
- 44 **ysgeiredd** Y mae *ysgair* yn ffurf ddilys ar *esgair* 'coes', gw. GPC 1242, ond gellid *esgeiredd* gan fod y yn aml yn cynrychioli *e* (neu *a*) yn orgraff y copïydd.
- 45 **haf hîrfelyn** Un o arwyddion traddodiadol y brudiau. Am enghrau. o'r ymadrodd yn y canu darogan, gw. mynegai GDLI, td. 219; EVW 166, 187.
- 46 **undyn** Darlleniad fersiwn B; A *vnyyn*. Cf. llau. 55 a 64.
- 50 **dyfawd** Ffurf wneud er mwyn yr odl; cf. GDLI 35.27 *Pob rhawd yn dyfawd i dir*.
- 53 **Myrddin Amhorfryn** Yn ôl y chwedl am Fyrddin Wyllt a leolir yn yr Hen Ogledd, colodd Myrddin ap Morfryn ei bwyll yn dilyn brwydr

Arfderydd lle y lladdwyd ei arglwydd Gwenddolau, fe ymddengys, gan fyddin Rhydderch Hael. Dihangodd i Goed Celyddon lle nad oedd neb yn ymweld ag ef ond ei chwaer Gwenddydd. Diau mai ati hi y cyfeirir yn ll. 57; cyfeiria'r beirdd yn aml at y wledd a gafodd Myrddin gyda Gwenddydd yng Nghoed Celyddon. Gw. TYP<sup>3</sup> 458–62; A.O.H. Jarman, 'Early Stages in the Development of the Myrddin Legend', AH 326–49. Cyfeirir at Fyrddin eto yn 11.101 a 12.59. Tynnwyd llinell drwy'r ll. hon yn y llsg.; felly hefyd lau. 64 a 65.

54 **cywira' dyn** Cyfeirir at ddigwyddiad penodol yn ymwneud â Myrddin, ond tybed a oes yma adlais o'r triawd sy'n disgrifio llu Gwenddolau fel un o 'Dri Diwair [Ffyddlon] Deulu Ynys Prydain' am iddynt barhau i ymladd am bythefnos a mis wedi lladd eu harglwydd? Gw. TYP<sup>3</sup> 62.

56 **gwlad yr India** Y mae arwyddocâd y cyfeiriad hwn yn dywyll.

58 **hengaer Brydain** Cyfeiriad tywyll arall. Un posibilrwydd yw mai llys Rhydderch Hael a olygir. Ym Muchedd Sant Columba o ddiwedd y 7g., cyfeirir at Rydderch Hael *qui in petra Cloithe regnavit*, sef craig Clyd neu Dumbarton yn Ystrad Clyd, h.y. Dun Breatann, Caer y Brythoniaid, gw. TYP<sup>3</sup> 493. Fel y dywed Rachel Bromwich, *ib.* 494, ni ddywedir yn bendant yn yr un ffynhonnell gynnar fod Rhydderch yn bresennol ym mrwydr Arfderydd. Yn ôl fersiwn creadigol Sieffre o Fynwy o chwedl Myrddin Wyllt yn ei *Vita Merlini*, bu i'r brenin-broffwyd Myrddin ymladd gyda Rhydderch Hael a Pheredur, brenin gogledd Cymru, yn erbyn Gwenddolau, brenin yr Alban, ac yr oedd Ganiada, chwaer Myrddin, yn wraig i Rydderch; gw. B. Clarke, *Life of Merlin* (Cardiff, 1973), 52–4.

59–60 Cf. 12.95–6 *A phob cythrel yn llefain / Gan faint y llafur.*

62 **brenin** Os Myrddin a olygir, cf. GDL1 10.5 *O wawd Merddin frenhinol*. Yn ôl Brut Sieffre o Fynwy, yr oedd mam Myrddin Emrys yn ferch i frenin Dyfed (gw. BD 101) ac yn ôl ei *Vita Merlini* diweddarach, brenin de Cymru oedd Myrddin. Ceir llythyren anodd ei darllen (wedi ei dileu?) o flaen *cwych*.

**carw** Ai'r trosiad cyffredin am arglwydd neu bendefig? Cf. 12.57–8 *Am y carw eurlin / O gorff y brenin*, a 4.46. Yn y *Vita Merlini* disgrifir Myrddin, sy'n trigo ymhlith anifeiliaid gwylltion yng Nghoed Celyddon fel y mae yn y farddoniaeth gynnar sy'n ymwneud â chwedl Myrddin Wyllt, yn teithio ar gefn carw ac yn gyrru rhes o geirw a geifr o'i flaen, gw. B. Clarke, *op.cit.* 74–6. Cf. GRhGE 11.13–16 *Merddin, bu dewin bob dydd, / A fu'n cadw o fewn coedydd / Rhawd o westfiledd yn rhydd, / Frodiau gwynddull, frawd Gwenddydd ...* Awgryma'r odl mai deusill yw *carw*, *garw* a *derw* (cf. 15.2n isod). Gall fod yma odl broest: *erw / arw*, ond sylwer nad oes yr un engh. arall o dair odl acennog. Ceir odl debyg mewn llau. ar yr un mesur o waith Dafydd Llwyd o Frycheiniog:

Peniarth 67 III.88–91 *o bv hen karw / nac vchel eirw / o bv i r derw / ni bom i heb yn dvrawdr.*

- 63 **pyrnhawngwaith** Llsgr. *brnhawncwaidd*; gw. 15.10n ar *pyrnhawn*.
- 65 **trwsiadion** Ffurf annisgwyl (er mwyn yr odl?); *-au* ac *-oedd* yw'r unig derfyniadau ll. a nodir yn GPC 3628.
- 66 **Coed Celyddon** Yr oedd y goedwig rywle ar wastadeddau gorllewinol yr Alban, gw. B. Clarke, 'Calidon and the Caledonian Forest', B xxiii (1968–70), 191–201.
- 68 **Lasar** Naill ai'r Lasarus a atgyfodwyd gan Grist o farw i fyw, gw. Io 11.1–46, neu'r cardotyn yn nameg Lasarus a Dives a ddaeth yn nawddsant i'r gwahanglwyfus, gw. Luc 16.19–31 a cf. GLGC 112.29n.
- 71 **hudwg** 'Bwgan, bwbach, bwci, bwgan brain', gw. GPC 1908 d.g. *hudwg*, *hwdwg*, *hydwg*. Y mae hon yn gynharach na'r engh. gyntaf a nodir, o waith Wiliam Cynwal. Gall mai amr. arno yw'r ffurfiau *hugwd* a *hwgwd*, gw. *ib.* 1909 a cf. GIG XXXVI.98 *Hersdin hwgwd Hogl*.
- 73 **croywgoch** Llsgr. *cyrowcoch*. Cf. GDB 12.2 *Croywgoch gwayw o'th adaf*, ond o gofio'r pwyslais ar huodledd proffwydol Myrddin Wylt, tybed na ddylid diwygio i *groywgroch*?
- 75 Gellid *A'r cwrser*.
- 79–80 Fersiwn B *I gudd[i]o'r croen a'r gleder / Y ddwbled lydan*.
- 81 **erdduniant** Amr. ar *ardduniant* 'parch, anrhydedd', gw. GPC 1231.
- 82 **Caradog Sant** Sant a hanai o Frycheinog, gw. LBS ii, 75–8.
- 83 **simant** O'r S. *cement*, yn cyfeirio yma, mae'n debyg, at sylwedd a ddefnyddid i lenwi tyllau mewn dannedd, gw. GPC 3308 d.g. *smant*, *simant*, *simént*; enghrau. OED Online o'r ystyr hon o 1489 ymlaen. Cf. GLGC 182.41n ar *Simant fegis croes owmal*, a GL1 5.39–40 *Merch a'i hanfones â'i mant*, / *Mwy les ym, mêl a simant* (am gusan).
- 86 **pais Arthur** Cyfeirir, efallai, at un o Dri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain, TYP<sup>3</sup> 259: *Llen Arthür (yng Nghernyw): a fai deni, nis gwelai neb ef, ag ef a welai bawb*; cf. CO<sup>3</sup> 6, lle y mae Arthur yn enwi ei len ymhlith y meddiannau hynny na roddai'n 'gyfarws', a BRh 11. Cf. hefyd gywydd serch o waith Gutun Owain, GO VI.25–6 *Oer na chaid, rhac ofn a chvr, / Llwyn o wyrthie llen Arthvr*. Gw. ymhellach Eurys I. Rowlands, 'Y Tri Thlws ar Ddeg', LICy v (1958–9), 33–69 (53–4).
- 88 Fersiwn B *ym [m]ôn pob cesail*.
- 90 **ne** Y ffurf *ne* yn hytrach na *neu* a geir gan y Nant, cf. 5.7, 8.80. Nodir dwy engh. yn GPC 2575 d.g. *neu*<sup>1</sup>.
- 91 **Dafydd** Enw'r bardd, fe ymddengys (fersiwn B *I Ddafydd*).
- 92 **gardd gorddi** Nid yw'r ystyr yn eglur, ond cf. Ieuan Gethin yn ei awdl

farwnad i'w ferch, GyB 84 (llau. 65–6) *Drwg fydd ar les bardd mewn gardd gorddi / a gwayw i galon, ddugoeg weli ...*, a gyfieithir: 'It is bad for a poet to spend his time brooding in a garden / with a pang in his heart, bad black wound ...'

94–6 Fersiwn B *Wisgo croen crechydd / Fegis ystlummydd / A fai wedi [y]stlomi*. Ni restrir *ystlummydd* yn GPC. 1547 yw dyddiad yr engh. gynharaf a ddyfynnir o'r f. *ystlomi* 'cachu', *ib.* 3863.

94 **nawmlwydd** Fersiwn A *cyroenywlwmw*. Fe all fod yn wall am [*yjwmwlbwlydd*]; *bwlwyddyn* a ysgrifennwyd yn 14.94, 95. Cf. 9.21–3 *Nid syw i arglwydd / Roddi gŵn dwyflwydd, / Na rhoddi gŵn teirblwydd ...* Y mae'r odl yn afreolaidd, ond nid yw hynny'n anghyffredin yng nghanu'r Nant; cf., e.e., yr odl *-ŵys / -ys* yn 8.9–11.

95 **crechydd** Fersiwn A *rechydd*, ffurf nas rhestrir yn GPC. Y mae'n debyg mai *crechydd* (a geir yn ll. flaenorol y fersiwn arall) a fwriadwyd, sef 'crychydd, crëyr', gair a ddefnyddir yn ddiffriol weithiau am ddyn tenau, cam. Gw. GPC 620 d.g. *crychydd, crechydd*, a sylwer ar y ddwy engh. o'r 15g: *Troetgul ywr prol mywn cringarp crechydd; rrwymyn krach rumen krechydd*.

96 **comache** Fersiwn A *comach[.]*. Y mae diwedd y gair yn anodd ei ddarllen, ond ymddengys mai ll. *gomach* 'coes, hegl, garan' sydd yma, gw. GPC 1458. Os felly, rhaid fod y gytsain gyntaf wedi ei chaledu gan mai *omache* a ddisgwylid. Tybed nad darlun sydd yma o grëyr yn sychu ei goesau yn yr haul, sydd fel coesau noethion y bardd yn ei hen groen nawmlwydd? Cf. disgrifiad y Nant yn 10.93–6 ohono'i hun yn dysgu hedfan ag wyneb tylluan yn ei glogyn newydd.

97 **Rhys ap Llywelyn ap Gwilym** Cefnder i wraig Rhisiart, Margred ferch Siôn o Lyn-nedd; gw. nodyn cefndir cerdd 2, sef cerdd yn gofyn dwbled ganddo. Efallai mai at yr achlysur hwnnw y cyfeirir yma.

98 **Edlym** Gw. 6.47n.

99 **Cynfelyn** Cynfelyn Sant, mae'n debyg, nawddsant Llangynfelyn yng ngogledd Ceredigion, gw. LBS ii, 243–4. Cyffredin yw cysylltu dilledyn â sant arbennig, cf. uchod ll. 82 *pais Caradog Sant*. Y ffurf *cynfelym* a geir yn y ddau fersiwn; cf. y sillafiad *mehefim* am *Mehefin* yn 2.27 (odl *-im*). Gellid odl acennog *ym* (imi), ond byddai hynny'n drysu'r gynghanedd ac nid yw *cynfel* yn ffurf hysbys.

100 Fersiwn B *Yn amgarn i'm bola*.

101 **Elfed** Cwmwd yng Nghantref Gwarthaf yn sir Gaerfyrddin, sef ardal Cynwyl Elfed.

102 **wrsted** O'r S. *worsted*, math o frethyn wedi ei wneud o wllan ffibr hir wedi ei gribo, gw. GPC 3738 d.g. *wstid, wrstid*. Y mae'r engh. hon yn gynharach na'r ffurfiau a ddyfynnir yno; cofnodir *wrsted* fel amr. ac



wrtho'r dyddiad 1870. Fersiwn B *Â'm dwbled o wrsted*.

- 105 **a rydd** *ardd* yw darlleniad y ddau fersiwn.
- 107 **saled** Ffurf ar *saeled*, sef math o helm ysgafn, gw. GPC 3156 a cf. 3.55 *saelede*.
- 108 **Sain Silin** Nawddsant Llansilin yng Nghynllaith; yr oedd ei wyl ar 1 Medi, gw. LBS iv, 203. Cyfeirir ato yn 4.77, 10.45 a 13.24.
- 109–12 Yn fersiwn B yn unig y ceir y llau. hyn. Fe'u hychwanegwyd ar ymyl y ddalen.
- 110 **Tudwg** Ar 9 Mai, efallai, yr oedd dygwyl nawddsant Llandudwg ym Morgannwg, gw. LBS iv, 275–6.
- 111 **A'r gloria o'r golwg** Llsg. *arcyloracolwc*. Diwygiad petrus, ond rhydd *cloria* 'tin' ystyr addas. Go brin mai *clora*, *cylora* 'casglu neu gloddio am gnau daear' sydd yma, gw. GPC 507.
- 112 **bugelydd** Ll. *bugail*, gw. GPC 347.
- 113 **sbaere** Ni restrir *sbaer* yn GPC. Daw, mae'n debyg, o'r S.C. *spare* 'an opening or slit in a gown, robe', &c., gw. OED Online d.g. *spare*, n.<sup>2</sup> (enghrau. o'r 14g. ymlaen).
- 115–16 Fersiwn B *I ddangos ff[y] mreiche / I [h]oll wlad Frychan*.
- 116 **gwlad Frychan** Brycheiniog. Brychan Brycheiniog, y sant o'r 5g., a roes ei enw i'r deyrnas, gw. TYP<sup>3</sup> 294–5. Dilëwyd *yyddancosbaisfyrcha<sup>e</sup>n* cyn y ll. hon.
- 117–20 Dyma lau. clo fersiwn B.
- 117 Fersiwn B *Mi a rof* ...
- 118 Fersiwn B *Cyamled â'r* ...
- 120 Dilëwyd *amyddwbletlytan* ac ychwanegwyd y ll. hon ar ymyl y ddalen. Fersiwn B *Na wi[s]gwn y ble[ ]*.
- 121 **planed** Gw. 5.29n.
- 122 **mae iddo** *maeidd* a geir yn y ddau fersiwn.
- 124 Y mae fersiwn B yn rhagori yma: *ais* a rydd fersiwn A.
- 125–36 Ychwanegwyd y llau. hyn ar ôl y priodoliad yn fersiwn A, gyda phriodoliad arall yn eu dilyn. Yn fersiwn B ceir amrywiad arnynt rhwng llau. 124 a 137.
- 125 **Rhys ap Siancyn** Gw. y nodyn cefndir.
- 128 **melan** Gw. 13.34n. Fersiwn B *Cylch arfe melan*.
- 129 **y Dyrlwyn** Mewn dogfen brydles o 1705, ceir *Dyrlwyn* yn e. lle naill ai ym mhlwyf Ystradfellte neu Benderyn yn y Cantref Mawr ym Mrycheiniog, LIGC 'Briton Ferry', rhif 61. Cyfeirir, mae'n debyg, at linach gwraig Rhisiart, Margred, ar ochr ei mam, a gysylltir â'r ardal

- honno, gw. WG1 'Bleddyn ap Maenyrch' 6 a cf. ll. 137 isod. Dylid cofio hefyd fod gan Risiart ei hun gysylltiadau teuluol â Brycheiniog ac mae'n bosibl ei fod yn dal tir yno, gw. GL1 237. *Gown gwyn i Forgannwg yw, / A gwydr Brycheiniog ydyw*, medd Llawdden amdano (*ib.* 28.17–18), a cf. GLGC 105.11.
- 130 **Collwyn** Fel nifer o deuluoedd Morgannwg, olrheiniai teulu Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd ei ach hyd at Einion ap Collwyn ap Tangno (cf. y nodyn nesaf), a ymfudodd o Wynedd i Flaenau Morgannwg adeg y goresgyniad Normanaidd; gw. WG1 'Einion ap Gollwyn' 1; TLIM 34–5, 184–9.
- 131–2 Fersiwn B *O Einion ap Collwyn / Hyd yn [N]olgello*.
- 133–6 Fersiwn B *M[e]rch Siôn gadarn / Â'r siaced haearn, / Pwywr Sais y sucan / Â'i fwyell a'i soced*.
- 133 **merch Siôn** Margred ferch Siôn ap Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd, gw. y nodyn cefndir; a cf. 1.93.
- 134 y **Fan** Cf. 2.22 *Tu yma i'r Banne*. Naill ai'r Fan Fawr neu Ben y Fan, mae'n debyg; cf. GL1 18.52 *O'r Fan hyd ar Y Fenni* ('Moliant Brycheiniog'), a'r enghrau. a restrir yn GLGC.
- 135 **penbres** 'Croyw (ei leferydd), uchel ei gloch, croch' (*pen + pres*) yw'r ystyr a rydd GPC 2732, a'r engh. gynharaf o'r 16g. Y mae iddo rym e. yma.
- 136 Ceir yr un ll. yn 8.108.
- 137 **Brycheinog** Cyfeiriad at dras Margred ar ochr ei mam, gw. y nodyn cefndir.
- 138 **Glyn-nedd** Yn Aberpergwm yng Nglyn-nedd y magwyd Margred, gw. nodiadau cefndir y gerdd hon a cherdd 1.
- 142 **eneddl** Dyma'r ffurf yn fersiwn A (*chenetddl*), gw. GPC 461 d.g. *enedl, cenedl*. Fersiwn B *Ei chenedl na'i rhif*.
- 143 **eirif** 'Rhif, rhifedi, nifer', gw. GPC 1196 a cf. *aneirif* 'dirifedi'. Fersiwn A *n<sup>h</sup> [h]ecwmnacirif*; B *naetecwmnaceirif*.
- 147 **Alecsander** Alecsander Fawr, brenin Macedonia, 356–323 C.C. Am gyfeiriadau eraill ato yn y farddoniaeth, gw. G 19, GRhGE 9.43n. Llsg. *elvcsanter*.
- 148 **môr Sandwis** Môr Udd. Yr oedd Sandwich yng Nghaint yn borthladd pwysig yn yr Oesoedd Canol, cf. GLGC 96.48n. Llsg. *satwis*. Dilëwyd [...]*itwntwr* ac ychwanegwyd y ll. hon ar waelod y ddalen.
- 151 **A'r cwrner nid caled** A *arcwrnerntcaet*; B *arcwrn[.]ytcalet*.

## 8

Yr oedd Tomas ap Siancyn ap Gilbert Twrbil yn frawd i Risiart Twrbil o Landudwg yr erchir dwbled ganddo yng ngherdd 7.<sup>1</sup> Nodir yn yr achau mai yn Llanilltud Fawr y trigai,<sup>2</sup> ac mae'r cyfeiriad at Lanilltud yn llinell 94 yn cadarnhau hynny. Awgryma'r llinellau agoriadol ei fod yn ymwneud â'r gyfraith. Cyfeiria'r Nant at haelioni Tomas ac at ei lys croesawgar yng ngherdd 9 isod, gan ddwyn i gof ŵn a dderbyniodd yn rhodd ganddo wedi i ladron ei ddinoethi. Disgrifir rhoddwr y gaseg, Siôn ap Gwilym Fychan, fel *Mab uchelwr glân* ac fel *Edling urddedig / O had bonheddig* (llau. 50–4), ond heb fwy o wybodaeth am ei gartref a'i ach y mae'n anodd gwybod pwy ydyw. Efallai fod awgrym yn y geiriau *Nis archai i gas* (ll. 66) fod Siôn yn gâr neu'n berthynas i Domas Twrbil. Fel y sylwodd Bleddyn Owen Huws, dengys y canu gofyn a diolch y byddai'r uchelwyr yn erchi rhoddion naill ai gan berthnasau neu gyfeillion;<sup>3</sup> y mae'r eirchiad yng ngherdd 3, er enghraifft, yn nai i'r rhoddwr.

Yn y cywyddau hynny o'r cyfnod c.1350–c.1500 sy'n gofyn ac yn diolch am anifeiliaid, ceffylau yw'r rhodd fwyaf cyffredin. Yn wir, ceffylau, yn feirch yn bennaf, yn gesig ac ebolion hefyd, yw testun dros 20% o holl gywyddau gofyn a diolch y cyfnod.<sup>4</sup> Er na cheir gan y Nant fawr o'r delweddu ffansiol sy'n nodweddu cywyddau dyfalu ei gyfoeswyr, y mae ei ddisgrifiad yntau o'r gaseg yn fanwl a bywiog. Nodwedd amlwg ar y gerdd yw'r cymariaethau llawn gormodiaith a welir hefyd wrth iddo ddyfalu'r gist yng ngherdd 4. Y mae'r gaseg *Cyn gyfled ei bontin / Â chastell Penllin* (llau. 21–2), *Ac yn gyd ei chynffon / Â heol Cynffig* (llau. 31–2). Dyma gyfeiriadau lleol a fuasai'n debyg o godi gwên pan ddatganwyd y gerdd. Ar wahân i ddisgrifio'r gaseg epilgar, canmolir y rhoddwr, Siôn ap Gwilym Fychan, yn rhinwedd ei fonedd, ei filwriaeth a'i haelioni. Cymharol brin yw'r mawl uniongyrchol i Domas Twrbil, ond gelwir ar Siôn i elwa ar ei haelioni yntau drwy geisio rhodd ganddo yn gyfnod am y gaseg: *Arched Siôn i Domas / Ych penfrith bras, / Na'i farch dulas / Ne ddau ystalwyn* (llau. 77–80). Ac yn olaf, yn gyfnod am haelioni Siôn, boed i Dduw ei wobrwyo ag oes hir a chyfoeth a digon o gesig.

3 **lyfyr** Cf. ll. 59, 10.28, ac yn arbennig 14.58 lle y mae'r y ymwithiol yn anghrheidiol ar gyfer yr odl.

**sifil** Cyfraith sifil; cf. GLGC 105.59–60 *a dwyoes hefyd i gadw sifil / i'r*

<sup>1</sup> Gw. nodyn cefndir cerdd 7 am ei gysylltiadau teuluol. Am ach Tomas ap Siancyn, gw. WG1 'Turberville' 2 ac WG2 'Turberville' 2B.

<sup>2</sup> WG2 *l.c.*

<sup>3</sup> CGD 139.

<sup>4</sup> Gw. *ib.* 66 a Bleddyn Owen Huws, "Praise lasts longer than a horse": Poems of Request and Thanks for Horses' yn *The Horse in Celtic Culture: Medieval Welsh Perspectives*, ed. Sioned Davies & Nerys Ann Jones (Cardiff, 1997), 141–61.

- tarw byw arfog o'r Twrberfil* ('Moliant Rhisiart Twrberfil'), a gw. GPC 3274.
- 5 Tybed na ddylid diwygio i *Sy'n llefain?*  
**gorwyddes** B. *gorwydd* 'ceffyl', cf. ll. 67 isod. Ni restrir y ffurf yn GPC 1506–7 d.g. *gorwydd*<sup>1</sup>.
- 7 **gormes** Yn yr ystyr 'anifail gwancus', mae'n debyg, oni bai ei fod yn enw march.
- 10 **grewys** 'Yn perthyn i re (o feirch a chesig); a gedwir at fagu (am gaseg)', GPC 1530. Y mae'r odl yn afreolaidd gan mai -*wys* yw'r sain.
- 11 **brywys** 'Bywiog, egniol', yn aml am feirch. Ceir y ffurfiau *browys*, *brywys* a *brywus*, gw. GPC 334. Cymerir mai gwall am *frywys* neu *frywys* yw *fyrwys*; cf. *frywydd* am *friwydd* yn y ll. nesaf.
- 21 *Cyflod* a ddisgwylid yn hytrach na *cyn gyflod*, cf., e.e., 4.103. Tybed nad oes a ar goll: [*a*]c yn *gyflod* ...?
- 22 **Penllin** Plwyf ryw bedair milltir i'r gogledd o Lanilltud Fawr, gw. WATU 174, 279; y mae'r castell Normanaidd yn dyddio o'r 12g. Yr oedd gan y Twrbiliaid gysylltiadau â'r fro drwy briodas, gw. nodyn cefndir cerdd 7. Byddai'r ffurf fwy cyffredin bellach, Pen-llin, yn bosibl hefyd.
- 23 **melin** Gw. 2.73n.
- 26 **cluste ewig** Llsgr. *cvsewic*. Cymerir bod yma ailadrodd gair o'r ll. flaenorol.
- 27 **pennyg** Llsgr. *fenic*, a sylwer ar yr engh. â'r odl -*ig* a ddyfynnir yn GPC 2756. O'r ystyron a gynigir yno, 'coluddion, perfedd ...; bol ... *belly*, *paunch*', yr ail sy'n gweddu yma. Llai tebygol yw *pennig* 'teth', gw. *ib.* 2754 d.g. *pennig*<sup>1</sup>, a'r engh. gynharaf mor ddiweddar â 1707.
- 28 **A hithe ffynnodd** Llsgr. *afyiddefynodd* neu *aftyiddefynodd* a'r *af / aft* wedi ei ychwanegu cyn dechrau'r ll.; ond mae'n bosibl hefyd mai *h* sy'n dilyn y llythyren gyntaf. Cf. enghrau. eraill o'r ymadrodd *A hithe* ... yn 6.79, 83, 99.
- 29 **aelode** Llsgr. *elote*.
- 30 **Iwerddon** Llsgr. *iweron*.
- 32 **Cynffig** Y mae bwrdeistref Cynffig ryw bedair milltir i'r gogledd-orllewin o Landudwg, gw. WATU 97, 279. Cyfeiria *heol Cynffig* at yr hen ffordd Rufeinig neu, yn fwy tebygol efallai, at yr 'Heol Fawr' drwy'r Pil a agorwyd yn y 15g., neu ynteu at yr 'Heol Fach' fel y'i gelwid, a gysylltai Stormy Down â thref Cynffig.
- 36 **ymohir** Llsgr. *ymohit*. Diwygiad petrus ar sail y f. *ymohirio*; cf. GPC 1444 d.g. *gohir*, *goir* 'oediad, gohiriad'. Rhoddai 'hwyrfydig' ystyr addas.

- 41 **gwalch** Llsgr. *calch*. Gellid *calch* ‘arfwig’, gw. GPC 391, ond mae’n annhebygol yn y cyd-destun ac nid ymddengys fod yr ystyr honno’n gyffredin erbyn y cyfnod hwn. Mwy tebygol yw mai gwall sydd yma am *gwalch*, cf. *cwcalch* am *gwalch* yn 2.35. Gelwir Siôn yn walch yn ll. 60.
- 42 **A dyr gwayw’n gandryll** Llsgr. *atyrcaewncanddyll*.
- 43 **estyll** Llsgr. *esyll*. Rhydd y diwygiadau i lau. 43–4 drawiad cynganeddol cryf, ond nid yw ystyr y ll. hon yn gwbl eglur.
- 44 **pastwn** Llsgr. *baswn*; annhebygol yw *baswn* ‘cawg’ (engh. yn GPC 263 c.1590). Cf. 3.20 *A ddrylliai cant pastwm* (llsgr. *baswm*).
- 45 **pwyl** Llsgr. *bwyn*.
- 49 **Gwilym Fychan** Llsgr. *cwimfychaan*.
- 54 **O had bonheddig** Llsgr. *ohabyneddig*.
- 55 **a dyr gwayw** Llsgr. *atyrwaew*. Ni ddisgwyliid treiglo’r gwrth. yma; cf., e.e., ll. 42 *A dyr gwayw* ...
- 56 **asen** Yn yr ystyr ‘bar’, yn ffig. am arf, cf. GLGC 209.53–4 *ar bob taeog yr hogaf / asen ddur os yno’dd af* (am gleddyf). Arf gwaedlyd, felly.
- 59 **llyfyr y ganon** Llyfr cyfraith neu reolau, yn ffig. am safon neu awdurdod cydnabyddedig. Gw. CDG 75.2n a’r enghrau. eraill a nodir yn GPC 2256 d.g. *llyfr*<sup>1</sup>. Cf. hefyd 15.36, 37 *wrth y ganon*.
- 61 **rhoi gwisg o** Llsgr. *roicwio*. Cf. *cwico* am *gwisgo* yn 2.111.
- 63 **Gwilym Fychan** Llsgr. *cilimfychyn*.
- 67 **danas** Math o garw, *S. fallow deer*, gw. GPC 887.
- 68 **deni** Ffurf 3 un.b. yr ardd. *dan*. Ceir *dan(a)i* a *deni* mewn Cym.C., gw. GPC 3435 d.g. *tan*<sup>1</sup>, *dan*.
- 71 **sibwl** Math o winiwns, *scallions*, *spring onions*, o’r *S. ciboule*, gw. GPC 3267 d.g. *sibol*. I’r 18–19g. y perthyn yr enghrau. cynharaf a ddyfynnir o’r ffurf *sibwl*, a diddorol sylwi ei bod yn hysbys ym Morgannwg. Amr. ar *sibwls* yw *s(h)ibwns*, gw. *ib*. d.g. *sibwns*.
- 76 **gwyl** Ffurf 3 un.pres.myn. *gweld*; gellid *gwyl*, 3 un.pres.myn. *gwylio*.  
**gofud** Ffurf ar *gofid*, a all olygu ‘poen (corfforol)’, gw. GPC 1430. Nid yw ergyd y ll. hon yn gwbl eglur.
- 80 **ne** Gw. 7.90n.  
**ystalwyn** Diwygiwyd *stalwyn* i’r ffurf fwy cyffredin *ystalwyn* er mwyn aceniad y ll.
- 83 Nodweddiadol yw’r anghysonder rhwng y terfyniadau ll. *-on* a *-ion*; cf., e.e., 13.46–7.
- 84 **llydan** Llsgr. *llyan*.

- 86 **angwaneg** Ychwaneg, gw. GPC<sup>2</sup> 162. Llsg. *yncwanec*; *ycnwanec* a ddisgwyliid yn orgraff y copïydd.
- 87 **maneg** ‘Gwain neu fwlf (anifail), llawes goch’, GPC 2340 d.g. *maneg*<sup>1</sup>. Dywedir ei fod ar lafar yn y Gogledd, ond ni restrir enghrau cynnar.
- 88 **Myniw** Mynyw, sef yr hen enw ar Dyddewi. Am enghrau. eraill o’r terfyniad *-iw*, gw. GLGC 671.
- 89 **heldian** Llsg. *heltan*. Nid yw’r ystyr yn gwbl eglur ond cymerir mai ffurf ar *haldian* sydd yma, ‘honcian o’r naill ochr i’r llall, gwegian; ysgwyd, siglo; tuthio, trotian’, o’r S. *halt* neu’r H.S. *h(e)altian*. Gw. GPC 1815 d.g. *haldiaf*; 1567 yw dyddiad yr engh. gynharaf. Rhestrir yr amr. *heldian* yn GPC ond ni nodir enghrau. Cf. yr ymadrodd cysylltiedig *ar ei hald*.
- 94 **Llanilltyd** Llanilltud Fawr, mae’n debyg, yn hytrach na Llanilltud Faerdre neu Lanilltud Nedd sydd hefyd ym Morgannwg, gw. WATU 140. Yno yr oedd cartref Tomas Twrbil, gw. y nodyn cefndir.
- 95 **gweryd** Ffurf l., o bosibl, ar *gward* ‘gwisg o groen tenau sy’n amgylchynu’r plentyn yng nghroth ei fam ac a fwrir allan ar ôl yr enedigaeth, brych, y garw’, gw. GPC 1581–2 d.g. *gward*<sup>1</sup>. I’r 18g. y perthyn yr engh. gynharaf a ddyfynnir o’r ystyr hon, ond nodir ei fod ar lafar ym Morgannwg yn y ffurf *gwarad*. Addas hefyd yn y cyd-destun fuasai *gweryd* yn yr ystyr ‘cylch yr arffed, cesail morddwyd, y werddyr, ffwrch’, gw. GPC 1649 d.g. *gweryd*<sup>2</sup> (1604–7 ymlaen; enghrau. geiriadurol yn unig). Ffurf l. a ddisgwyliid fodd bynnag, ond y mae darlleniad rhan gyntaf y ll. yn ansicr: llsg. *hyronfyddycwryt* gyda’r ail lythyren yn aneglur a’r *f* yn debyg i *h* (fel yr *f* yn *feichoc* yn ll. 92). Gellid *gwryd* yn yr ystyr ‘corff’, gw. GPC 1740 d.g. *gwryd*<sup>1</sup>.
- 96 **A’i chont yn egori** Llsg. *aycontenycori*. Gellid *egori* neu *agori*.
- 99 **Caron** Gw. 5.83n.
- 100 **gadu** Yn yr ystyr ‘gadael yn fyw’. Y mae’n dopos defnyddio *gadu* mewn gweddïau am oes hir i noddwyr; gw. GGMD i, 2.24n ar *Duw o’i adu*.
- 101 **Gwilym** Llsg. *cilm*.
- 103 **Trystan** Yr arwr chwedlonol sy’n enwog am ei garwriaeth ag Epyllt. Cyfeirir hefyd yn achlysurol at ei rinweddau milwrol. Gw. TYP<sup>3</sup> 331–4, WCD 619–21; R. Bromwich, ‘The *Tristan* of the Welsh’, yn R. Bromwich, A.O.H. Jarman, B.F. Roberts (eds.), *The Arthur of the Welsh* (Cardiff, 1991), 209–28. Digwydd yr un ymadrodd, *ail Trystan*, yn 4.71.
- 107 **sirig** Sidan neu ddilledyn sidan, gw. GPC 3292 d.g. *sirig*, *serig*<sup>2</sup>. Diwygiwyd *scric* er mwyn yr ystyr a’r gynghanedd.
- 109 **Arthur** Gw. 3.9n a 7.86n.
- 111 **Peredur** Peredur fab Efrog, un o arwyr y chwedlau Arthuraidd; gw.

TYP<sup>3</sup> 480 am gyfeiriadau'r beirdd ato. Efallai fod ei gysylltiad â meirch yn berthnasol yma, gw. *The Horse in Celtic Culture: Medieval Welsh Perspectives*, ed. Sioned Davies & Nerys Ann Jones (Cardiff, 1997), 48–9, 130. Llsg. *byrevr*.

112 **rhydeg** Cymerir mai *rhydeg* a gynrychiolir gan *yrytec*, yn hytrach nag *i redeg*. Cf. 14.92 *Am eu gyddge rhydeg (amycyddceyrytec)*.

## 9

Fel yr Abad Wiliam y cyferchir y noddwr yn y gerdd hon, a diau fod G.J. Williams yn llygad ei le wrth ei uniaethu ag Abad Corntwn y cyfeirir ato yn 4.92.<sup>1</sup> William Corntoun oedd Abad Margam rhwng Mehefin 1468 a Ionawr 1485 a bu farw yn 1487.<sup>2</sup> Ceir tystiolaeth ei fod yn ŵr diwylliedig a ymddiddorai yn hanes Morgannwg.<sup>3</sup> Hon yw'r gerdd gyntaf a gadwyd i abadau Margam.<sup>4</sup> Canwyd cywydd marwnad i'r Abad Wiliam gan Lewys Glyn Cothi, lle y clodforir ei dduwioldeb, ei haelioni a'i ddysg. Fe'i disgrifir yno fel *eryrwalch o Wrwared*,<sup>5</sup> sy'n awgrymu ei fod yn perthyn i linach Gwrwared ap Gwilym a Gwynfardd Dyfed. Yn ôl y Nant, yr oedd yn perthyn i lwyth Hywel Fychan (ll. 93), ond heb fwy o fanylion achyddol nid yw'n eglur pa Hywel Fychan a olygir. Yr oedd Hywel Fychan ab Ieuan o gantref Cemais yn sir Benfro a aned oddeutu 1400 yn disgyn o Wrwared ap Gwilym,<sup>6</sup> ond nid enwir Wiliam ymhlith ei ddisgynyddion.

Am ŵn drudfawr y gofynnir, y gŵn *Gore fo yn y farchnad* (ll. 18). Yn debyg i'r fantell a erchir yng ngerdd 5, ymddengys mai gwisg o frethyn Gwyddelig ydyw—*O wlân tir Matholwch* (ll. 14)—er y dywedir hefyd mai o wlân Seisnig y'i gwnaed. Y mae'r Nant yn cymharu'r dilledyn â gynau ysblennydd amryw o uchelwyr, rhai a fu'n noddwyr iddo, mae'n debyg, ond mae'n atgoffa'r Abad Wiliam am haelioni un noddwr yn arbennig. Tomas Twrbil yw hwnnw (gw. cerdd 8), ac mae'n sicr y byddai'r abad yn gyfarwydd iawn â theulu'r Twrbiliaid a oedd wedi hen ymsefydlu ym mhlwyf Llandudwg ychydig filltiroedd i'r de-ddwyrain o Abaty Margam. (Y mae'n ddiddorol nodi bod ŵyr i Risiart Twrbil (gw. cerdd 7) wedi priodi â merch o Corntown ger Ewenni yr ochr arall i Landudwg.)<sup>7</sup> Caiff yr abad ei

<sup>1</sup> G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 78, 84.

<sup>2</sup> Gw. David M. Smith (ed.), *The Heads of Religious Houses in England and Wales III, 1377–1540* (Cambridge, 2008), 310; A.L. Evans, *Margam Abbey* (Port Talbot, 1958), 90.

<sup>3</sup> Gw. TLIM 192; WCCR<sup>2</sup> 391.

<sup>4</sup> Gw. G.J. Williams, 'The Welsh Bards and the Abbey of Margam', *Transactions of the Port Talbot Historical Society*, ii (1965), 69–81; Eirian E. Edwards, 'Cartrefi noddwyr y beirdd yn siroedd Morgannwg a Mynwy', LICy xiii (1974–81), 188; ar y canu i abadau Margam, gw. ymhellach NBMM 13–22; CTC cerddi 82–90.

<sup>5</sup> GLGC 108.16.

<sup>6</sup> Gw. WG1 'Gwynfardd' 8.

<sup>7</sup> Gw. WG2 'Turberville' 2A.

gymell i ddilyn esiampl Tomas Twrbil a anrhegodd y Nant â gŵn nawllath pan ddihangodd am ei fywyd i'w gartref wedi i wŷr Hirfryn yn sir Gaerfyrddin ei ddinoethi. Bu'n ysglyfaeth hefyd, meddai, i wylliaid Cellan a hyd yn oed i wŷr Cyfeiliog ym Mhowys, a chawn hunanbortread digrif o druenus ohono *Fegis hen getyn / Wedy methu'r llygota* (llau. 63–4), ac yn ymlwybro'n glwyfus tua llys y Twrbil ar gefn hen geffyl gwanllyd. Y mae'r gerdd yn cyrraedd uchafbwynt drwy foli lletygarwch yr Abad Wiliam ym Margam, a'i annog i gynnal ei lys dros brif wyliau'r Pasg a'r Nadolig pa un a rydd y gŵn ai peidio!

4 **dyallai** Gw. 1.14n.

7 **Abram** Cyfeiria'r beirdd yn aml at y patriarch beiblaidd; *Abram ben ffydd* ydyw i Lewys Glyn Cothi (GLGC 184.15).

8 **Groeg** Y mae'r ffurf ddeusill *Gröeg* yn bosibl. Gallai gyfeirio at diriogaeth ehangach na gwlad Groeg yn unig, gan gynnwys y Tir Sanctaidd. Cf. GGMD ii, 2.28n, 'Ymddengys mai at y Dwyrain yn gyffredinol y cyfeiria *Groeg* weithiau, neu'n fwy penodol at diriogaeth yr Eglwys Uniongred mewn gwrthgyferbyniad â'r Gorllewin a fu'n deyrngar i Rufain'.

**Ebriw** Israel. Ceir y ffurfiau *Ebryw*, *Ebriw* ac *Ebrew*, gw. GPC 1157.

14 **tir Matholwch** Iwerddon, cf., e.e., GIG XX.119–20 *Tegwch gwlad Fatholwch fu, / Calon Iwerddon orddu*. Matholwch yw brenin Iwerddon yn ail gainc y Mabinogi; arno, gw. TYP<sup>3</sup> 440–1.

20 **awdl** Tybed nad ffurf lafar a gynrychiolir gan *awtwl*?

24 **ffitelblas** *Ffitel* 'ymborth, lluniaeth' (gellid *fitel*, gw. 10.104n) + *plas*: 'plasty sy'n darparu lluniaeth'. Ymddengys mai llwgr yw darlleniad y llsgr., *fiterba*; rhydd y diwygiad petrus hwn gynghanedd rannol (a digon nodweddiadol o ganu'r Nant) â'r ll. flaenorol.

29 **gellir** Llsgr. *elir*, a'r *e* yn aneglur.  
o'r Llsgr. *ar*.

30 **iaffaith** Cymerir mai dyma'r ffurf a gynrychiolir gan *iafaidd*. Fe'i rhestrir yn GPC<sup>2</sup> 109 fel amr. ar *affaith* (unig engh.). Yr ystyr 'dim (o gwbl), mymryn' sy'n gweddu; cf. Aneirin Lewis (gol.), *Gweledigaethu y Bardd Cwsc* (Caerdydd, 1976), 128–9: *Mae gennyh lawer o Swyddogion yn y Dwyrain heb wneud affaith ond eiste 'n lle edrych at boeni ei carcharorion nau cadw chwaith ...*

31 **na** Llsgr. *a*.

**Corneueg** Cernyweg. Ni restrir y ffurf hon yn GPC, ond cf. *Corneuig*, *Corneuad*, *Corneuwr*, *ib*. 563.

31–2 Ymddengys mai amrywiad ar y llau. hyn yw'r ddwy l. a ychwanegwyd



ar ddiwedd y gerdd: *Oni bai cael Ffrangeg / Gyda chnau Ffrengig*. Hynny yw, ni cheir Ffrangeg drwy fwyta cnau Ffrengig mwy nag y ceir Saesneg drwy wisgo gwllân Seisnig. Diau fod hwn yn amgenach darlenniad, ond ni ddilëwyd y llau. gwreiddiol.

32 **megis** Llsg. *meis*.

35 **er mwyn** Llsg. *erm<sup>w</sup>yn*; ychwanegwyd llythyren debyg i *w* uwchben yr *m*.

**porc** Mochyn (ifanc). 1547 yw dyddiad yr engh. gynharaf a restrir yn GPC 2851.

35–6 Nid yw'r gystrawen yn eglur yma; gall fod y testun yn llwgr.

38 **Iorwerth** Gallai fod yn gyfeiriad cellweirus at Iorwerth Fynglwyd, y bardd o Saint-y-brid ym Mro Morgannwg, tua dechrau ei yrfa (*fl. c.*1485–1527). Fel y Nant, canodd Iorwerth ar aelwyd Rhys ap Siôn yn Aberpergwm, gw. GIF cerddi 1–5.

42 **Huw Tarhaearn** Ymddengys mai'r e.prs. *Tarhaearn*, ffurf ar *Trahaearn*, a gynrychiolir gan y sillafiad *tyryarn* (y mae'r odl *-an / -arn* yn gyffredin yng nghanu'r Nant, cf., e.e., 1.43, 62). Am enghrau. eraill o'r ffurf *Tarhaearn* gw. GDEp 20.40 a 21.14. Tybed nad cyfeiriad sydd yma at Hywel Amhadog ap Trahaearn a drigai, mae'n debyg, yn ardal Llanfrynach ger Aberhonddu? Canwyd cywydd marwnad iddo gan Ddafydd Epynt lle y gelwir ef yn *Ŵyr Tarhaearn* (*ib.* 21.14), a pherthynai ei nain i deulu Porthgogof, Ystradfellte a oedd ymhlith noddwyr y Nant (gw. cerddi 2–4). Posibilrwydd arall yw Hywel ap Trahaearn Tew o Lyntawe heb fod ymhell o Ystradfellte, gw. WG2 'Bleddyn ap Maenyrch' 14A, ond ymddengys fod hwnnw yn rhy ddiweddar.

43 **Morgan** Un posibilrwydd yw Morgan Gamais o'r Coety, heb fod ymhell o Fargam, a oedd yn fab yng nghyfraith i Syr Rhosier Fychan o Dretwâr; canwyd marwnad iddo gan Risiart ap Rhys, gw. GRB cerdd 24. Â'r Nant rhagddo i gyfeirio at nawdd Tomas Twrbil a hanai o Landudwg yn yr un cyffiniau. Cofier hefyd mai Morgan oedd enw tad Margred y gofynnir mantell drosti yng ngherdd 5.

44 **ergyd** 'Unwaith'? Gw. 3.112n. Llai tebygol yw [*g*]wn *ergyd*.

46 **Gwallter Hafart** Dichon mai hwn yw'r Gwallter Hafard y ceir llau. o gerdd foliant iddo a briodolir i Ddafydd Epynt, gw. GDEp, At.iii. Fel y dywed Owen Thomas, *ib.* 188, yr oedd Gwallter yn enw cyffredin ymhlith yr Hafardiaid ac ni ellir bod yn gwbl sicr pwy yw'r gwrthrych. Ond yr oedd Gwallter ap Gwilym Hafard yn noddwr hysbys a folwyd gan Ieuan Deulwyn, ac fe ganodd Dafydd Epynt ei hun fawl i'w dad, Wiliam Hafard o Aberbrân i'r gorllewin o Aberhonddu. Posibilrwydd arall yw Gwallter Hafard mab Siancyn Hafard Hen ap Maredudd a

drigai yn yr un cyffiniau ac a farwnadwyd gan Hywel Dafî, gw. Peniarth 67 cerdd XXXIII; ceir golygiad o'r cywydd gan A. Cynfael Lake yn *Gwaith Hywel Dafî* cerdd 30 (i'w gyhoeddi yng 'Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr').

47 **llewpart** Llsgr. *llbart*.

50–1 **Tomas Twrbil / Mab Siancyn Twrberfil** Un o noddwyr y Nant, gw. nodyn cefndir cerdd 8. Defnyddia'r beirdd y ffurfiau *Twrbil* a *Twrberfil* (ac yn llai aml, *Twrbrfil*) gan ddibynnu ar ofynion mydryddol, cf. GHS 11.6n.

52 **mae 'mhorfa** Llsgr. *maemmorfa*. Rhoddai *Mae 'm borfa* gryfach cynghanedd.

54 **barcutan** Barcud bychan (*kite*), gw. GPC<sup>2</sup> 582. Ceir hefyd f. *barcutana* 'segura, ofera', gw. *ib.* (enghrau. diweddar yn unig).

55 **hen lluman** Ynghylch y diffyg treigladd, gw. Treigladau 27–9.

56 **noeth lumun** Am enghrau. o'r amrywiadau *noeth lymun / luman / lumun / lyman*, &c., gw. GPC 2593.

57 **wn nowllath** Llsgr. *wnowelladd*.

59 **frath tryfrath** Cf. yr ymadrodd *gwân trywan* 'trywaniad treiddiol', e.e. CDG 81–2 *Gweywyr, cyfeddachwyr cof, / A â'n wân trywan trwof*; GLILI 26.28.

60 **trefred** Ymhlith yr ystyron a roddir yn GPC 3577 y mae 'annedd ... tŷ (a'r tir o'i gwmpas), tyddyn, tir cyfannedd'. Ai tarw dof, felly? Y mae'n debyg mai dyma'r ffurf a gynrychiolir gan *tyryfret*, ond rhestrir *tryfred* fel amr. geiriadurol a gofnodir yn y 18g. Cf. hefyd *tryfrwyd* 'celfydd, gwyh, addurnedig; ?wedi ei staenio â gwaed; brwydr, gwrthdaro', *ib.* 3640; ceir *dur tryfrwyd* yn 1.45.

61 **Hirfryn** Cwmwd yn y Cantref Bychan yn sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys plwyf Llanymddyfri, gw. WATU 92, 283. I Lanymddyfri yr aeth eiddo'r bardd wedi iddo gael ei ysbeilio gan ladron Llandysul, gw. 14.80.

62 **'y ngyrru** Llsgr. *ycnrv*; gthg. *ycnrv* yn ll. 76 lle y dangosir y treigladd trwynol yn ôl orgraff y copïydd.

**edeifyn** Dyma'r unig engh. o'r ffurf hon a restrir yn GPC 1164 d.g. *edeifyn*.

66 **colt Trwmped** Cynnig petrus iawn: llsgr. *coltrwmbet*. Ni restrir *colt* yn GPC ond rhoddai benthyciad o'r S. *colt* 'ebol' ystyr addas. I'r 16g. y perthyn yr enghrau. cynharaf o *trwmped* yn GPC 3627; *colt rwmbet* yw cynnig G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 85, ond mae'r ystyr yn dywyll. Fel yr awgryma, ymddengys mai enw ceffyl sydd yma.

68 **Cellan** Plwyf yng nghwmwd Mebwynion yn ne Ceredigion, gerllaw

Llanbedr Pont Steffan, gw. WATU 40, 235.

- 71 **du** Ceffyl du; cf. y defnydd enwol o *can* a *gwelwgan* am geffyl, gw. GPC 407, 1628. Ceir Du, Du Hir Tynedig a Du y Moroedd yn enwau ar feirch yn Nhrïoedd y Meirch, gw. TYP<sup>3</sup> 536.
- crecwil** Fel a. yma, ‘gwanlyd, eiddil’, am geffyl, mae’n debyg; fel e. ‘corrach, dyn bychan disylw, eiddilyn’, gw. GPC 585 d.g. *crecwil*, *crechwil* (y mae’r engh. gynharaf a nodir mor ddiweddar ag 1722).
- 74 **corniog** Llsg. *coryoc*; cf., e.e., IGE<sup>2</sup> 290 *Mae’r tai cornogion?* (Siôn Cent). Eb. yw *llys*, cf., e.e., ll. 99 isod.
- 75 **Cyfeiliog** Cwmwd ym Mhowys sy’n cynnwys tref Machynlleth.
- 79 **Elias** *Eli* yw’r ffurf fwyaf cyffredin ar enw’r proffwyd, gw. G 468. Am engh. arall o’r ffurf hon, gw. TA XXVII.101.
- 80 **Galalia** Am enghrau. o’r ffurfiau *Galilea*, *Galalia* a *Galelia*, gw. G 519.
- 81 **gwrthfawr** Amr. ar *gwerthfawr*, gw. GPC 1648.
- 93 **llwyth** Llsg. *llydd*. Cf. 4.41 *Llwyth y Bach ap Gwaithfoed* a 4.45 *Llwyth Tomas ap Dafydd*.
- Hywel Fychan** Nid yw’n eglur pwy a olygir, gw. y nodyn cefndir.
- 94 **sidan** Fel a., ‘llyfn, gloyw’, am wisg yr abad, efallai? Gw. yr enghrau. mewn ystyr a. a ddyfynnir yn GPC 3269, e.e. GLGC 15.69 *Llyma’r frân sidan*. Y mae darlleniad y ll. hon yn ansicr: llsg. *abat vsitan*, gyda bwllch rhwng y *t* a’r *v*. Ymddengys *abaty sidan* yn annhebygol.
- 95 **Cynan** Cynan Meiriadog, mae’n debyg, sef brawd Elen Luyddog yn chwedl ‘Breuddwyd Maccsen’, gw. TYP<sup>3</sup> 320–1. Credid y byddai ef a Chadwaladr yn dychwelyd i adennill sofraniaeth Ynys Prydain i’r Cymry. Llai tebygol yw Cynan Garwyn o Bowys, noddwr Taliesin, gw. TYP<sup>3</sup> 321–2.
- 97 **Ehangwen** Llsg. *eyacnwen*. Neuadd Arthur yn chwedl ‘Culhwch ac Olwen’, gw. CO<sup>3</sup> 10 a G 451 d.g. *ehang*. Cf., e.e., GRhGE 12.39 *Beirdd ymsang fal yn ‘Hangwen*. Awgryma’r gynghanedd mai *Ehangwen* sy’n cwblhau un o’r cwpledi anghyflawn yn y golygiad o gywydd marwnad Lewys Glyn Cothi i’r un abad: GLGC 108.45–6 *Duram ydiw Margam wen / a hi yngod ...*
- 98 **Siôn abad hen** Tybed ai un o ragflaenwyr Wiliam a olygir? Ni wyddys pwy oedd abad Margam rhwng 1460 ac 1468, y flwyddyn y daeth Wiliam yn abad, ond yr oedd gwŷr o’r enw John yn dal y swydd yn 1385 ac yn 1413; gw. *The Heads of Religious Houses in England and Wales, III, 1377–1540*, ed. David M. Smith (Cambridge, 2008), 310. Fe all mai at un o abadau mynachlog Nedd y cyfeirir. Mewn cywydd o waith Ieuan Tew enwir Siôn, abad Nedd, ymhlith y rhai y gofynnir gwartheg ganddynt dros Owain Dwnn. Awgrymir yn NBMM 19–20

- mai'r Abad Siôn y ceir cyfeiriad ato yn 1422 yw hwn, a bwrw iddo ddal yr abadaeth am gryn ysbaid wedi hynny. Mwy tebygol yw Siôn ap Hywel a enwir yn abad yn 1450, gw. David M. Smith, *op.cit.* 314–15.
- 102 **Porth y Cai** Ni welwyd engh. arall o'r e. lle hwn. Tybed a yw'n gysylltiedig â Hafod-y-porth, un o faenorau abaty Margam sy'n cynnwys pentref presennol Taibach, gw. WATU 87?
- 107 **can** Cf. 5.34 *A rô'r gwin a'r can*. Gellid *cân*, fel a geir yng nyfyniad G.J. Williams o'r llau. hyn yn TLIM 116.
- 110 **mererid** Llsg. *myryrit*; gellid *myrerid* (enghrau. yn GPC 2434 o'r 17g.). Ceir *maen mererid Mair* yn drosiad am seren gan Ddafydd ap Gwilym, CDG 50.34.
- 111 **a'th glych** Llsg. *aacylych*.
- 115 **hyd doloch** Gw. 3.23n. Tybed ai 'hyd angau' a olygir yma? Llsg. *ytoloch*; efallai y dylid diwygio i *yn doloch*: yn llawn sw'n a miri? Gw. 6.1n a cf. 10.111–12 *A dechre toloch / A chanu telyn*.

## 10

Canwyd y gerdd hon i w'r o'r enw Syr Dafydd Fychan a oedd yn offeiriad ym mhlwyf Ystradfellte yn y Cantref Mawr ym Mrycheiniog. Y mae eglwys bresennol Ystradfellte, Eglwys y Santes Fair, yn dyddio o'r unfed ganrif ar bymtheg, ond mae'n bosibl fod rhai rhannau o'r adeilad yn perthyn i gyfnod cynharach. O'r un plwyf yr hanai rhai o noddwyr eraill y Nant, gw. nodiadau cefndir cerddi 2–6. Sylwodd G.J. Williams mai gŵr o'r un enw a gyfieithodd *Ffordd y Brawd Odrig* o'r Lladin i'r Gymraeg rywbryd yn ystod y bymthegfed ganrif.<sup>1</sup> Rhoddir ei enw ar ddiwedd y testun fel *Syre Dauyd Bychein [sic] o Vorgannwc*,<sup>2</sup> ac fe sylwir mai *Yffeiriad o Forgannwg* (ll. 25) yw offeiriad Ystradfellte yntau. Yn ôl Edward Lhuyd, *Sr. Davydh Vyxan Clamorganensis, interpretatus est Odorici nescio cuius monachi itinerarium apud Indos circa annum 1460*, a dywed iddo drosi'r gwaith *o arx a damyned Elys [darll. Rys] ab Thomas ab Ennyon y veystyr*.<sup>3</sup> Awgrymwyd y dylid uniaethu'r Dafydd Fychan hwn ag aelod o dylwyth Hopgyn ap Tomas o Ynystawe (a gysylltir â Llyfr Coch Hergest), ond mae'n annhebygol fod sail i hynny.<sup>4</sup> Y mae'r pwyslais ar ddysg Syr Dafydd yn drawiadol yng ngherdd y Nant—y mae'n *d[d]octor* (ll. 42), sef yn athro dysgedig, ac yn *Un da ei olwg / Ar lyfyr can dalen* (llau. 27–8)—ond fel y dywed G.J. Williams, ni ellir profi mai ef oedd yr offeiriad a gyfieithodd *Ffordd y Brawd Odrig* i'r

<sup>1</sup> G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 81.

<sup>2</sup> Gw. FfBO xi.

<sup>3</sup> *Ib.* xi–ii

<sup>4</sup> Gw. *ib.* xiii.

Gymraeg. Gan y cyfeirir ato ddwywaith fel *Dafydd goch* (llau. 34, 110), y mae'n bosibl mai dyna'i enw a bod Fychan yn enw teuluol.

Brolia'r Nant ar ddechrau'r gerdd nad yw'n brin o ddillad a'i fod yn ddigon da ei fyd, ond rhoes ei fryd ar wisg newydd fel gwisg crefyddwr, sef clogyn du sy'n eiddo i'r offeiriad. Er gwaethaf yr ymffrost fe honna, fel y gwna mewn cerddi eraill, fod lladron wedi ei adael yn noethlymun, ond o gael y clog arbennig hwn amdano caiff gwmni merch dan lwyn o ddail, a daw rhagor o ferched i wrando'i gân ac i gyfri'r botymau ar hyd ei ysgwyddau wrth iddo fugeilio'r geifr. Unwaith eto, ceir argraff gref o bersonoliaeth farddol y Nant yn gymysg â'r mawl a'r gofyn. Daw ei bersona hunanddychanol i'r amlwg ar ddiwedd y gerdd wrth iddo'i bortreadu ei hun yn dysgu hedfan yn y clogyn newydd ag wyneb tylluan, ac yn debyg i wrach yn crwydro'r wlad gan hel blawd ar gyfer yr hen fwthyn sy'n gartref iddo. Ond rhydd y gair olaf i Syr Dafydd ac i ddiwyrrwch ei aelwyd yntau, gan gloi ar nodyn annisgwyl o fasweddus. Awgryma naws hwyliog ac anffurfiol y gerdd hon fod perthynas glòs rhwng y bardd a'i noddwr eglwysig o Ystradfellte.

2 **newydd** Llsgr. *nwydd*.

4 **fflewma** 'Difaterwch, syrthni' (S. *phlegm*), gw. GPC 1295 d.g. *fflêm*, *fflem*. Daw'r ffurf *fflewma* o'r Llad. *fleuma*, gw. *ib.* am enghrau. o'r 14g. ymlaen. Llsgr. *fylema*.

10 **ysaneue** Ffurf ar *hosaneuau*, sef ll. dwbl am barau o hosanau (cf. y ffurf *esgideuau* a gthg. *ysane* yn ll. 79), gw. GPC 1899 d.g. *hosan*. Fel y nodir yno, yr oedd yr ystyr yn ehangach gynt: 'coeswisg (amddiffyn-nol), gan gynnwys coesarn, bacas, lloedrau tyn neu esgidiau uchel'.

16 Tybed na ddylid diwygio i *Pell ym ei ado*?

22 **Tefriog** Tyfriog, sant a gysylltir â Llandyfriog yn ne Ceredigion, gw. LBS iv, 292.

26 **Catwg** Ar Gatwg neu Gadog, gw. LBS ii, 14–42; TWS 89–98. Y mae sawl Llan yn dwyn ei enw, gw. 1.23n, 7.14n.

30 **Ystradfellte** Gw. 6.62n.

33 **wrth gloch** Yn ôl y galw? Ni welwyd engh. arall o'r ymadrodd.

35 **abad Llandudoch** Am restr o abadau Llandudoch, gw. *The Heads of Religious Houses in England and Wales, III, 1377–1540*, ed. David M. Smith (Cambridge, 2008), 201–2. Ni wyddys pwy oedd abad Llandudoch yn ystod yr 1470au, ond bu gŵr o'r enw Huw ab Owain yn abad rywbyrd cyn ei farw yn 1487.

38 **Corstinob** Amr. ar *Costinobl*, sef Caer Gystennin neu Constantinople. Gw. G 168, lle y rhestrir *Corstinobl* ond nid yr union ffurf hon heb y gytsain *l*.

- 40 **môr yr Ysbaen** Y mae'r acen ar y goben fel sy'n gyffredin yn y cyfnod hwn.
- 43 **adenydd** Llewys, mae'n debyg; gw. GPC<sup>2</sup> 28 d.g. *adain* ac yn arbennig yr engh. *abid wenn eb adannedd*. Gellid *edenydd* (llsgr. *tmvtenydd*).
- 45 **Silin** Gw. 7.108n.
- 48 **ofon** Cf. 3.64.
- 51 **ysgarlad** Gwisg ysgarlad, gw. GPC 3832.
- 52 **Gwrlais** Iarll Cernyw a gŵr Eigr yn ôl traddodiad. Arno, gw. WCD 337, ac am gyfeiriadau'r beirdd ato, gw. G 711 a GSRh 3.13n. Ni wyddys am unrhyw hynodrydd ynghylch ei wisg.
- 54 **parsel** Ymddengys mai camsillafiad yw *basler*, sef darlleniad y llsg. (cf. *tyvsc* am *tysev* yn ll. 85). Rhydd *parsel* yn yr ystyr 'rhan, cyfran' synnwyr addas; gw. GPC 2693 ac yn arbennig yr enghrau. canlynol a ddyfynnir yno mewn cyd-destun tebyg: *aed oi byrsau oi dai barsel / i roi beichiau aur eb ochel* (Dafydd ab Edmwnd); *Rhydd Hywel rodd dda haelwych / O bwrs y wlad, barsel wych* (Edmwnd Prys). Annhebyg mai ffurf ar *baslart* 'dagr neu gleddyf byr' sydd yma; cf. 11.62 isod.
- 55 **Mair a Churig** Yr oedd Eglwys Fair a Churig yn enw ar gapel a threflan ganoloesol ym mhlwyf Henllan Amgoed yng ngorllewin sir Gaerfyrddin, gw. WATU 64. Cysylltir Curig yn bennaf â Llangurig yn Arwystli, gw. LBS ii, 192–200; TWS 262–8.
- 57 **Am erchi i ffeiriaid** Llsgr. *amerchifeirieit; a merch i* yw darlleniad G.J. Williams, 'Cerddi'r Nant', B xvii (1956–8), 82.
- 61 **lladron** Llsgr. *llaron*.
- 62 **cerddeteion** Ll. *cerddetai* 'teithiwr, rhodiwr, crwydryn', gw. GPC 466; dyma'r unig engh. a nodir. Llsgr. *chorddeteion*.
- 64 **cedechyn** Gellid *gadechyn* (llsgr. *cytechyn*)—gw. GPC 376 d.g. *cadechyn, cedechyn*—ond *cetechyn* yw'r sillafiad yn 14.119.
- 66 **gwisg** Llsgr. *wic*.
- 71 **arail** Llsgr. *haril*.
- 72 **Angharad** Angharad Law Eurog, o bosibl, llawforwyn yn llys y Brenin Arthur y syrthiodd Peredur fab Efrog mewn cariad â hi, gw. GGMD iii, 161. Prin iawn, fodd bynnag, yw cyfeiriadau'r beirdd ati. Mwy tebygol ei bod yn ferch a fuasai'n gyfarwydd i'r gynulleidfa—aelod o deulu Porthgogof, Ystradfellte, efallai?
- 74 **geifir** Ffurf lafar a brofir gan yr odl.
- 75 **y daw** Llsgr. *yta*.
- 79 **ysane** Ffurf ar *hosanau*; cf. *ysaneue* yn ll. 10.
- 85 **dysgu** Llsgr. *tyvsc*.

- 86 **y doctor Leison** Ni wyddys at bwy y cyfeirir; tebyg ei fod yn ddoctor mewn diwinyddiaeth. Yr oedd gŵr o'r enw Lleision (sy'n enw cyffredin ym Morgannwg) yn abad Nedd, nid nepell o Ystradfellte, yn ystod dauddegau'r 15g., gw. David M. Smith, *op.cit.* 314–15.
- 88 **ychen a logid** Cf. GRB 6.15–16 *Y carw union coronog / âi i dynnu llwyth eidion llog*, a gw. GPC 2202 d.g. *llog*<sup>1</sup>, *llogaf*.
- 90 **I guddio fy llowdwr** Cf. 2.7, 70. Llsgr. *yevddoflhwtr*.
- 92 **Llangathen** Plwyf yng nghantref Caeo yn sir Gaerfyrddin, gw. WATU 126, 250; cf. 14.28.
- 95 **tylluan** Gellid *dylluan*; gw. GPC 3674 d.g. *tylluan*, *dylluan*.
- 96 **Caerlleon** Caerllion ar Wysg, mae'n debyg, yn hytrach na Chaerlleon Gawr.
- 100 **rhanna** *Rhan* + *-ha*, cf. *blawta*, *cawsa*, *gwera*, &c. Ni restrir enghrau. cynnar yn GPC 3038, ond fe'i ceid ar lafar gynt yn sir Gaerfyrddin i ddisgrifio'r 'arfer o rannu cacennau (wedi eu gwneud yn arbennig i'r achlysur), blawd can, blawd ceirch, &c., i'r tlodion tuag adeg gŵyl yr Holl Saint neu ŵyl yr Holl Eneidiau'. Yn ôl un cofnodwr, *ib.*, 'Daliai pob gwraig fach a ddôl o'r pentrefi cyfagos ei ffedog i dderbyn picen sylweddol ar gyfer pob un o'r teulu. *Rhanna* y gelwid y ddefod hon. Bryd arall câi pob gwraig beilliaid gwenith a haidd a cheirch, basnaid o bob un'. Ymddengys mai cardota yn hytrach na rhanna a olygir yng ngherdd y Nant.
- 102 **ysgrepan** Llsgr. *yscyrebyan*.
- 104 **ffitel** 'Ymborth, lluniaeth' (o'r S.C. *vitaile*, *vittel* 'victual(s)'). Rhestrir yr engh. hon yn GPC 1270 d.g. *fitael*, *fitel*, *fitail*, ond awgryma'r gynghanedd mai'r amr. *ffitel* a gynrychiolir gan *fitel* y llsgr., er mai 'gêr, taclau' yw'r ystyr a roddir i'r ffurf honno ar sail un engh. o'r 16g., gw. *ib.* 1290. Gw. hefyd 9.24n.
- 107 **cynnwll** Y ddwy ystyr a roddir yn GPC 797 yw 'lle gwag, gwacter, gofod; ysbaid (am le ac amser); pellter' a 'cyfle, cyfleustra, egwyl, hamdden; ysbaid neu egwyl o dywydd teg, hindda'. Yr ail sy'n gweddu orau, er nad yw ystyr *blawd cynnwll* yn gwbl eglur. Annhebyg mai ffurf ar *cynnull* sydd yma, er mor addas yw'r ystyr.
- 108 **gennyf** Cf. 3.95, 12.124; llsgr. *ceny*.
- 111 **toloch** Fel be. yma: cadw sŵn, dolefain? Cf. y ddwy engh. o'r 15g. a ddyfynnir yn GPC 1074 d.g. *doloch*: *Y gwŷr egniol ddoloch*, / *Tebyg ar festig i foch*; ac *A baedd gwrol i ddoloch*. Gw. hefyd 3.23n, 6.1n a 9.115n.
- 116 **cnycho** Gw. 6.98n.

## 11

Perthynai Watgyn ap Syr Rhosier Fychan i deulu nodedig o noddwyr ym Mrycheiniog, sef Fychaniaid Tretŵr.<sup>1</sup> Molir ei frawd hŷn Tomas o Dretŵr yng ngherdd 12, ac yr oedd hanner chwaer iddynt yn wraig i Rys ap Siôn o Aberpergwm yng Nglyn-nedd.<sup>2</sup> Canodd Lewys Glyn Cothi yntau i'r ddau frawd.<sup>3</sup> Cyfeiria yn ei awdl foliant i Watgyn at ei gartref yn Nhalgarth ychydig filltiroedd i'r gogledd o Dretŵr,<sup>4</sup> ac fel y Nant y mae'n enwi Moreiddig Warwyn (fab Drymbenog) a oedd yn un o sylfaenwyr y llinach. Dywed Lewys fod Watgyn yn gwnstabl Caerfyrddin.<sup>5</sup> Nid yw'r Nant yn enwi'r swydd honno nac yn cyfeirio at dref Caerfyrddin—fe allai'r gerdd hon, fel y gerdd i Domas, fod yn gynharach nag awdlau Lewys Glyn Cothi—ond geilw Watgyn yn *ystiwart* / *Dros dir y Deau*, ac fe'i siarsia: *Gestwng wŷr hirion* / *Tu yma i Dregaron* (llau. 63–4, 45–6), gan ei annog i waredu'r wlad o ladron a gwylliaid fel ei dad o'i flaen. Fel y sylwa Dafydd Johnston,<sup>6</sup> ni cheir tystiolaeth iddo fod yn gwnstabl Caerfyrddin, ond ceir tystiolaeth i'w fab John weithredu fel cwnstabl Dinefwr yn 1472–74.<sup>7</sup>

Y mae'r ddau fardd fel ei gilydd yn darogan y caiff Watgyn ei urddo'n farchog fel ei dad. Fe'i disgrifir gan Lewys Glyn Cothi fel *captan dros Edward Frenin*,<sup>8</sup> a rhydd y Nant yntau sylw i'w weithgarwch milwrol dan Edward IV. Prawf hynny fod y gerdd hon wedi ei chanu cyn marw Edward yn Ebrill 1483. Y mae'r ffaith fod y Nant yn cyfeirio at y tad, Syr Rhosier Fychan, yn yr amser gorffennol yn awgrymu iddo ei chanu rywbyrd ar ôl ei farwolaeth yntau yn 1471 (ymddengys fod yma gyfeiriad at ei angladd, gw. ll. 28n). Erfynia ar Watgyn i aros gartref yn hytrach na dilyn y brenin i Ffrainc, gan gyfeirio, yn fwy na thebyg, at ymgyrch uchelgeisiol ond aflwyddiannus Edward IV yn erbyn brenin Ffrainc yn haf 1475 a orffennodd gyda Chytundeb Picquigny ar 29 Awst y flwyddyn honno.

1 **urddedig** Cf., e.e., ll. 17; llsg. *vrrddic*.

2 **neidr Foriddig** At Foreiddig Warwyn y cyfeirir, cf. llau. 18, 30. Disgrifir yn llau. agoriadol y gerdd y neidr a welir yn arfbais teulu'r Fychaniaid. Cf. GDEp 13.13n: 'Yn ôl traddodiad, ganwyd Moreiddig Warwyn fab Drymbenog (un o hynafiaid Fychaniaid Brodorrdyn,

<sup>1</sup> Ceir ei ach yn WG2 'Drymbenog' 2C1. Ar y canu i deulu Tretŵr, gw. NBSBM 222–71, ac am hanes y teulu, gw. ymhellach ByCy 940–1; D.S. Davies, 'Vaughan of Tretower', TRS v (1935), 50; E.D. Jones, 'The Parentage of Sir Thomas Vaughan (d. 1483)', Cylchg LIGC viii (1953–4), 349.

<sup>2</sup> Gw. WG2 *l.c.* a nodyn cefndir cerdd 1.

<sup>3</sup> GLGC cerddi 129–30.

<sup>4</sup> *Ib.* 129.43.

<sup>5</sup> *Ib.* 129.6.

<sup>6</sup> *Ib.* 587.

<sup>7</sup> Gw. R.A. Griffiths: PW i, 252.

<sup>8</sup> GLGC 129.7.



Hergest a Thretŵr, gw. P.C. Bartrum: WG1 'Drymbenog' 1) â neidr o gwmpas ei wddf, wedi i'r neidr fynd i mewn i gorff ei fam drwy ei cheg pan oedd yn cysgu. Fel yr awgrymir yn DWH ii, 386–7, y tebyg yw i Foreiddig gael ei eni â'r llinyn bogail o amgylch ei wddf.' Gw. ymhellach NBSBM 233; GLGC 584, 587; GHS 2.1n; GLMorg 37.15n.

3 **Cirig** Gw. 10.55n.

4 **Hi a gaiff y gore** Llsgr. *hiacefycore*. Diau mai gwall am *ceif* (gaiff) sydd yma.

6 **cylch** O amgylch, ynghylch, gw. GPC 747.

10 **yr hollfyd** Llsgr. *ynollfyf*.

13 **Gwiber edeinog** Cf. GLGC 130.54 *a'i wiber sy gall bur asgellog* (Moliant Syr Tomas ap Syr Rhosier Fychan, brawd Watgyn).

14 **colerog** A. a ddefnyddir yn aml am ysgwier neu farchog; gw. GPC 543 am enghrau. tebyg. Llsgr. *eitircoleroc*.

15 **ag ewinedd** Llsgr. *awinedd*.

16 **egwan** A. ac iddo rym e.; llsgr. *ecan*.

19 **orig** Am ysbaid, mae'n debyg. Am enghrau. eraill o'r gair mewn ystyr adf., gw. GPC 2655.

20 **gwindai** Llsgr. *cintei*.

25 **pimant** Eli persawrus neu ddiod o win a mêl a sbeisys, o'r H.Ffr. *piment*, efallai drwy'r S.C., gw. GPC 2805. Cf. GLGC 116.9–10 *Pumwell yw Wiliam i roi pimant, / myn llaw hen Armon, no holl Normant*.

28 **terment** 'Angladd, claddedigaeth' neu 'gwynnos', gw. GPC 3486. Y mae'r testun yn anodd ei ddarllen: *ary[...]rmentyterment*, gyda'r ddwy lythyren olaf yn aneglur, ond mae'r ystyr yn gweddu a cheir trawiad cynganeddol tebyg gan Lewys Glyn Cothi, GLGC 110.7–8 *Nid llai'n mynnu du 'ngwlad Went / no theirmil yn ei therment*; cf. hefyd GLMorg 52.40 *I bedeirmil bu derment*.

30 **Moriddig Warwyn** Gw. ll. 2n a'r nodyn cefndir.

31 **ellmyn** At estroniaid yn gyffredinol neu at y Saeson y cyfeirir yma, gw. GPC 1209; cf. GLGC 129.53 *Gwatcyn ddôr ellmyn, dod bawb ynghrog* (i'r un noddwr).

32 **arallwlad** 'Tramorwr', mae'n debyg, yn hytrach na 'gwlad estron', gw. GPC<sup>2</sup> 412. Cymerir mai gwall yw *orallwlat*. Digwydd *allwlad* 'estronwr, dieithryn' o 1567, ac yn ddiweddarach yn yr ystyr 'gwlad estron', gw. *ib*. 189.

38 **gwastad** Llsgr. *wasat*; cf. ll. 23 *A'r gwin gwyn gwastad*.

40 **chwythu** Tybed nad ffurf lafar a gynrychiolir gan *hwddv*?

41–4 Y mae'r llau. hyn yn dilyn llau. 45–8 yn y llsgr., ond awgryma'r

gystrawen *Nac ... Nac ...* mai yma y mae eu lle.

- 41 **arnad** Llsg. *annat*. Awgryma GPC<sup>2</sup> 316 d.g. *annad*<sup>1</sup> yr ystyr ‘?had anis’, cyfaddasiad efallai o’r S.C. *an(ece seed)* + *had*; un engh. yn unig a ddyfynnir, o c.1400. Ei ffroeni, felly, gyda golwg ar ei ddwyn? Go annhebygol yw’r ystyr honno, yn enwedig gan mai gweryru neu ffroenochi gan ddirmyg, cynddaredd, &c. a olyga’r enghrau. cynharaf o *ffroeni* (gw. GPC 1316), ond cf. y sôn am ddwyn gwartheg yn llau. 43–4.
- 47 **Â’t’h wewyr sythion** Llsg. *addwewyrsyddyon*. Gellid *rhy sythion* / *rhyssythion* ‘syth iawn’, ond ac eithrio *rhydeg* ni cheir engh. arall o *rhy* yn yr ystyr honno gan y Nant.
- 49 **Olif**er Un o arwyr chwedlau Siarlymaen. Cyfeirir at ei gleddyf yn 3.26.
- 50 **clywo** Llsg. *cylwo*. Cf. *cylweis* yn ll. 65 isod, a gw. hefyd 1.57n a 14.121n.
- 57 **coler eurlen** Cf. GDEp 9.27–8 *Ei goler teg, êl o’r tŵr, / Yn aur melyn i’r milwr*, a ddeallir fel mynegiant o ddymuniad y bardd i weld Wiliam Herbert yn cael ei urddo’n farchog ac felly’n gwisgo coler aur, gw. *ib.n.* Cf. *Eura dy ddagar* yn ll. 61 isod, a gw. GPC 1257 d.g. *euraf*: *euro*, a all olygu ‘urddo’n farchog trwy addurno â choleraur, &c.’, yn ogystal â ‘goreuro’ neu ‘enwogi’.
- 58 **ysbardun felen** Yr oedd ysbardunau euraid, fel y goler, yn dynodi marchog; gw. GPC 3822 d.g. *ysbardun* am enghrau. tebyg.
- 59 **dan heulwen** Llsg. *tanfehlwen*. Cf. GLGC 178.22 *haelaf dan yr heulwen*. Y mae’n werth cofio bod yr haul yn symbol Iorcaidd, a fabwysiadwyd gan Edward IV ar gyfer ei fathodyn yn dilyn brwydr Mortimer’s Cross pan ymddangosodd tri haul yn yr awyr, gw. GDEp 9.29n.
- 61 **aura** Gw. ll. 57n uchod.
- dag**ar Cf. 10.13, lle y profir y ffurf gan yr odl. Y mae’r odl yn anghyflawn yma fel y mae mewn manau eraill yng nghanu’r Nant, e.e. *gadarn* / *hedan*’ / *Fychan* yn llau. 9–11. Darlleniad y llsg. yw *evratyddacarta (aura dy ddagar da?)*. Rhoddai *dart* ‘gwaywffon dafl, picell’ (cf. 9.45) ystyr ac odl gwbl foddhaol: *Eura dy ddagar a’t’h ddart?* Cf. Lewys Glyn Cothi am Watgyn: *I’r drin wyd ewin a dart—a ffonwayw / gyda phenwn Edwart* (GLGC 129.9–10).
- 64 **tir y Deau** Llsg. *tyirytev*.
- 65 **adfarn** Dyfarniad anghywir, camfarn, gw. GPC<sup>2</sup> 42, a cf. yr odl *gadarn* / *hedan*’ / *Fychan* yn llau. 9–11. Llsg. *atfan*. ‘Gwlad, bro, ardal, lle’ yw ystyr *atfan*, a ‘dieithryn, estron’ yn ddiweddarach, gw. *ib.* Prin ei fod yn addas yma, oni bai fod gair fel *i’m* neu *i’t’h* ar goll.
- 67 **Melan** Dinas Milano yn yr Eidal, cf. 13.34, ond mae’n debyg mai cynrychioli cyfandir Ewrop a wna yma.

- 71 **iddi** Llsg. *idd*.
- 72 **hwyntwy** Llsg. *wntwy*.
- 73 **uddun** Ffurf Gym.C. ar *iddynt*, cf., e.e., 4.7. Llsg. *vddv*.
- 74 **Ffrainc** Ll. *Ffranc* 'Ffrancwr'.
- 75 **Maen ac Ainsio** Maine ac Anjou yng ngogledd-orllewin Ffrainc. Cyplysis y ddwy dalaith yn aml, cf. GG.net 3.36 *Main gwns tir Maen ac Aensio*.
- 76 **gynse** Nid ymddengys *yse* yn ystyrllon. Cynigir yn betrus mai ll. dwbl *gwn* sydd yma er mwyn y gynghanedd, er mai *gynnau* a *gwns* yw'r ffurf l. arferol; cf. 12.111 *A chan maen gwns*.
- 77 **Edwart** Y Brenin Edward IV, cf. ll. 90 ac 1.77n.
- 78 **Syr Hywel y Fwyall** Gw. 3.90n.
- 79 **corna** Llsg. *cona*. Diwygiad *petrus*, ond mae'n bosibl mai'r f. *cornio* sydd yma, mewn ystyr ffig., 'ymosod yn ffyrnig ar, gwthio trwy drais', GPC 563. Diwygiad mwy mentrus fyddai *A'i gorn a'i gafall*.  
**cafall** Ceffyl (*cafall* < Llad. *cābāllus*), ond enghrau. cynnar yn unig a nodir yn GPC 387. Gallai fod yn enw march. Am ymdriniaeth â'r gair fel e.c. ac fel enw ar farch chwedlonol, gw. *The Horse in Celtic Culture: Medieval Welsh Perspectives*, ed. Sioned Davies & Nerys Ann Jones (Cardiff, 1997), 47–50.
- 80 **cyfog** Yr ystyr sy'n gweddu yma yw 'bwrw, taflu, dymchwel; taro, ymladd â', gw. GPC 708 d.g. *cyfogaf*<sup>1</sup>: *cyfogi, cyfog*. Cf., e.e., DN XXII.54–5 ... *a chyvoc—bob dri / Y gwŷr, a'i torri yn gwarteroc*, a gw. yr ymdriniaeth â'r gair, *ib.* 177.
- 81 **y brenin** Sef Louis XI, brenin Ffrainc, archelyn Edward IV.
- 85 **Picardi** Talaith yng ngogledd-ddwyrain Ffrainc.
- 86 **A Mwnt a'i llosgi** Llsg. *amwtaylloci*. Naill ai tref Mantes ar lannau afon Seine i'r gogledd o Baris, neu Mont St Michel yn Normandi a fu dan warchae gan 6,000 o filwyr Edward IV yn 1473. Ar *Mwnt*, gw. GLMorg 64.69n, 98.1n.
- 87 **yndi** Amr. ar *ynddi*; ffurf gyffredin yn nhafodiaith y De ers y 15g., gw. GPC 3814 a cf. 14.88.
- 88 **brenin Llundain** Llsg. *byreninllv* (y mae'r tudalen wedi rhwygo).
- 89 **Gien a Gasgwin** Talaith Guyenne a Gascogne yn ne-orllewin Ffrainc. Llsg. *cienacsewin*.
- 94 Nid oes modd darllen diwedd y ll. hon na'r ll. nesaf gan fod y tudalen wedi rhwygo. Felly hefyd ddechrau llau. 101–4.
- 95 **hynny'n gynnill** Llsg. *hynyf*. *J. Cynnill* yw'r gair sy'n gweddu o ran odl, cynghanedd ac ystyr; cf. 9.69.

101–2 Llsgr. [ *J*chael ... / [ *J*ael. Cf. 8.109 *A chael oes Arthur*.

101 **Merddin** Gw. 7.53n. *Myrddin* yw'r ffurf yno, ond *Merddin* yn 12.59; y mae'r ddwy ffurf yn gyffredin yng nghanu'r beirdd.

102 **Taliesin** Y Cynfardd a ganai yn yr Hen Ogledd yn y 6g. ac y tyfodd chwedl boblogaidd o'i amgylch yn ddiweddarach.

103 Un posibilrwydd fyddai *ywch* 'ichwi', er na cheir engh. arall o'r ffurf yng nghanu'r Nant. Felly hefyd yr ymadrodd yn *iach*.

104 **datgan** Llsgr. *ddatan*. Rhoddai *A phawb yn ei ddatgan* ddiweddglo addas; cf. *A phawb yn eu ceiso / ei guro / ei restio* (9.104; 13.4, 8).

## 12

Tomas ap Syr Rhosier Fychan a etifeddodd gartref nodedig Tretŵr ym mhlwyf Llanfihangel Cwm Du yn Ystrad Yw, Brycheiniog pan fu farw ei dad yn 1471.<sup>1</sup> Fel ei dad, fe'i gwobrwywyd yn hael am ei ffyddlondeb i blaid Iorc a daliodd nifer o swyddi yn ne Cymru o ddiwedd y 1460au ymlaen dan Edward IV ac yna dan Risiart III.<sup>2</sup> Ymhelaethodd ar y gwelliannau sylweddol a wnaethai ei dad i'r cartref teuluol—Tomas oedd yn gyfrifol am adeiladu'r porth ym mur dwyreiniol Tretŵr—a pharhaodd draddodiad llewyrchus ei dylwyth o noddi'r beirdd.<sup>3</sup>

Y bardd a gysylltir yn anad neb â Thomas yw Hywel Dafî; ymddengys ei fod yn fath o fardd teulu iddo.<sup>4</sup> Ceir cywydd gan Hywel i ddiolch i Syr Tomas am ŵn, a bu ef a Bedo Brwynllys yn ymryson am ei nawdd ar aelwyd Tretŵr.<sup>5</sup> Perthyn awdl foliant Lewys Glyn Cothi iddo i deyrnasiad Rhisiart III, 1483–85, yn fwy na thebyg yn fuan wedi i Domas fod yn gefn i'r brenin pan wrthryfelodd dug Buckingham yn Hydref 1483.<sup>6</sup> Ymddengys mai yn sgil hynny yr urddwyd ef yn farchog, a chafodd stiwardiaeth arglwyddiaeth Brycheiniog ym Mawrth 1484.<sup>7</sup> Canodd Lewys Glyn Cothi i feibion Tomas yn ogystal,<sup>8</sup> ac i'w frawd Watgyn, gwrthrych cerdd 11.<sup>9</sup> Yn debyg i Lewys Glyn Cothi a Hywel Dafî yntau yn ei gywydd diolch, fel *Syr Tomas* y cyfeiria Dafydd Epynt at Domas,<sup>10</sup> ac mae'n amlwg felly i'r cywydd hwnnw gael ei lunio rhwng 1483/4 a'i farwolaeth yn 1494.<sup>11</sup>

<sup>1</sup> Am ach Tomas ap Syr Rhosier Fychan, gw. WG2 'Drymbenog' 2C<sub>1</sub>, 2C<sub>2</sub>.

<sup>2</sup> Gw. ByCy 940–1; DWB 1001.

<sup>3</sup> Ar y canu iddo, gw. NBSBM 243–60.

<sup>4</sup> Gw. cerddi 48–55 yn *Gwaith Hywel Dafî*, gol. A. Cynfael Lake (i'w gyhoeddi yng 'Nghyfres Beirdd yr Uchelwyr').

<sup>5</sup> Peniarth 67 cerddi XXXVI, LXXIII–IV.

<sup>6</sup> Gw. GLGC cerdd 130 ac *ib.* 587.

<sup>7</sup> Gw. ByCy 940.

<sup>8</sup> GLGC cerdd 131.

<sup>9</sup> *ib.* cerdd 129.

<sup>10</sup> GDEp 13.12.

<sup>11</sup> Gw. *ib.* 142.

Cynharach yw'r cywydd iddo o waith Hywel Swardwal,<sup>12</sup> gan fod ei dad, Syr Rhosier Fychan, yn dal yn fyw pan ganwyd y gerdd; awgrymwyd dyddiad rhwng 1464 ac 1471.<sup>13</sup> Fel *Mastr Tomas* y cyfeiria Hywel Swardwal ato, ac nid fel marchog, ac felly hefyd y Nant, sy'n awgrymu fod ei gerdd yntau'n gynharach nag 1483/4.

Fel ei dad, a ymladdodd dan faner Edward IV ym mrwydr Mortimer's Cross yn 1461, yr oedd Tomas yn filwr amlwg, ac yn debyg i Lewys Glyn Cothi rhydd y Nant ddarlun trawiadol o'i rwysg milwrol yn rhan olaf y gerdd. Ei brif fyrdwn, fodd bynnag, yw galw am ryddhau ei noddwr o gastell Penfro lle yr ymddengys iddo gael ei ddal yn garcharor. Wedi iddo fod ym meddiant plaid Iorc er 1461, cipiwyd y castell gan y Lancastriaid am gyfnod byr yn 1470/1, felly fe all mai i'r cyfnod cythryblus hwnnw y perthyn y gerdd hon. Pan drechwyd y Lancastriaid gan luoedd Edward IV ym mrwydr Tewkesbury ym Mai 1471, dywedir i'r Brenin Edward orchymyn i Syr Rhosier Fychan ymlid Siasbar Tudur, iarll Penfro, ond daliwyd Rhosier gan yr iarll ac fe'i dienyddiwyd ganddo yng nghastell Casgwent.<sup>14</sup> Wedi i Siasbar ffoi gyda'i nai Harri Tudur i gastell Penfro, bu luoedd Iorc yn gwarchae ar y castell ond llwyddodd Siasbar a Harri i ddianc i Lydaw ym Mehefin 1471. At helyntion y cyfnod hwn, sef 1469–71 pan heriwyd goruchafiaeth plaid Iorc, y cyfeiria Guto'r Glyn yn ei gywydd 'Tair blynedd rhyfedd fu'r rhain'. Geilw ar Domas ap Rhosier a'i gefnder Wiliam Herbert Ieuanc i ddial ar blaid Lancastr am ddienyddio'i dad Syr Rhosier Fychan yng Nghas-gwent, ac am frwydr Banbri, 1469, lle y lladdwyd dau frawd Syr Rhosier: *Meistr Tomas, galanas gledd, / Mab Rhosier, ym mhob rhysedd, / Wyth drin i'th werin a'th wŷr, / Wyth frwydr a wnai â'th frodyr*.<sup>15</sup> Ceir yn ogystal ddwy awdl a gambriodolir i Lewys Glyn Cothi, y naill i Syr Rhosier Fychan o Dretŵr a'r llall i'w fab Tomas yn fwy na thebyg, yn eu hannog i ddial ar y Saeson am frwydr Banbri.<sup>16</sup>

Nodwedd amlycaf y gerdd yw'r rhestr faith o saint, saint brodorol gan mwyaf, y gelwir arnynt i gynorthwyo Tomas i gael ei draed yn rhydd o gastell Penfro.<sup>17</sup> Ceir rhestrau tebyg gan rai o gyfoeswyr y Nant, er enghraifft yng nghywydd Lewys Glyn Cothi sy'n galw ar saint Cymru i adfer llywodraeth a threfn i'r wlad,<sup>18</sup> ac yn awdl Dafydd Nanmor i ofyn bendith y

<sup>12</sup> GHS cerdd 3.

<sup>13</sup> *Ib.* 141.

<sup>14</sup> Gw. ByCy 940.

<sup>15</sup> GG.net 25.25–8.

<sup>16</sup> Gw. GLGC xxxv–vi, 584.

<sup>17</sup> Ceir nifer o gywyddau o gyfnod Rhyfeloedd y Rhosynnau yn galw am ryddhau noddwyr o garchar, gw. LIU 311–12. Canodd Syr Phylib Emlyn gywydd i ryddhau Tomas, mab anghyfreithlon Syr Rhosier Fychan o Dretŵr, o garchar Honfleur yn Ffrainc, rywbryd cyn 1477, gw. GPhE cerdd 1, ac â cherdd y Nant, cf. yn arbennig gywydd Gruffudd Nannau yn galw ar Fwrog Sant i ryddhau dau fab Ieuon Fychan o'r Pengwern o garchar yn Lloegr yn 1456–7, gw. LIU 216, 311–12.

<sup>18</sup> GLGC cerdd 7.

saint ar yr Harri Tudur ifanc.<sup>19</sup> Ac mae'n ddi-ddorol sylwi bod Dafydd Llwyd o Frycheiniog, bardd cyfoes arall, yn galw ar y saint i eiriol dros enaid ei noddwr mewn marwnad a ganwyd ar fesur y Nant.<sup>20</sup> Os oes blas gweddi ar y rhan hon o'r gerdd, sy'n ymestyn rhwng llinellau 21 ac 80, blas melltith sydd ar y llinellau nesaf lle y mae'r Nant yn arllwys ei ddirmyg ar elynion Tomas yn siroedd Penfro a Chaerfyrddin, gan ailadrodd yr ymadrodd *Ac o garn ... yn debyg i'r math o ailadrodd fformiwlâig a welir yn ei felltith ar ladron Llandysul yng ngherdd 14.*

- 1 **Melwas** Yr arwr chwedlonol a ymserchodd yng Ngwenhwyfar, gwraig Arthur, gw. WCD 469–70; TYP<sup>3</sup> 378–80. Llsg. *meleas*.
- 2 **gan** 'Sef', a'r ddau e.prs. mewn cyfosodiad â'i gilydd, gw. GPC 1379 d.g. *gan*<sup>1</sup> (7).
- 3 **tyrnas** Amr. ar *teyrnas*, gw. GPC 3494 a cf. llau. 11 (llsg. *tyras*) a 115 isod, a 14.116.
- 4 **cedernid** Llsg. *cyternit*. Gellid *cadernid*, ond *e* sydd yn yr enghrau. cynharaf, gw. G 120, GPC 377.
- 7 **ef a ddwg** Llsg. *efaddwy*.
- 10 **Un ffon, un ffas** Rhaid ei fod yn ddywediad cyfarwydd. Cf. GLGC 137.63 *ni aned mab bron un ffon, un ffas; ib. 32.47–8 wyneb glaif ni saif na'i sias—ger dy fron, / ni bu'r un un ffon na brenin un ffas*.
- 12 **Un gwayw dyrnaid** Llsg. *vn<sup>c</sup>wewtyrnait*. Y mae *gwayw* yn gymar addas i *ffon* yn ll. 10. Tybed na ddylid diwygio ymhellach i *na dyrnaid*? Cf. 4.51 *dyrnaid o saethe*.
- 13 **y Sieb** Cheapside, sef rhan o Lundain a oedd yn enwog am ei siopau a'i marchnadoedd. Byddai llwybr yr orymdaith frenhinol rhwng Tŵr Llundain a Phalas Westminster yn cynnwys yr ardal hon.
- 18 **Tre Benfro gastell** Gw. y nodyn cefndir.
- 20 **diod** Mwy tebygol, efallai, na'r e.c. yw'r f. *diod* 'tynnu ymaith, symud o'i le', gw. GPC 1023 d.g. *diodaf*<sup>2</sup>, yn yr ystyr 'rhyddhau'. Llsg. *efecirtiot*; cf. 5.49 *efecircwelet* (efe geir gweled).
- 24 **Tre'rtŵr** Yr oedd cartref Tomas ym mhlwyf Llanfihangel Cwm Du gerllaw Crucywel ym Mrycheiniog yn enwog am ei nawdd i'r beirdd.
- 25 **y tair Mair** Naill ai'r tair Mair a fu wrth feddrod Crist (sef Mair Fadlen a dwy arall; mae'r traddodiadau'n amrywio), neu dair merch Anna, mam y Forwyn Fair: 'yn ôl traddodiad apocryffaidd yr oedd Anna wedi priodi deirgwaith (â Joachym, Cleophas a Salmon) ac ym mhob priodas cafodd ferch o'r enw Mair. Cyfeirir at y traddodiad hwn fel y

<sup>19</sup> DN cerdd XVII.

<sup>20</sup> Gw. Peniarth 67 cerdd VI.

*Trinubium*, testun a ddaeth yn boblogaidd ar ôl i Jacobus de Voragine (1230–98) ei gynnwys yn ei gasgliad enwog o fucheddau'r saint, y *Legenda Aurea* ... Yn ôl traddodiad y *Trinubium*, felly, nid oedd Anna'n wryf. Yr oedd Mair yn un o dair ac yr oedd y ddwy Fair arall yn rhyw fath o iawndal am ddwyn Mair, mam yr Iesu, oddi wrth Anna i wasanaeth Duw', Jane Cartwright, *Y Forwyn Fair, Santesau a Lleianod: Agweddau ar Wryfyddod a Diweirdeb yng Nghymru'r Oesoedd Canol* (Caerdydd, 1999), 27. Am gyfeiriad posibl arall at y tair Mair, gw. GLD 17.82n.

- 26 **Llanerchaeron** Ceir Llan-y-tair-Mair (Knelston) ym Mhenrhyn Gŵyr, ond mae'r cysylltiad â Llanerchaeron yng Ngheredigion yn dywyll. I Non, mam Dewi Sant, y cysegrwyd eglwys y plwyf.
- 27 **Caron** Gw. 5.83n.
- 29 **Dwynwen** Y santes a gysylltir â Llanddwyn ym Môn, gw. LBS ii, 387–92; WCD 209–10; TWS 227–32.
- Ceinwen** Y santes a gysylltir â Llangeinwen ym Môn, a chwaer i Ddwynwen yn ôl traddodiad, gw. LBS ii, 52–5.
- 30 **Brothen** Nawddsant Llanfrothen yn Ardudwy, gw. LBS i, 303.
- Rhianwen** Santes anh. Dichon mai gwall yw *rianwen* am *Arianwen*, un o ferched Brychan Brycheiniog a santes goll o bosibl; gw. Jane Cartwright, *op.cit.* 91; EWGT 15, 43, 82.
- 33 **Peblig** Nawddsant Llanbeblig ger Caernarfon, gw. LBS iv, 86–7.
- Cirig** Gw. 10.55n.
- 34 **Sain Domnig** Naill ai'r santes a hanai o Iwerddon, gw. LBS ii, 351–2, neu, yn fwy tebygol, y Sain Dominig enwocach a sefydlodd Urdd y Brodyr Duon, gw. ODCC<sup>3</sup> 500.
- 35 **rhowch** Llsg. *yrhowch*, ond ymddengys fod yr y wedi ei dileu.
- 36 [ **Jo walch** Llsg. ~~f~~*owalch*. Dilëwyd llythrennau ar ddechrau'r ll. ac mae'n anodd darllen yr hyn a ychwanegwyd uwch eu pen. Rhoddai *iddo* synnwyr boddhaol.
- 37 **Y grog o Gaerlleon** Canodd nifer o feirdd i'r grog enwog o Gaer yn y 14g. a'r 15g. Trafodir hanes y grog gan Barry J. Lewis, *Welsh Poetry and English Pilgrimage: Gruffudd ap Maredudd and the Rood of Chester* (Aberystwyth, 2005); gw. hefyd GGMD ii, 109–12.
- 38 **Dewi** Gw. 2.108n.
- Non** Mam Dewi Sant, gw. LBS iv, 22–5; TWS 156–60. Cyfeirir ati eto yn ll. 76 isod.
- 39 **Cynin** Nawddsant Llangynin yn sir Gaerfyrddin, gw. LBS ii, 261–2 lle y nodir bod yr eglwys gynt wedi ei chysegru i Gynin a'i Weision; cf. GyB 86 (llau. 77–8).

- 40 **Asa** Nawddsant Llanelwy, gw. LBS i, 177–85.
- 43 **solas** Cysur neu lawenydd. Â'r ll. hon cf. GDID 10.21–2 *Eisiau eleirch i solas / Sy' i'm plwy' iso i'm plas*.
- 44 **Maesaleg** Basaleg yng Ngwent (llsgr. *maeshalec*). *Mysaleg* yw'r ffurfwg gan Lewys Glyn Cothi, GLGC 58.54.
- 45 **Llechanwen** Ni welwyd engh. arall o'r e. lle hwn.
- 46 **Sulien** I Sulien a Mael y cysegrwyd Eglwys Corwen, gw. LBS iv, 203–6.  
**Cathen** Nawddsant Llangathen yn sir Gaerfyrddin, gw. LBS ii, 91–2. Cyfeirir at Langathen yn 10.92 a 14.28.
- 50 **hornele** Gw. 2.16n.
- 51 **o ddrylle** Llsgr. *eddrylle*.
- 53 **Aberhodni** Ffurfiâu amr. ar *Aberhonddu* yw *Aberhodni* ac *Aberhodni*, gw. I. Williams: ELI 41 ac EANC 149–54. Ar y grog adnabyddus a gedwid yn eglwys priordy Aberhonddu, gw. M.P. Bryant-Quinn, ‘“Enaid y Gwir Oleuni”: y Grog yn Aberhonddu’, *Dwned*, ii (1996), 51–93. Llsgr. *berhodni*; cf. efallai ffurfiâu tebyg i ‘*Berffro* (e.e. GLMorg 90.48) a *Bermo*.
- 54 **Mair o Aberteifi** Yr oedd y cerflun o Fair, neu Fair y Tapr fel y'i hadwaenir, yn denu pererinion i Eglwys y Santes Fair yn Aberteifi.
- 55 **Crist a Cheli** Cf. 7.152 *Myn Duw a Cheli*.
- 56 **Celer** Nawddsant Llangeler yn sir Gaerfyrddin, gw. LBS ii, 102–3.
- 58 **O gorff y brenin** Cyfetyb hyn i'r S. ‘*squire of the king's body*’, sef aelod o'r bonedd a'i statws yn union o dan radd marchog, gw. OED Online d.g. *squire, n*: ‘*a squire of (or for) the body (or household), an officer charged with personal attendance upon a sovereign, nobleman, or other high dignitary*’ (enghrau. o 1450 ymlaen). Yr oedd Tomas yn ysgwier o gorff Eward IV, gw. DNB<sup>2</sup> d.g. *Vaughan family*.
- 59 **cadair Ferddin** Nid yw ei hunion arwyddocâd yn eglur, gw. GRhGE 11.28n, ond ymddengys mai arwydd o ragoriaeth yw *cadair Ferddin*. Dywed Rhys Goch Eryri nad oes yr un hyddgant bellach *Yn dwyn Cadair ... / ... Ferddin arnun, ib.* 13.75–6. Cf. *ib.* 11.28 *Taliesin, cadair Ferddin cerdd*, a GLGC 140.45–6 *Ieuan a gâr yn y gwin / roi i'w fardd gadair Ferddin*.
- 60 **Cymry** Gw. 1.82n.
- 61 **Mwrog** Cysegrwyd dwy eglwys iddo, sef Llanfwrog ger Rhuthun a Llanfwrog ym Môn, gw. LBS iii, 505–6.  
**Carannog** Nawddsant Llangrannog yng Ngheredigion, gw. LBS ii, 78–9.
- 62 **Dogwel** Digwydd y ffurfiâu *Dogwel* a *Dogwael*, gw. GLGC 8.4n. Cysegrwyd eglwysi iddo yn sir Benfro, gw. LBS ii, 349–51.



- Enog** Enoch, un o batriarchiaid yr Hen Destament a thad Methwsela, gw. ODCC<sup>3</sup> 550. Cyfeirir ato yn aml gan Lewys Glyn Cothi, gw. GLGC 661. Mentruwyd diwygio *eloc* y llsgr. Posibilrwydd arall yw Illog, nawddsant Hirnant yn sir Drefaldwyn, gw. LBS iii, 301–2.
- 63 **Tygywy** Nawddsant Llandygywydd yng Ngheredigion, gw. LBS iv, 224.  
**Tyfrydog** Nawddsant Llandyfrydog ym Môn, gw. LBS iv, 292–3. Cf. EWGT 57 a *Thegwy a Thyriawc* [amr. *Thyvrydawc*] yg *Keredigyawn* ('Bonedd y Saint'); y mae'n bosibl fod y Nant yntau wedi drysu rhwng Tyfrydog a Thyfriog, cymydog Tygwy yng Ngheredigion. Ceir cyfeiriad ganddo at Dyfriog yn 10.22.
- 65 **Padarn** Fe'i cysylltir yn bennaf â Llanbadarn Fawr yng Ngheredigion, gw. LBS iv, 39–51; TWS 121–7.  
**Beuno** Fe'i cysylltir yn bennaf â Chlynnog Fawr yn Arfon, gw. LBS i, 208–21; TWS 74–88. Llsgr. *bvno*.
- 66 **Seirioel** Cysegrwyd eglwysi iddo ym Môn, gw. LBS iv, 177–80; TWS 238–9.
- 67 **Derfel** Nawddsant Llandderfel ym Mhenllyn, gw. LBS ii, 333–6; TWS 206–9. Llsgr. *aterfelacatw*; y mae'r *w* yn aneglur ac nid oes modd darllen diwedd y ll.
- 68 **hocedwr** Llsgr. *focetwr*.
- 69 **Cybi** Sant a gysylltir yn bennaf â Môn, gw. LBS ii, 202–15; TWS 233–7.  
**Elie** Fe'i cysylltir yn bennaf â Llanelian ym Môn, gw. LBS ii, 435–44; TWS 240–5. Ceir yr un ffurf yn CDG 8.8; DN XVII.43.
- 70 **Teilo** Gw. 1.84n.  
**Deiniolen** Cysegrwyd dwy eglwys iddo, sef Llanddeiniolen yn Arfon a Llanddeiniol neu Landdaniel Fab ym Môn, gw. LBS ii, 332.
- 71 **Gwenog** Nawddsant Llanwenog yng Ngheredigion, gw. LBS iii, 198.  
**Gwnnen** Gwnnen neu Gwynnen yw nawddsant Llanwnnen gerllaw Llanwenog, gw. LBS iii, 230–1.
- 72 **gennwch** Ffurf Cym.C. ar *gennyich*, gw. GPC 1379 d.g. *gan*<sup>1</sup>.
- 73 **Garmon** Cysegrwyd nifer o eglwysi iddo yng ngogledd Cymru, gw. LBS iii, 60–79.  
**Sain Simon** Yr Apostol Simon.
- 74 **Cristiolus** Nawddsant Llangristiolus ym Môn, gw. LBS ii, 190.  
**Siaron** Gw. 4.59n.
- 75 **Tubiel** Ai ffurf ar *Tubal*, sef Tubal-Cain, y gof cyntaf yn ôl Gen iv.22? Arno, gw. GRhGE 5.42n; GSDT 16.28n; GHD 25.28n. Posibilrwydd arall yw mai Cymreigiad o enw'r sant Thibault neu Theobald sydd yma, neu fod *tvbyel* yn wall am *Tybie*, nawddsant Llandybie.

- Einion** Einion Frenin, sant a gysylltir â Llanengan yn Llŷn, gw. LBS ii, 422–4; TWS 254–5.
- 76 **Cennych** Nawddsant Llangennech yn sir Gaerfyrddin, gw. LBS ii, 56–61. Ceir yr un ffurf gan Lewys Glyn Cothi, GLGC 7.47 ('I Saint Cymru').
- 79 **a Duw** Llsgr. *avw*.
- Saint Andras** Yr Apostol Andreas, brawd Pedr.
- 81 **carn** Yn yr ystyr 'carnedd, pentwr o gerrig', mae'n debyg (am y castell?), yn hytrach na '*hoof*'. Ond nid annichon mai rhywbeth tebyg i'r ymadrodd 'cael neu dynnu o'i garn' sydd yma, '*to be deflected from one's purpose, cause to waver*', gw. GPC 429 d.g. *carn*, a cf. TA XXI.57 *ni'th gair o'th garn*.
- henSais** Un o arweinwyr y Lancastriaid, efallai; gw. y nodyn cefndir.
- 82 **bwg y felin** Rhydd GPC 352 d.g. *bwg*, *bwga* yr ystyr 'drychiolaeth, bwbach, ysbryd, bwgan, ellyll' (o'r S.C. *bugge* 'bwgan'), a'r engh. gynharaf cyn 1592. Dyddiad yr engh. gynharaf a restrir o'r ffurf *bwgan* (?*bwg*, *bwga* + *-an*) yw 1547. Yn ôl OED Online d.g. *bug*, *n*.<sup>1</sup>, y mae'n bosibl y daw'r S.C. *bugge* o'r gair Cym. *bwg*; digwydd *bugge* mor gynnar â c.1395.
- 83 **coblin** 'Ellyll, drychiolaeth, bwgan, ysbryd drwg', GPC 524 d.g. *coblyn*<sup>1</sup>, a'r engh. gynharaf, o 1547, unwaith eto'n ddiweddarach na hon. Llsgr. *coblin*; cedwir y terfyniad *-in*, a geir yn y S. gwreiddiol *goblin*, er mwyn yr odl.
- 85 **eisingrug** Llsgr. *eisinrvc*.
- 87 **twbe** *Twbau*, ll. *twb*, fe ymddengys; gw. GPC 3655 d.g. *twb*<sup>1</sup>, *tÿb*, lle y daw'r engh. gynharaf, *torth o dÿb*, o'r 16g. Posibilrwydd arall yw mai gwall yw *twbe* am *twba*, ffurf arall ar *twb*, a cf. hefyd *twpa*, *twba*<sup>2</sup> 'hwrdd', *ib*. 3660. Digwydd yr epithetau *Madog y Twpa* (c.1360) a *Dauid Tuppa* (1408), a diddorol yw nodi bod *twpa* yn gallu golygu rhywun styfnig yn nwyrain Morgannwg.
- Ceidryg** Ai ffurf ar *Ceidrych*? Y mae Dyffryn Ceidrych ger Llangadog yn sir Gaerfyrddin wrth odre gorllewinol y Mynydd Du.
- 88 **bicra** Llsgr. *bica*. Rhydd *pica* (o'r S.C. *pike*) synnwyr addas, sef 'craff; llym (am dafod), brathog, coeglyd, gwawdlyd; haerllug; pigog, cecrus', GPC 2795 d.g. *pica*<sup>1</sup>. Cf. GG.net 66.12 *Hywel Bica*. Fodd bynnag, y mae'r diffyg cynghanedd yn annisgwyl, ac o ddiwygio i *bicra* o leiaf fe geir cyflythreniad rhannol o'r math sy'n gyffredin gan y Nant. Fel bf., 'ymosod, ymryson ...; cweryla' yw'r ystyr, ac fel e., 'ymladdfa, brwydr, ysgarmes, cynnen, gwrthdaro, cweryl' (o'r S.C. *bikeren*), gw. GPC<sup>2</sup> 639 d.g. *bicre*, *bicra*<sup>1</sup>, a cf. GLGC 18.28 *bwâu crwys yn bicra oedd*.

- 90 **cystogion** Cymerir bod hon yn ffurf ddilys, cf. ffurfiau fel *cystoges* a *cystogaidd*, GPC 570. Ceir *carngystogion* yn 14.42 ond gthg. 6.9 *gostogaidd*.
- 97 **Yn gweiddi o'r mure** Llsg. *yncweiddormvre*. Ni rydd *yn gweitho'r mure* synnwyr boddhaol yn y cyd-destun.
- 99 **tyre** Gallai *tyre* gynrychioli *dre* (cf. ll. 18 *Dre Benfro gastell*, ond llsg. *tre*), ond ffurf ddeusill a ddisgwyliid er mwyn y gynghanedd, a cf. 13.22 *Forgannwg dyre*, sy'n awgrymu bod *tyre*, ll. *tŵr*, yn annhebygol hefyd, er bod yr ystyr honno'n gweddu i dref Penfro. Ar *tyre* 'trythyll, nwydus, chwantus', gw. 6.91n.
- 100 **oheni** Ffurf Gym.C. ar *ohoni*, gw. GMW 59, a ffurf sy'n nodweddu tafodiaith y De.  
**ni'm dorwn** 'Ni faliaf'. Cf. yr enghrau. o'r gystrawen hon a ddyfynnir yn GPC 1077 d.g. *doraf*. Diwygiwyd *nynorwn* er mwyn synnwyr a chyghanedd.
- 102 **Rhos a Phebidiog** Gw. 7.15n. Llsg. *rosafebibioc*.
- 107 **gwnner** 'Taniwr neu saethwr gwn', gw. GPC 1795 d.g. *gynnwr*, *gwnnwr*, *gynnydd*. Nodir enghrau. o *gwnner* o'r 16g., a cheir y ffurf debyg *gynner* gan Lawdden, GLI 9.13–14 *Llawer gynner ac onnen*, / *Llawer gwayw a llurig wen*.
- 108 **gennym** Llsg. *cf./jwm*. Y mae'n anodd darllen y llythyren neu'r llythrennau sy'n dilyn *c*, ond ni ddisgwyliid e. un. gyda *milioedd*. Rhydd y diwygiad *petrus* hwn gynghanedd foddhaol.
- 110 **gitwns** Baner neu bennwn yw *gitwn*, o'r S.C. *gyton*, gw. GPC 1399. Gair prin, fe ymddengys, ond fe'i ceir gan Lewys Glyn Cothi mewn cyswllt tebyg, GLGC 112.96 *a chwenaw gwaetir a chan gitwn* ('Moliant Syr Wiliam Herbert'); cf. *ib.* ll. 100 *a chan clariwn*. Annisgwyl yw'r ffurfiau ll. yn dilyn *can*.
- 114 **cloth-of-Aras** Math o frethyn neu dapestri sy'n dwyn enw tref Arras yn Ffrainc a oedd yn enwog am ei gynhyrchu, gw. GLGC 52.23n. Ceir *cloth-of-Aras* a *cloth-of-Ares* gan Lewys Glyn Cothi.
- 116 **darne** Ll. *darn* 'dryll, gwn', gw. GPC 896 lle y dyfynnir engh. o'r ystyr hon o'r 16g. Llsg. *arcewyrtarne*. Diwygiad llai tebygol fyddai *A'r gwewyr a ddarne*, sy'n syniad cyffredin yn y canu mawl; cf., e.e., 8.42 *A dyr gwayw'n gandryll* (ceir y ll. *gwewyr* yn 11.47), ac yn arbennig GGLI 11.46 *gwewyr ddarnu*. Byddai hynny'n gwanhau'r gynghanedd, ond nid anghyffredin yw i'r Nant ateb y gytsain gysefin â'i sain dreigledig.
- 117 **A chanmil o filioedd** Llsg. *achamilofiliodd*; *ryfelodd* ac *aerodd* a geir yn llau. 118–19.
- 120 **ymguro** Llsg. *ymvro*.

- 123 **gwnias** Ffurf ar *gwynias*, gw. GPC 1776.
- 125–32 Ychwanegwyd y llau. hyn ar ôl y priodoliad a'r darn a geir yn yr atodiad i'r golygiad hwn. Ni ellir bod yn gwbl sicr mai ar ddiwedd y gerdd y maent yn perthyn.
- 127 **swydd Gaer** Sir Gaerfyrddin, cf. 14.88, 118, 15.4.
- 129 **yn dilyn** Llsgr. *ynilin*. Cf. ll. 118 *Yn dilyn rhyfeloedd* (efallai y dylai llau. 129–32 ddilyn ll. 120), 7.75–6 *Ar gwrser rhuddgoch / Yn dilyn yr hyddgant*.
- 130 **gwnlas** Gwynlas. Cf. *gwnias* yn ll. 123 a *gwnllwyd* am *gwynllwyd*, GPC 1692.
- 132 **â'r henwayw** Llsgr. *arenwaew*. Y mae'r llythrennau cyntaf fymryn yn aneglur, ond cf. 8.52 *Â'r henwayw ellyn*.

## 13

Gan fod y gerdd hon yn anghyflawn, nid oes modd bod yn sicr pwy yw'r noddwr. Ar ei gyfoeth a'i letygarwch y mae'r pwyslais, gan dynnu darlun delfrydol o lys uchelwr o Gymro tua diwedd y bymthegfed ganrif. Ei enw bedydd yn unig a roddir, sef Meredudd, a dywedir bod ei gartref rywle uwchlaw Caerllion (ll. 43) yn sir Fynwy. Dengys y trosiad *Mur Arglwydd Herbert* (ll. 17) ei fod yn un o ddilynwyr Herbertiaid Rhaglan ac fel noddwyr eraill y Nant, hyd y gellir barnu, yn bleidiol i achos yr Iorciaid. Awgryma'r achau nad oedd Meredudd yn enw poblogaidd yn sir Fynwy yn y cyfnod hwn.<sup>1</sup> Un posibilrwydd yw Meredudd ab Ieuan Fychan ab Ieuan ap Gwilym o linach Turberville, a oedd yn perthyn i'r un genhedlaeth â rhai o noddwyr eraill y Nant;<sup>2</sup> yr oedd aelodau o gangen arall o dylwyth y Twrbiliaid ymhlith noddwyr y bardd (gw. cerddi 7–8). Yn Llangatwg Dyffryn Wysg y trigai Meredudd ab Ieuan, rhwng y Fenni a Rhaglan, ychydig dros ddeng milltir i'r gogledd o Gaerllion ar Wysg. Yn niffyg cyddestun y mae'n anodd gwybod at ba un o'r Herbertiaid y cyfeirir: ai Wiliam Herbert, iarll Penfro, a ddiennyddiwyd yn dilyn brwydr Banbri yn 1469, ynteu, yn fwy tebygol, efallai, yr ail iarll, ei fab Wiliam Herbert Ieuan a fu farw yn 1491? Gwelwyd eisoes (nodyn cefndir cerdd 12) fod Guto'r Glyn yn galw ar Wiliam Herbert Ieuan a Thomas ap Syr Rhosier Fychan o Dretwr i ddial ar y Saeson am frwydr Banbri.

6 **ar bymtheg** Diwygiwyd *armdded*, sy'n ddarlleniad ansicr. Gellid efallai ddarllen *ni* yn hytrach nag *m*; os felly, *bob un arni ddeg*, ond prin fod hynny'n rhoi synnwr boddhaol.

<sup>1</sup> Gw. mynegeion P.C. Bartrum i WG2.

<sup>2</sup> Gw. WG2 'Turberville' 6A.

- 7 **ar osteg** Ar goedd, h.y. yn y golwg, yng ngŵydd pawb. Am yr ymadrodd, gw. GPC 1514 d.g. *gosteg*; cf., e.e., GIG XVI.47–8 *I eistedd fry ar osteg / Ar y ford dâl ...*
- 8 **restio** ‘Stopio’ yw’r ystyr sy’n gweddu yma yn hytrach nag ‘arestio’, yn wahanol i 12.1–5; gw. GPC 2982 d.g. *restiaf*<sup>1</sup>, *ib.* 1231 d.g. *erestiaf* ac OED Online d.g. *arrest*, *v.*
- 12 **Maelienydd** Cantref yn Rhwng Gwy a Hafren ym Maesyfed.
- 17 **Arglwydd Herbert** Gw. y nodyn cefndir.
- 18 **cwfert** ‘Gorchudd, caead’ neu ‘cysgod, lloches’, yn drosiadol yn aml yn y canu mawl, gw. GPC 637. Lloches gwin yw Meredudd, felly.
- 22 **tyre** Gan mai annhebygol fyddai cyfeiriad at dyrau Morgannwg, cymerir mai’r a. *tyre* sydd yma, gw. 12.99n ar *A Phenfro dyre* a 6.91n. ‘Nwyfus’ yma, efallai, yn hytrach na ‘trythyll, chwantus’.
- 23 **fforsele** E.ll. a ddisgwylid, ond tybed a yw’n ffurf ar S.C. *forcelet* ‘coffr neu gist fechan’? Gw. OED Online d.g. *forcelet*<sup>2</sup> (yr engh. gynharaf c.1475).
- 24 **bwrdin** Ai benthyciad o’r S. *boarding* ‘the supplying of stated meals; the obtaining of food, or food and lodging, at another person’s house for a stipulated charge’ (engh. gynharaf yn yr ystyr honno: 1530, gw. OED Online)? Posibilrwydd arall yw fod *fwrtin* yn wall am *fwtrin* ac mai *O fwtri’n Silin* a fwriadwyd (cf., e.e., *eryrt* am *erydr* yn ll. 49 isod); cf. GIG XVI.63–6 *Rhydd yw pob lle yn rhoddi / Ystafell, meddgell i mi; / Cegin, pantri, bwtri, bwyd / Pan fyynnwyf ...*
- Silin** Gw. 7.108n. Y mae Lewys Glyn Cothi yntau’n ei gysylltu â lletygarwch, GLGC 29.3–4 *Sain Silin dros naw seler / ydiw enw Siôn dan y sêr.*
- 28 **lleder** Llsgr. *lled*. Cf. 7.31, 78 lle y profir y ffurf gan yr odl.
- 31 **ac elfydd** A’r cyffelyb? Gw. GPC 1205 d.g. *elfydd*<sup>2</sup>, sef cywasgiad o *hefelydd*, mae’n debyg. Gellid yr ystyr ‘dim tebyg, dim o’r fath’ yn ll. 57 isod (llsgr. *elfdd*); cf., e.e., TA III.87 *Oes wyneb eilfyw, oes neb elfydd? Elfydd*<sup>1</sup> ‘byd, daear’ sy’n gweddu yn 7.12 uchod.
- 34 **Melan** Dinas Milano, cf. 11.67. Daeth *melan* fel e.c. neu a. i olygu ‘dur’, yn enwedig am arfau; cf. 7.128 *arfe melan* a gw. GPC 2418 am enghrau. tebyg.
- 38 **ysbaenelaid** Y mae *ysbaenel* (< S.Diw.Cyn. *spaynell*) yn amr. ar *ysbaniel*, gw. GPC 3188.
- 39 **gwasogiaid** Ni restrir y ffurf yn GPC ond cf. y f. *gwasogi* (*gwas* + *-ogi*) ‘gweini, gweinyddu’, *ib.* 1598 (un engh. o 1595). Llsgr. *acyracwsocyeit*. Y mae hepgor llafariad yn nodweddiadol o’r orgraff; cf., e.e., *cwstata* am *gwastata* yn 3.88. Gallai *cyra* gynrychioli *gra* ‘ffwr’, ond nid

ymddengys hynny'n debygol yn y cyd-destun.

40 **uwchlaw** Llsg. *ywllaw*. Gellid *uwchllaw*, ond *uwchlaw* yw'r ffurf yn ll. 43 isod a cf. 2.100 a 14.26.

43 **Caerllion** Caerllion ar Wysg, cf. 7.8 a 10.96.

46 **gwyrddion** Llsg. *crddyon*.

49 **erydr** Llsg. *eryrt*.

50 **ierchwys** Amr. ar *erchwys* 'haid o gŵn hela', gw. GPC 1230, 2012.

**tudded** Cf. 9.9 *tuddedyn*. Mentrwyd diwygio *llvddet* gan nad yw'r ystyr yn gweddu. Gellid diwygio i *ierchwys a'u lludded* 'cŵn hela a'u blinder mawr'.

54 **ehogiaid** Llsg. *ehocyt*. *Eogiaid* ac *eogau* yw'r unig ffurfiau ll. a restrir yn GPC 1225, ond dyfynnir *ehogeu*; cf. *ehogyn*, *ehogaidd*, &c.

56 **Ac aml frethyn** Llsg. *acmalfyreddyn*.

57 **elfydd** Llsg. *elfdd*.

57–8 'Ni chanwn ddim tebyg i unrhyw beth na haeddai Meredudd mohono'?

#### 14

Y mae dechrau'r gerdd hynod hon ar goll,<sup>1</sup> ac mae'n bosibl y buasai'r llinellau agoriadol yn bwrw mwy o oleuni ar y geiriau sy'n dilyn y gerdd yn yr un llaw: *Y Nant a'i cant i'r cŵn*. Y mae'n eglur, fodd bynnag, mai milwyr o Landysul (llau. 48, 64) a gaiff eu melltithio. Cawn gan y Nant ddisgrifiad truenus o fanwl o'r eiddo a gipiwyd oddi arno i dref Llanymddyfri, gan gynnwys arian a gwisgoedd, gwrthbanau, ysbardunau a'i gyfrwy gorau, ei gorn bual, ei bedwar llyfr, ei ddwy sbectol a dwy het. Honna yn rhai o'i gerddi gofyn iddo gael ei ysbeilio gan ladron—yng nghanedd 9 gan wŷr cwmwd Hirfryn yn sir Gaerfyrddin (sy'n cynnwys Llanymddyfri), gwŷr Cellan ger Llanbedr Pont Steffan a gwŷr Cyfeiliog ym Mhowys; yng nghanedd 7 gwŷr Elfed yn sir Gaerfyrddin yw'r dihirod. Neilltuir y gerdd hon yn llwyr i felltithio'r lladron, a hyd yn oed yn ôl safonau dychan yr Oesoedd Canol y mae'r felltith yn anghyffredin o ffyrnig. Melltithir sir Gaer yn ogystal â Cheredigion, gan ddarogan dwy laddfa waedlyd sy'n dwyn i gof frwydrau hanesyddol, y naill ger Pwllodyfach ryw bum milltir i'r gorllewin o Gaerfyrddin a'r llall ger Llangathen gerllaw Llandeilo. Â'r ddwy sir honno hefyd y cysylltir y lladron a felltithir ar fesur yr englyn yng nghanedd 15; enwir yno Landdeusant a chwmd Is Cennen, a Glyn Aeron yng Ngheredigion.

<sup>1</sup> Ceir ymgais gynnar i olygu'r gerdd, gyda chyfieithiad i'r Almaeneg, gan T. Gwynn Jones, 'Ein kymrisches Fluchgedicht', ZCP 17 (1928), 167–76. Cyfeirir at rai o'i ddarlleniadau yn y nodiadau isod.

Nodwedd fwyaf trawiadol y gerdd hon yw'r ailadrodd fformiwläig yn llau. 89–112 sy'n golygu bod y felltith, ar fesur rhythmig y Nant, yn ymdebygu i weddi neu swyngyfaredd ddefodol. *Mi a gana' Ddews lawden / Ar y lladron hen*, meddir, cyfeiriad at adnod gyntaf Salm 109, *Deus, laudem meam ne tacueris* ('Na thaw, o Dduw, fy moliant'). Yn y salm honno y mae'r Brenin Dafydd yn melltithio ei elyn, nid yn annhebyg i rai o felltithion y Nant: *Ychydig fyddo ei ddyddiau; a chymered arall ei swydd ef. Bydded ei blant yn amddifaid, a'i wraig yn weddw ... Na fydded neb a estynno drugaredd iddo; ac na fydded neb a drugarhao wrth ei amddifaid ef. Torrer ymaith ei hiliogaeth ef: dileer eu henw yn yr oes nesaf.*<sup>2</sup>

- 1 **a'u hesgyrn** Llsgr. *yhescyrn*, ond mae lle i lythyren arall ar ddechrau'r ll., ac mae llythrennau cyntaf y llau. canlynol yn bwl. Cymerir mai *ay* a ysgrifennwyd, yn debyg i lau. 2 a 3.
- 2 **dyfnon** Ll. *dwfn*, h.y. wedi eu claddu? Llsgr. *ddfynon*; *ddihrion* yw cynnig T. Gwynn Jones, ond ymddengys mai *f*sydd yma yn hytrach nag *h*, ac *n* yn hytrach na *ri*.
- 3 **rhofion** 'Rhaweidiau, yn enw. tail, &c., a grefir oddi ar fuarth â rhaw', GPC 3093. Dyma'r unig engh. a nodir, gan ychwanegu bod y ffurf ar lafar yn Nyfed. Ceir cynghanedd amherffaith rhwng *rhofion* a *rhaffe*; cf. *lefe* / *llifaid* yn llau. 11–12 a *calon* / *celli* yn llau. 19–20.
- 5 **ac na** Llsgr. *acyna*; cf. ll. 117 isod.
- 6 **llam** Yn yr ystyr 'anffawd'? Gw. GPC 2091–2.  
**ysgwd** Yr ystyron a roddir yn GPC 3253 yw 'gwth, h«b, hergwd, hwrdd, hyrddiad, lluchiad, hefyd yn *ffig.*; clep, ergyd; ysgytiad, siglad'. Digwydd *ysgwtbren* mewn cerdd ddychan i leidr o Lyfr Coch Hergest o waith y Mab Cryg (GDC 15.32), a chynigir yr ystyr 'crocbren'. *llemystwt* a ddarllenodd T. Gwynn Jones, gan awgrymu ei fod yn ffurf lafar ar *llemystot*. Tybed nad *llamystenod* a olygai, sef ll. *llamysten* 'cudyll glas' (gw. GPC 2094)?
- 7 **siwrwd** Llsgr. *sirwt*. Diwygiad petrus, ond nid yw *sirwd* yn ymddangos yn ystyrlon. 'Dernynnau, tameidiau, yfflon' yw ystyr *siwrwd* neu *swrwd*, a gall olygu hefyd 'sorod, gwaelodion, gweddillion, ysbwrial', gw. GPC 3298. Posibilrwydd arall yw *sibrwd*, ond byddai'r gyfatebiaeth gytseinol â'r ll. nesaf yn wannach. Awgryma T. Gwynn Jones yr ystyr 'coedwig' i *sirwd*, o'r S. *shirwood*.
- 8 **mesyryd** Gw. 4.60n.
- 11 **a lefe** Llsgr. *allefe*.

<sup>2</sup> Salm 109.8–13.

- 13–15 Annisgwyl yw'r terfyniad ll. *-au* yn hytrach nag *-e* yn orgraff y copïydd, ond cf. ll. 47, 13.45–6 a cherdd 15 sydd ar fesur englyn.
- 16 **cesail** Llsg. *heseil*.
- 20 **celli** *celfi* a ddarllenodd T. Gwynn Jones. Ymddengys fod llinell o dan yr ail / sy'n ei gwneud yn debyg i *f*.
- 22 **perfeddiach** Ffurf fachigol *perfedd*; llsg. *byrfeiddiach*.
- 23 **uchlaw** Ceir y ddwy ffurf, *uchlaw* ac *uwchlaw*, gan y Nant, cf. ll. 26.  
**Pwllodyfach** E. lle yng nghwmwd Penrhyn yng Nghantref Gwarthaf, sir Gaerfyrddin, cf. GLGC 69.14, 70.13. Y mae'n debyg fod yma gof am frwydr Pwllodyfach, 1042, lle y trechwyd byddin Lychlynaidd gan Hywel ab Edwin, arglwydd Dyfed ac Ystrad Tywi, gw. HW ii, 360.
- 24 Y mae'r ll. wreiddiol, *amddwynyntefeit*, wedi ei dileu, ac *yrbyrinyntefyrn* wedi ei ychwanegu ar ymyl y ddalen. Cymerir mai gwall am *byrain* yw *byrin*.
- 25 **ail lladdfa** Ynghylch peidio â threiglo *ll* ac *rh* ar flaen eb. yn dilyn *ail*, gw. Treigladau 41.
- 27 **Cothi** Y mae afon Cothi yn llifo i afon Tywi rhwng Caerfyrddin a Llangathen.
- 28 **Llangathen** Gw. 10.92n. Ym Mehefin 1257 yr oedd byddin Seisnig yn dychwelyd o Landeilo i Gaerfyrddin pan ymosodwyd arnynt yng Nghoed Llathen yn Llangathen gan filwyr Cymreig dan arweiniad Meredudd ab Owain a Meredudd ap Rhys Gryg. Collasant eu cyflenwadau a'u ceffylau, ac yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw yng Nghymerau (gerllaw Aber Cothi yn fwy na thebyg), trechwyd y Saeson mewn brwydr waedlyd gan ladd hyd at dair mil o filwyr. Gw. HW ii, 720–1; J.E. Lloyd, *A History of Carmarthenshire*, i (Cardiff, 1935), 188–9. Cadwyd y cof am y gyflafan mewn enwau lleol megis Cae Dial a Chae yr Ochain.
- 29 **rhigod** Pilori, gw. GPC 3072 lle y dyfynnir yr engh. hon.
- 35 **ar gais** Un ystyr bosibl yw 'yn ceisio, yn chwilio', cf. BRh 2 *A gwr a oed ar y keis hwnnw, sef oed y enw, Ronabwy*. Rhydd GPC 390 d.g. *cais*<sup>1</sup> hefyd yr ystyr 'ar unwaith' i *ar gais*, a'r engh. gynharaf yn dyddio o 1567, ac fe ddichon mai engh. gynharach o'r ymadrodd a geir yma.
- 36 **abwy** Carcas, burgyn (cf. *abo*), gw. GPC<sup>2</sup> 12.
- 43 **galon** Ll. *gâl* 'gelyn'. Llsg. *wrddynycalon*. Rhydd hyn well ystyr nag 'wrth wyn y galon'. Cf., e.e., CDG 116.65–6 *Wrth wyn ysgar* [gelyn] ... / ... *y dêl adref*, a gthg. 1.93 *Wrth wyn Margred ferch Siôn*, h.y. yn ôl ei dymuniad.
- 48 **sawdwyr** Milwyr neu ymladdwyr. Llsg. *sawtyr*.



- 51 **noble** Gw. 2.117n. Y mae'r ll. wreiddiol, *asaiddonoble*, wedi ei dileu, ac *anawonobeleyba* wedi ei ychwanegu ar ymyl y ddalen.
- 52 **y bardd** Llsg. *yrbardd*.
- 57 **clog** *Clo* a ddarllenodd T. Gwynn Jones, ond nid ymddengys fod y llythyren *c* wedi ei dileu: *fycnloceethbybyr* (dechreuwyd ysgrifennu'r gair *eglur* a geir yn ll. 59).
- 60 Fe all fod llythyren o flaen *ycnorn* (yng nghorn).
- 66 **sbectal** Digwydd y ffurfiau (*y*)*sbectal* ac *ysbectol* o'r 15g. ymlaen, gw. GPC 3189.
- 68 **is hendy** Llsg. *isenty*; *is unty* yw darlleniad T. Gwynn Jones, ac *untai* yn ll. 108 isod, *Heb losgi eu hendai*. Ceir yr un blas difriol yn IGE<sup>2</sup> LXVII. 23–4 *Ystum wen, blas dinam waith, / Cegydd, nid hendy coegwaith*. Annhebygol mai e. lle sydd yma.
- 70 **ysgyrnlwyd** Gellid *esgyrnlwyd*, ond cf. GPC 1248 d.g. *esgyrnig*, *ysgyrnig*.
- 72 **cwaerel** Amr. ar *cwarel* 'saeth bwa croes', gw. GPC 633 d.g. *cwarel<sup>2</sup>* a cf., e.e., GLGC 137.46. Anodd dirnad darlleniad y llsg., *caroel*, a phrin fod *carol* yn addas yma. Posibilrwydd arall fyddai diwygio i *ein cwarel* 'ein cweryl', gw. GPC 633 d.g. *cwarel<sup>3</sup>* (S. *quarrel*), enghrau. o 1657 ymlaen, a *cwarelu* 'cweryla' o 1606. Digwydd y ffurf *cweryl* yn gynharach, gw. *ib.* 636.
- 74 **lladron** Llsg. *llaron*.
- 79 **da** Yn yr ystyr 'cyfoeth, meddiannau', cf. ll. 87. Llsg. *amytamddyfrwys*. Llai tebygol yn y cyd-destun yw *am yd*, neu *amyd* 'yd cymysg'.
- amddyfrwys** 'Cadarn', mae'n debyg, gw. GPC<sup>2</sup> 203 a'r enghrau. a ddyfynnir yno.
- 80 **Llanymddyfri** Cf. 9.61n.
- 82 Chwaraeir ar yr ymadrodd 'mynd i gythraul / i ddiawl', cf. 1.39 *I ddiawl â duryr*. Camddarlleniad yw *cyddreweit* yn nhestun T. Gwynn Jones.
- 85 **erchwyn** Camddarlleniad yw *wchwyn* yn nhestun T. Gwynn Jones.
- 88 **yndi** Gw. 11.87n. Annisgwyl yw *Yn ... yndi*.
- 89 **Dews lawden** Gw. y nodyn cefndir.
- 92 **gyddge** Ffurf lafar, fe ymddengys, ar *gyddygau*, gw. GPC 1607 d.g. *gwddf*, *gwddw*, *gwddwg*. Llsg. *cyddceyrtec*; cf. 8.112n.
- 96 **cynawan** Un o amryw o ffurfiau ll. *cenau*, *cenaw*, gw. GPC 461.
- 100 **Dyfennen** Dyfennen ab Annun ap Ceredig, gw. EWGT 20. Ei daid a roes ei enw i Geredigion, ac o Landysul yng Ngheredigion y deuai'r lladron a ymosododd ar y bardd. Llsg. *cwlatyfynen*.

- 104 **noethi** Rhoddai *noethni* gryfach cynghanedd, ond 1585 yw dyddiad yr engh. gynharaf a ddyfynnir yn GPC 2593.
- 105 **y trydydd** Tybed nad gwall yw *ytrydd* am *tyrytydd* (trydydd)?
- 108 **eu hendai** Llsgr. *yentai*.
- 113 **diain** Ffurf, fe ymddengys, ar *dien* ‘dihenydd, marwolaeth’ neu ‘tynged’, gw. GPC 974 d.g. *dien*<sup>2</sup> (sylwer mai *diein* yw ffurf yr engh. gynharaf a restrir). Efallai mai gwall am *tien* yw *tiein*.
- 114 **planhaddaf** Plant Adda, cf. 2.18.
- 116 **tyrnas** Gw. 12.3n.
- 118 **Dulyn** Camddarlenniad yw *ddutun* yn nhestun T. Gwynn Jones.
- 121 **clywer** Llsgr. *cylwer*.
- 122 **gwlad y wiber** Ai bro'r diafol, gan gyfeirio at sir Gaerfyrddin? Y mae'n werth cofio hefyd mai *Gwiber edeinog* yw Watgyn ap Syr Rhosier Fychan a fu'n gwnstabl Caerfyrddin (gw. 11.13, 2n a'r nodyn cefndir), sy'n gyfeiriad at arfbais y teulu.
- 124 **ysgawlwyn** Llwyn ysgaw (diwygiad petrus i *yscalwyn*). Diwygiad llai tebygol fyddai *ysgall-lwyn*, ond cf. y gynghanedd rhwng *lefe* a *llifaid* yn llau. 11–12 a rhwng *calon* a *celli* yn llau. 19–20. Posibilrwydd arall yw mai benthyciad o'r S. *scallion* sydd yma, sef math o winiwnsyn. Er bod enghrau. yn S. o'r 14g. ymlaen, yr unig fenthyciad a restrir yn GPC 3831 yw'r ffurf *ysgaliwns* (< S. *scallions*) o'r 19g. Cyfeirir at *sibwl*, sef *scallions*, *spring onions*, yn 8.71.

## 15

Y mae'r englynion hyn yn perthyn i draddodiad hir o ddychanu lladron.<sup>1</sup> O'r cyfnod hwn cymharer, er enghraifft, awdl ddychan Deio ab Ieuan Du o Geredigion i'r lleidr a ddug wartheg y bardd,<sup>2</sup> lle y ceir y math o fanylu dialgar ar grogi'r troseddwr sy'n nodweddu'r cerddi hyn. Diau mai at gartref Rhys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Aberpergwm yng Nglyn-nedd y cyfeirir yn y llinell gyntaf, sef gwrthrych cerdd 1, ac mae'n fwy na thebyg mai ar ei aelwyd ef y datganwyd y gerdd. Y mae'n ddiddorol nodi bod gan Ieuan Gethin gywydd cellweirus sy'n cwyno wrth Siôn ap Rhys o Aberpergwm fod ei weision yn dwyn mêl oddi ar fferm Ieuan ym Maglan.<sup>3</sup> Yng ngherdd y Nant ymddengys mai yd Aberpergwm sydd wedi ei ladrata. Cysylltir y lladron ag Is Cennen a Llanddeusant yn sir Gaerfyrddin, a disgrifir sut y cânt eu dal a'u crogi yn ddirugaredd yng Nglyn Aeron yng Ngheredigion.

<sup>1</sup> Gw. DGIA 51.

<sup>2</sup> GDID cerdd 17.

<sup>3</sup> Gw. TLIM 27.

Yn wahanol i gerddi eraill y Nant, ar fesur yr englyn unodl union y lluniwyd y gerdd hon, sef y prif gyfrwng ar gyfer dychan erbyn ail hanner y bymthegfed ganrif. Cadwyn o englynion sydd yma, a geiriau clo pob englyn yn cyrchu dechrau'r englyn nesaf. Serch hynny, anghelfydd yw'r grefft. Ceir llawer iawn o led-gynghanedd a chynghanedd braidd gyffwrdd; yr unig englynion sy'n cynnwys cynghanedd gwbl reolaidd ym mhob llinell yw'r englyn cyntaf a'r olaf ond un. At hynny, gwelir y bai a eilw'r gramadegwyr yn 'garnymorddiwes' yn y tri englyn olaf, sef odli dwy linell yr esgyll yn ddiacen,<sup>4</sup> ac mae nifer y sillafau ym mhaladr yr englynion yn amrywio. Nodwedd anghyffredin arall yw mai odlau proest (sy'n cynnwys cam-broest yn llau. 14 a 19), yn hytrach nag odl gyflawn fel y disgwylid, a geir yn y pedwerydd a'r pumed pennill.

1 **llys Nedd** Gw. y nodyn cefndir. *Senedd fawr llys Nedd yw fo*, meddai Lewys Glyn Cothi am Rys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd (GLGC 104.17).

**cyfannedd** O'i ddeall yn e., 'annedd, preswylfod', gellid darllen *Llys Nedd, cyfannedd cof ennyd*. Llsg. *cyfandd*.

2 **galw** Ymddengys ei fod yn ddeusill yma, fel *derw / carw / garw* sy'n odli â'i gilydd yn 7.61–3.

**yr hollyd** 'Yr holl yd', cf., e.e., CDG 109.41 *Trwm fu gyfrgoll yr hollyd*. Llsg. *yrollyt*.

5 **yd da'r hendaid—o ladron** Llsg. *yta'entitolaronn*. Hepgorwyd y gytsain *t o llatron* yn 10.61 a 14.74 yn ogystal.

6 **Nid haelon, nid telaid** Llsg. *nytaelonyteleit*.

7 **Is Cennen** Cwmwd yn y Cantref Bychan yn sir Gaerfyrddin, gw. WATU 95.

8 **Llanddeusant** Plwyf yng nghwmwd Perfedd yn y Cantref Bychan, gerllaw Is Cennen, gw. WATU 111. Llsg. *llanyddevsant*.

**cant** Llsg. *cat*.

9 **os** Gw. 3.96n.

**grawn** Llsg. *ra[.]*. Nid oes modd darllen yr hyn sy'n dilyn *ra*, ond *rawn* a awgryma'r odl, sef *grawn* yr yd a ddygwyd gan y lladron.

**arnun** Llsg. *anrvn*.

10 **pyrnhawn** Ffurf ddigon cyffredin, cf., e.e., GLGC 98.34. Nodir yn GPC 2923 d.g. *prynhawn* ei bod i'w chael ar lafar ym Morgannwg.

11 **rhydlawn** Llsg. *rtlawn*. Diwygiad petrus: llawn rhwd? Nid ymddengys fod cynghanedd o gwbl yn y ll. hon; cf. ll. 19.

<sup>4</sup> Gw. GP 14, 33, 54.

- 15 **i maes** ‘Allan’; am enghrau. eraill mewn Cym.C. gw. GPC 2313.
- 17–18 Ymddengys y testun yn llwgr: *aryanelynaer*. Ychwanegwyd yn o flaen ll. 19 yn y llsg., ond diau mai cyn y ll. flaenorol y’i bwriadwyd, sef o flaen *elynaer*. Sylwer mai llau. seithsill sydd ym mhob esgyll, ond bod 11 sillaf yn ll. gyntaf sawl un o’r englynion. Y mae’n anodd gweld synnwyr na chynghanedd yn [*yn*]elynaer, ond o newid *r* yn *l* ceid yn *elyn / a êl*, a rydd gyfatebiaeth rhwng y gair cyrch a dechrau’r ail l. fel a geir yn yr englynion eraill, er nad yw’r gystrawen yn foddhaol iawn. Gellid darllen *ynelyn* (anelyn’) yn y gair cyrch—cf. GLGC 165.29–30 *Ieuan a welid, os anelyn’, / yn lew o annel dan ei linyr*—ond anodd wedyn dehongli *aer* ar ddechrau’r ll. nesaf.
- 18 **Glyn Aeron** Rhan o Ddyffryn Aeron yng nghanolbarth Ceredigion, gw. GLIBH 11–12.
- 19 **i mywn** Diwygiad petrus. Llsg. *vmvn*.
- 20 **wrth y llinin** Y mae’n debyg mai’r ymadrodd *wrth y llinyn* (wrth linyr a rheol) sydd yma, sef ‘yn fanwl gywir’ neu ‘yn union yn ôl y rheol’, gw. GPC 2186. Gellid yr ystyr ‘drwy grogi’ hefyd; diau fod yr amwysedd yn fwriadol.
- 23 **bedw lle bai** Llsg. *betwlebei*. Aneglur yw’r ystyr yma eto. Tybed nad *lletbai*, ‘ar ogwydd, cam’ neu ‘simsan’, sydd yma? Posibilrwydd arall yw mai *betwar* a fwriadwyd: *Pedwar lle bai un pedest*.  
**pedest** Ffurf ar *pedestr* ‘rhodiwr’; i’r 17g. y perthyn yr engh. o’r amr. hwn a nodir yn GPC 2713 (cf. *ffenest(r)*).
- 24 **breſt** Yn yr ystyr ‘*breastplate*’, efallai, gw. GPC 320 a’r enghrau. a ddyfynnir yno.
- 25 **rest** ‘Arestiad’ sydd fwyaf addas, efallai, yn hytrach na rest ar arfwisg i ddal bôn gwaywffon, gw. GPC 2982 d.g. *rest<sup>2</sup>*, *rhest<sup>2</sup>*. Ond gallai *ryes’* fod yn wall am *arést*, a’r ail o’r ystyron hyn a roddir i’r ffurf honno yn GPC<sup>2</sup> 439 (engh. o’r 15g.).  
**arwest** Yr ystyr ‘llinyr, cortyn’ sy’n gweddu yma, yn hytrach na cherddoriaeth, barddoniaeth neu dant offeryn cerdd, gw. GPC<sup>2</sup> 487–8. Llsg. *arwes*.  
**ar wŷdd y grog** Llai tebygol o ran ystyr ac odl yw *arwydd*—*y grog*, er y byddai’r gynghanedd yn fwy rheolaidd.
- 26 **cregyn** Cf. yr ystyr ‘tagell pysgodyn; gêm’ a roddir i *cragen* yn GPC 578 (a’r engh. gynharaf o’r 16g.)? Cf. hefyd *cragen gar* (*march*) ‘*osselet, a horny excrescence, esp. on the inside of a horse’s leg*’, *ib.*, eto o’r 16g. ymlaen.
- 27 **gwaedydd** Yn yr ystyr ‘lladdwr, llofrudd’; gw. GPC 1548 d.g. *gwaedwr, gwaedydd*, a cf. GLGC 129.7–8 *captan dros Edwart Frenin, / cadw’r dref rhag gwaedwyr y drin*.

29 Ll. naw sillaf. Tybed nad *nac un dydd* a fwriadwyd?

33 **saethau sythion** Llsgr. *saeddsyddon*. Nid yw'r *dd* gyntaf yn gwbl eglur, ond o ychwanegu'r terfyniad ll. ceir ystyr a chynghanedd foddhaol.

**ying nghlydwr** Diwygiwyd eto gan fod *ynhlwtwr* (yng nghlwdwr) yn dywyll. Rhydd *clydwr* 'cysgod, diddosrwydd, cynhesrwydd, cysur, amddiffyn, diogelwch' (GPC 515) synnwyr digon addas.

35 **arwe** 'Anwe; gwe, gweadedd ...; ?mantell' yw'r ystyron a rydd GPC<sup>2</sup> 485. Gair prin, fe ymddengys, ond mae'n gweddu o ran ystyr a chynghanedd, ac er bod yr *w* fymryn yn aneglur, y mae'n sicr nad *arfe* sydd yma.

36 **wrth y ganon** Yn ôl y rheol, cf. 8.59n.

37–40 Ychwanegwyd yr englyn hwn ar ôl y priodoliad *ynantaycant*, gyda phriodoliad arall, *nant*, yn ei ddilyn.

39 **Dewi** Gw. 2.108n.

## 16

Cerdd, neu ran o gerdd, yw hon a ganwyd i dynnu coes bardd arall. Un gerdd yn unig a gadwyd wrth enw Bedyn Sioch, sef awdl foliant i Rys ap Siôn ap Rhys ap Siancyn o Lyn-nedd a folwyd gan y Nant yn ogystal (gw. cerdd 1). Cofnodwyd yr awdl yn Peniarth 54, y llawysgrif sy'n cynnwys cerddi'r Nant.<sup>1</sup> Y mae'n ddigon posibl, felly, mai ar aelwyd Rhys y datganwyd y llinellau hyn, yn rhan o ddifyrrwch clerwrol rhwng y beirdd. Dyma'r math o smaldod celwydd golau sy'n nodweddu defod y cyff clêr, lle y byddai'r beirdd yn gwawdio neu'n testunio ei gilydd ar fesur yr englyn, fel arfer mewn neithior neu dros wyl y Nadolig.<sup>2</sup> Un dull cyffredin o iselhau gwrthrych y dychan yw ei gysylltu â chreaduriaid o wahanol fathau, a dyna a wna'r Nant wrth ddisgrifio'r Bedyn yn hela moch. Cymharer, er enghraifft, bennill clo gosteg o englynion a ganodd Iorwerth Fynglwyd 'pan haerawdd y prydyddion iddo ef bobî moch bychain yn rhith cwningod ar ddydd ei fabsant yn Saint-y-Brid':<sup>3</sup>

Beth bynnag manag mwynion a heliais,  
 holwch y prydyddion:  
 o helais hwch, hi las hon;  
 hwnt y llas, hwyntau llewson.

<sup>1</sup> Pen 54, i, 425–7.

<sup>2</sup> Gw. LIU 383–6; Jerry Hunter, 'Cydd-destunoli Ymrysonau'r Cywyddwyr: Cipolwg ar "Yr Ysbaddiad Barddol"', *Dwned*, iii (1997), 33–52.

<sup>3</sup> GIF 91–2.

Cymharer hefyd gyfeiriad y Nant at berchyll Hywel Grythor.<sup>4</sup> Chwerthinllyd yw'r honiad i Fedyn Sioch geisio hedfan i Rufain ac iddo gollu un o'i bedair aden, ond tybed na fu'r bardd ar bererindod i Rufain, fel y bu Lewys Glyn Cothi, ac fel y bu Huw Cae Llwyd yntau yn 1475, bardd arall y ceir ei waith yn llawysgrif Peniarth 54?<sup>5</sup>

- 1 **Bedyn Sioch** Gw. y nodyn cefndir. Ymddengys mai ffurf fachigol ar *Bedo* yw *Bedyn*.  
**teiroch** *Tair + och*.
- 2 **trillun** 'Tri anifail (wrth gyfrif neu fel grŵp)', gw. GPC 3596; cf. yr engh. 'trillun o geffylau', sef tri cheffyl yn gweithio gyda'i gilydd. I'r 17g. y perthyn yr engh. gynharaf a restrir yn GPC.
- 3 Ymddengys fod y testun yn llwgr: *wrddyhenestvoch*. Un diwygiad posibl, a fuasai'n gyson ag arfer y copïydd o hepgor llythrennau, yw *Wrth ei hene[i]st du[g]och* (neu *d[w]yoch* yn debyg i *teiroch* yn ll. 1).
- 4 Y mae'r ll. hon hefyd yn anodd ei dirnad: *nywrybi[.]anystv<sup>[.]r</sup>* (y mae'r hyn sydd rhwng yr *i* a'r *a* yn anodd ei ddarllen, ychwanegwyd llythyren aneglur uwchben *v* ac mae'r llythyren olaf yn ansicr). Rhoddai *bidan* 'eiddilyn' ystyr ddychanol addas, gw. GPC 277, ond mae'n amheus ai *bitan* a ysgrifennwyd.
- 5 **a throi i ffordd** Llsg. *addroyfordd*. Ni ellir bod yn gwbl sicr o'r darlleniad; y mae rhai llythrennau yn aneglur. 'I ffwrdd' yw ystyr *i ffordd*.
- 7 **pedwaredd** Llsg. *bytwredd*. Nid annichon yr amr. *pedwyredd*, gw. GPC 2713 d.g. *pedwerydd*.

<sup>4</sup> Gw. 2.50n.

<sup>5</sup> Ynghylch y cerddi am bererindodau i Rufain, gw. Thomas Roberts, 'Cywyddau pererindod', *Traeth* 1944, 28–39.

*Atodiad*

